

Twf ac ymlaen: Aseiad effaith a'r ffordd ymlaen

Adroddiad Terfynol

2008

Cynhyrchwyd gan

Yr Athro Fiona Irvine

Gwerfyl Roberts

Dr Llinos Spencer


Peter Jones

Siobhan Tranter

ar gyfer

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Hawlfraint © Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2008



Yr Athro Fiona Irvine*
Gwerfyl Roberts
Dr Llinos Spencer
Peter Jones
Siobhan Tranter

*Y Ganolfan Ymchwil Gysylltiedig ag Iechyd, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd,
Prifysgol Bangor, Fron Heulog, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, LL57 2EF

Cyfadrann Iechyd a Gwyddor Gymdeithasol Gymhwysol, Prifysgol John Moores
Lerpwl, 79 Tithebarn Street, Lerpwl, L2 2ER

Crynodeb gweithredol

Rhagarweiniad

Cafodd cynllun Twf ei sefydlu er mwyn cynyddu'r niferoedd o deuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant. Canolbwynt Twf yw tynnu sylw at werth y Gymraeg a dwyieithrwydd i rieni, darpar rieni a'r boblogaeth yn gyffredinol; ac annog teuluoedd i fagu eu plant i fod yn ddwyieithog. Mae Twf yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu dwyieithrwydd yn ifanc ac o ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref. Prif gynulleidfa darged Twf yw teuluoedd cymysg eu hiaith, lle nad oes ond un rhiant yn siarad Cymraeg.

Comisiynwyd yr ymchwil hon gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddarparu gwerthusiad o effaith cynllun Twf a nodi ffyrdd o fynd â'r cynllun yn ei flaen.

Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng y 1^{af} o Fawrth 2005 a'r 28^{ain} o Chwefror 2008, ac roedd yn cynnwys pedair prif astudiaeth, sef: cyfweiliadau strwythuredig dros y ffôn gyda rhieni oedd yn disgwyl babi; cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni newydd; cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd a dadansoddiad ethnograffig o weithgareddau Twf. Y cyfarwyddyd gwreiddiol oedd cynnal yr astudiaeth yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Fodd bynnag, at hynny, cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn a chyfweiliadau wyneb yn wyneb hefyd yn Sir Ddinbych.

Rhydd y crynodeb gweithredol hwn drosolwg bras ar gasgliadau amrywiol elfennau'r ymchwil ac mae'n crynhoi'r argymhellion a gynigir fel ffordd i symud cynllun Twf yn ei flaen.

Canlyniadau

Mae casgliadau'r ymchwil wedi eu dosbarthu i dair prif gydran, sef dylanwadau'r cartref ar drosglwyddo'r Gymraeg; dylanwadau ar drosglwyddo'r Gymraeg wrth y rhyngwyneb rhwng y cartref a'r gymuned; a dylanwadau cymunedol ar drosglwyddo'r Gymraeg. Ystyrir effaith Twf yn y tair cydran yma.

Dylanwadau'r cartref

Dengys yr ymchwil fod nifer o ffactorau yn y cartref yn dylanwadu ar drosglwyddo iaith. Mae lefelau uchel o rwyddineb yn y Gymraeg ymhlith rhieni a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd ag agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd i gyd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fwriad rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant; ac mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig yn cael dylanwad cadarnhaol tebyg. Mae cydberthyniad cadarnhaol hefyd rhwng statws cymdeithasol-economaid uchel a gwell cyrhaeddiad addysgol a throsglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Dangosir yn yr ymchwil bod proffil iaith y teulu'n effeithio'n uniongyrchol ar drosglwyddo'r Gymraeg, gyda mwy o rieni o deuluoedd lle'r oedd y ddau riant yn siarad Cymraeg yn dangos bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg nag oedd o rieni o deuluoedd lle nad oedd ond un rhiant yn siarad Cymraeg. Dengys yr astudiaeth nad oes perthynas rhwng rhyw y rhiant a throsglwyddo'r iaith; na rhwng safle'r plentyn o fewn y teulu a throsglwyddo'r Gymraeg. Rhydd y casgliadau hyn beth cyfeiriad i gynllun Twf ac awgrymant y dylid targedu rhai teuluoedd gyda nodweddion demograffig, ieithyddol a phersonol

Twf ac Ymlaen Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

arbennig i dderbyn mewnbwn mwy dwys gan Twf er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y Gymraeg yn cael ei mabwysiadu yn y cartref. Fodd bynnag, dengys yr ymchwil y gallai Twf wella'i ddull o dargedu, ac mae hyn yn arwain at nifer o argymhellion sy'n pwyntio at ddull mwy strategol a systematig, gyda mwy o bwyslais ar deilwrio'r mewnbwn i ddylanwadu ar ganfyddiadau rhieni ynghylch eu gallu i reoli trosglwyddiad iaith yn y cartref.

Dylanwadau wrth y rhyngwyneb cartref/cymuned

Dangosir bod teulu a chyfeillion a darpariaeth gofal plant yn effeithio ar batrymau iaith teuluoedd gyda phlant bach. Gall effaith y ffactorau hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol ac felly mae angen i gynllun Twf eu hystyried yn ofalus er mwyn cychwyn tuedd gadarnhaol mewn trosglwyddo'r Gymraeg. Mae potensial i'r negeseuon a ledaenir gan Twf, a'r adnoddau a'r gweithgareddau a ddefnyddir i gyfleu negeseuon o'r fath, fod yn ganolog o ran cynyddu lefel trosglwyddo iaith o rieni i blant. Dengys yr ymchwil y gall mewnbwn Twf ar hyn o bryd gael effaith arwyddocaol ar y penderfyniadau a wneir gan rieni mewn perthynas ag iaith. Fodd bynnag, lle bo cynlluniau ar gyfer trosglwyddo iaith wedi eu sefydlu eisoes, mae hyn fel arfer yn cadarnhau'r penderfyniad i drosglwyddo'r Gymraeg. Mae'r casgliadau hyn yn cynhyrchu cyfres o argymhellion sy'n canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau i ddylanwadu ar ddaliadau ymddygiadol a bwriadau ymddygiadol ymhlith rhieni a'r bobl sy'n arwyddocaol ym mywydau'r teulu, fel bod trosglwyddo'r Gymraeg yn dod yn realiti i deuluoedd gyda phlant bach.

Dylanwadau cymunedol

Dangosir bod proffil iaith y gymuned a'r statws a briodolir i'r Gymraeg yn ddangosyddion hollbwysig ar gyfer trosglwyddo iaith yn y cartref. Lle y gwelir bod y Gymraeg yn amlwg mewn cymuned ac yn iaith ddymunol, mae rhieni'n fwy tebygol o fynegi bwriadau i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Mae ymwelwyr iechyd a bydragedd yn weithwyr proffesiynol mawr eu parch yn y gymuned ac maent yn cynnig y potensial i ddod yn asiantau credadwy i gynllun Twf. Serch hynny, er bod yna beth ymrwymiad i ledaenu adnoddau Twf, mae yna ddifaterwch cyffredinol ynghylch trafod trosglwyddo iaith gyda rhieni. Daw ysgolion a meithrinfeydd a chyflogaeth leol i'r amlwg fel lleoliadau a all naill ai atgyfnerthu neu rwystro trosglwyddiad y Gymraeg ac mae angen i gynllun Twf dalu sylw i'r modd y gall annog rhieni i ddefnyddio lleoliadau addysgol a chyflogaeth sy'n gefnogol.

Symud ymlaen

Ar hyn o bryd, mae cyfrifoldeb ar gynllun Twf i fynd i'r afael â throsglwyddo'r Gymraeg ar lefel yr unigolyn ac felly mae'r ymdrechion wedi eu canolbwyntio ar gyfleu ei neges gyda golwg ar ddylanwadu ar ddefnydd rhiant-plentyn o'r iaith. Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ystyried sut y gall weithio mewn partneriaeth gyda chontractwr prosiect Twf, a chyda'i bartneriaid megis y Mudiad Ysgolion Meithrin, Mentrau Iaith, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a Chynlluniau Gweithredu Iaith y Bwrdd ei hun, er mwyn edrych i weld sut y gallai prosiect twf gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau cymunedol. Byddai hyn yn sicrhau nad cyfrifoldeb rhieni unigol yn unig yw trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref ond ei fod yn cael ei hwyluso hefyd ar y lefel strwythurol.

Argymhellion

Cynigir pymtheg o brif argymhellion yn yr adroddiad hwn ac mae'r rhain yn deillio'n bennaf o fapio casgliadau'r ymchwil yn erbyn amcanion presennol cynllun Twf. Caiff yr argymhellion eu crynhoi yma a gellir eu gweld yn llawn ar dudalennau 78-91 o'r prif adroddiad.

Twf ac Ymlaen Aseiad effaith a'r ffordd ymlaen

Rhif	Argymhelliad
1	Egluro rôl iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd a bydwagedd mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru
2	Gofyn am gyfarwydddebau statudol gan y llywodraeth a chyrrff proffesiynol i gynnal safonau ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwagedd wrth iddynt fynd ar y gofrestr mewn perthynas â'u rôl yn chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru
3	Nodi a chynnal cyfleoedd yn y cwricwla ymweld iechyd a bydwreigiaeth i gyflwyno a gwella ymwybyddiaeth o iaith a rhaglenni hyfforddi cynllun Twf
4	Sefydlu rôl newydd mewn cyrff gofal iechyd ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwagedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer cynllun Twf
5	Sefydlu arweiniad unffurf ar gyfer swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd a bydwagedd i ddatblygu gwybodaeth ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu ar gyfer eu grŵp cleientiaid
6	Sefydlu dulliau gweithredu ar gyfer swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd a bydwagedd i ddatblygu strategaethau i droi bwriadau yn ymddygiadau
7	Cydweithredu gydag ymwelwyr iechyd a bydwagedd dynodedig i gyrraedd teuluoedd Cymraeg/Saesneg a theuluoedd eraill ar sail demograffeg leol
8	Targedu grwpiau anodd eu cyrraedd, megis rheini o grwpiau cymdeithasol-economaidd isel, darpar dadau ac aelodau eraill o'r teulu estynedig
9	Ystyried gwella systemau monitro a gwerthuso cynllun Twf er mwyn darparu dull gwerthuso mwy trwyadl
10	Datblygu ymgyrchoedd hysbysebu priodol i godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch: <ul style="list-style-type: none"> - manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref - manteision dwyieithrwydd - manteision addysg gyfrwng Cymraeg
11	Gwella ffyrdd o weithio gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar i godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth ymhlith rhieni ynghylch <ul style="list-style-type: none"> - manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref - manteision dwyieithrwydd - manteision addysg gyfrwng Cymraeg
12	Datblygu gwybodaeth rhieni am fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref
13	Datblygu lefelau hyder rhieni a'u hyfedredd i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref
14	Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cymunedol er mwyn sicrhau bod ffocws y neges yn cyrraedd y lefel strwythurol yn ogystal â lefel yr unigolyn
15	Gwella gallu ac effeithlonrwydd gweithredol cynllun Twf er mwyn cynyddu'r cyswllt wyneb yn wyneb gyda rhieni

Tudalen gynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Tudalen gynnwys	7
1 Rhagarweiniad	8
1.2 Y cefndir i gynllun Twf.....	8
2 Astudiaeth ymchwil: Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen	10
2.1 Nodau ac amcanion	10
2.2 Proffiliau demograffig y pedair sir a astudiwyd.....	10
3 Methodoleg	12
3.1 Cynllun yr astudiaeth	12
3.1.2 Diffiniad o broffil iaith y teulu	13
3.1.3 Cyfweliadau dros y ffôn cyn y geni	16
3.1.4 Cyfweliadau ar ôl y geni.....	17
3.1.5 Dadansoddiad o weithgaredd Twf	17
3.1.6 Grwpiau ffocws	17
3.1.7 Ystyriaethau moesegol	17
3.2 Dulliau dadansoddi	18
3.3 Synthesis	18
3.4 Cryfderau a gwendidau'r astudiaeth ymchwil.....	19
4 Casgliadau	20
4.1 Dylanwadau'r cartref ar drosglwyddo'r Gymraeg ac effaith Twf.....	20
4.1.1 Hyfedredd yn y Gymraeg a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg	20
4.1.2 Hunaniaeth Gymreig a throsglwyddo iaith	22
4.1.3 Statws cymdeithasol-economaidd	24
4.1.4 Rhyw y person	26
4.1.5 Cyrhaeddiad addysgol	28
4.1.6 Agweddau tuag at ddwyieithrwydd	31
4.1.7 Proffil iaith y teulu	34
4.1.8 Safle'r plentyn yn y teulu.....	36
4.2 Dylanwadau ar drosglwyddo'r Gymraeg yn rhyngwyneb y cartref/y gymuned ac effaith Twf	40
4.2.1 Teulu estynedig a chyfeillion.....	40
4.2.2 Gofal plant	42
4.2.3 Neges Twf.....	44
4.2.4 Gweithgareddau Twf.....	48
4.2.5 Adnoddau Twf.....	50
4.3 Dylanwadau'r gymuned ar drosglwyddo'r Gymraeg ac effaith Twf	53
4.3.1 Proffil iaith a statws y gymuned	53
4.3.2 Cyflogaeth.....	54
4.3.3 Ysgolion a meithrinfeydd.....	57
4.3.4 Gweithwyr gofal iechedd proffesiynol.....	60
5 Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig (Ajzen, 1991)	64
6 Trafodaeth.....	67
7 Argymhellion a'r ffordd ymlaen.....	77
8 Cyfeiriadau	91

1 Rhagarweiniad

- 1.1.1.1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddarparu gwerthusiad o effaith cynllun Twf a chynnig rhai argymhellion ar gyfer symud y cynllun yn ei flaen. Diben yr astudiaeth ymchwil oedd cyfrannu tuag at ddatblygiad cynllun Twf yn ei genhadaeth i hybu trosglwyddo'r Gymraeg yn effeithiol yn y cartref.
- 1.1.1.2 Nodai'r fanyleb wreiddiol fod yr astudiaeth i gael ei chynnal yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Yn dilyn cychwyn yr astudiaeth, fodd bynnag, gofynnodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymhellach am fesur effaith cynllun Twf yn Sir Ddinbych.
- 1.1.1.3 Ymgwymerwyd â'r astudiaeth rhwng y 1^{af} o Fawrth 2005 a'r 28^{ain} o Chwefror 2008, a rhydd yr adroddiad hwn drosolwg ar holl gasgliadau'r amrywiol elfennau sydd wedi cyfrannu tuag at yr ymchwil. Ar y casgliadau integredig hyn y mae'r argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen i gynllun Twf yn seiliedig
- 1.1.1.4 Nid ymarferiad academaidd yw cynhyrchu'r adroddiad hwn i fod. Yn hytrach, bwriadwyd i'r adroddiad gyrraedd cynulleidfa eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau sydd â diddordeb mewn trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Gyda hyn mewn golwg, cadwyd manylion y dulliau methodolegol a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil i lawr i'r eithaf. Yn lle hynny, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gasgliadau'r astudiaeth ac ar yr argymhellion sy'n dilyn.

1.2 Y cefndir i gynllun Twf

- 1.2.1.1 Cafodd cynllun Twf ei sefydlu er mwyn cynyddu'r niferoedd o deuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant. Ers cyflwyno'r cynllun peilot yn ôl yn y flwyddyn 1998/99, mae cynllun Twf wedi cael ei reoli a'i ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ers Mai 2001 mae cwmni Iaith cyf., cwmni cynllunio ieithyddol, wedi bod yn rhedeg y gwaith maes ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun sy'n ymdrin â phob agwedd arall ar y project.
- 1.2.1.2 Nod strategol cynllun Twf yw cynyddu trosglwyddiad iaith yn y teulu, ac amcanion cyfredol y cynllun, y penderfynwyd arnynt yn 2007, yw:

Amcan 1: Cydweithio gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd fel eu bod yn cyfleu neges Twf i'r boblogaeth darged.

Amcan 2: Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd yn gyffredinol o werth cyflwyno'r Gymraeg yn y cartref, gwerth dwyieithrwydd a manteision addysg Gymraeg. Prif darged Twf yn hyn o beth yw darpar rieni a rhieni â babanod dan 6 mis oed.
- 1.2.1.3 Canolbwynt Twf yw tynnu sylw at werth y Gymraeg a dwyieithrwydd i rieni, darpar rieni a'r boblogaeth yn gyffredinol; ac annog teuluoedd i fagu eu

plant i fod yn ddwyieithog. Mae Twf yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu dwyieithrwydd yn ifanc ac o ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref. Prif gynulleidfa darged Twf yw teuluoedd cymysg eu hiaith, lle nad oes ond un rhiant yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith fod 10%, ymhlith teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yn dewis peidio â throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006); gwneir ymdrechion hefyd i gyfleu 'neges Twf' i'r teuluoedd hyn. Ymhellach, a derbyn bod gan 28% o deuluoedd ar draws Cymru blant sy'n siarad Cymraeg, lle nad oes yr un o'r rhieni'n siarad Cymraeg (Ystadegau Cenedlaethol, 2001), mae Twf hefyd wedi cydnabod gwerth trosglwyddo ei neges i'r grŵp arbennig hwn o deuluoedd. Am y rheswm hwn, a chan gydnabod y ffaith fod neilltuo teuluoedd cymysg eu hiaith i dderbyn neges Twf yn cael ei weld yn annymunol (Davies, 2005), mae Twf yn mynd ati i rannu'r neges ynghylch gwerth dwyieithrwydd i grŵp mor amrywiol â phosibl o rieni.

- 1.2.1.4 Nid yw Twf yn gweithio ar ei ben ei hun, ond, yn hytrach, mae'n dibynnu ar gydweithredu gyda dau brif bartner, sef gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyrrff blynyddoedd cynnar. Gwelir bod ymwelwyr iechyd a bydrwagedd yn allweddol i lwyddiant prosiect twf gan fod ganddynt, gyda'i gilydd, gysylltiad gyda'r holl rieni newydd a'r darpar rieni yng Nghymru. Mae ganddynt felly y gallu i gyfleu neges Twf i rieni yr holl blant dan oed ysgol.
- 1.2.1.5 Mae Twf hefyd yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud yn bennaf â darpariaeth blynyddoedd cynnar. Mae mentrau blynyddoedd cynnar, megis Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (WPPA) yn cynnig cyfrwng i Twf gael mynediad at rieni plant dan oed ysgol. Cyflawnir hyn yn uniongyrchol, drwy fynychu sesiynau megis 'ti a fi' a siarad â'r rhieni sy'n bresennol; ac yn anuniongyrchol, drwy ddibynnu ar ewyllys da gweithwyr blynyddoedd cynnar i ddsbarthu adnoddau i rieni ar ran Twf.
- 1.2.1.6 Mae cynllun Twf yn targedu darpar rieni a rhieni babanod dan 6 mis oed drwy rwydwaith o swyddogion maes, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar annog rhieni i drosglwyddo'r iaith yn y cartref. Er bod bron pob mam newydd yng Nghymru yn derbyn gwybodaeth gan gynllun Twf ynghylch magu plant yn ddwyieithog, drwy'r pecynnau Bounty, mae swyddogion maes cynllun Twf yn fwyaf prysur yn yr ardaloedd canlynol: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys (heblaw Maesyfed), Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot, Pen-y-bont, Caerffili a Rhondda Cynon Taf; sef, y rhannau o Gymru lle y mae'r potensial i nifer fwy trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- 1.2.1.7 Lledaenir neges Twf drwy swyddogion maes Twf neu drwy weithwyr proffesiynol gofal iechyd, sy'n cyfarfod â rhieni wyneb yn wyneb; a thrwy ddulliau ac adnoddau marchnata a gynhyrchir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cynhyrchir y deunyddiau canlynol ar hyn o bryd: 6 Rheswm Da (taflen wybodaeth a phoster); Dewch i Ddarllen (taflen wybodaeth); cerdyn sganio; cerdyn post; cerdyn llongyfarch; sticer car; bwletinau; cryno ddisg 1; calendr Twf; llyfr lliwio Twf; a bib Twf.

2 Astudiaeth ymchwil: Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

2.1 Nodau ac amcanion

2.1.1.1 Prif nod astudiaeth ymchwil Twf ac ymlaen oedd ymchwilio i effaith cynllun Twf ar benderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo iaith yn y teulu a chynnig ffyrdd o wella'i effaith. Cyflawnwyd hyn drwy'r amcanion canlynol:

- Dilyn cyfranogwyr o Siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro a Dinbych cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod y maent yn cael profiad o neges Twf, er mwyn asesu ac olrhain effaith cynllun Twf ar benderfyniadau ynghylch dewis iaith a'r defnydd o iaith yn y teulu.
- Asesu effaith cynllun Twf ar gyfranogwyr sydd wedi cael profiad o wahanol lefelau a dwyster y neges ynglŷn â dwyieithrwydd, a gyflwynir gan gynllun Twf.
- Arsylwi patrymau o ddefnyddio iaith yn y teulu.
- Ymgymryd â dadansoddiad gweithgaredd manwl o gynllun Twf ar draws siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro yn ystod y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2005.

2.2 Proffiliau demograffig y pedair sir a astudiwyd

2.2.1.1 Mae proffiliau siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro, a Sir Ddinbych yn wahanol o ran daearyddiaeth, demograffeg ac iaith. Sir wledig yw Ceredigion yn bennaf. Mae'r sir yn ymestyn o Eglwysfach yn y Gogledd i Aberteifi yn y De ac mae'n ardal 1783 km² o faint. Prif drefi Ceredigion yw Aberteifi, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan. Mae poblogaeth y sir yn 73,000, ac mae 52% o'r rhain yn siarad Cymraeg.

2.2.1.2 Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ardaloedd dinesig a gwledig, ac yn ymestyn ar draws 2,395 km², a'r prif drefi sirol yw Llanelli a Chaerfyrddin. Mae poblogaeth gyfan Sir Gaerfyrddin yn 167,000 a 50% o'r bobl yn siarad Cymraeg.

2.2.1.3 Gwledig yn bennaf yw Sir Benfro hefyd o ran natur ac mae'n ymestyn o Gilgerran yn y Gogledd i Benfro yn y De, a'r prif drefi yw Hwlfordd ac Aberdaugleddau. Mae poblogaeth Sir Benfro yn 110,000 a 22% o boblogaeth y sir sy'n siarad Cymraeg.

2.2.1.4 Mae Sir Ddinbych yn ymestyn o'r Rhyl yn y Gogledd i Langollen yn y De, a'r prif drefi yw'r Rhyl a Rhuthun. Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn 90,000 a 26% o boblogaeth y sir sy'n siarad Cymraeg (Ystadegau Cenedlaethol, 2003). Darlunnir proffil ieithyddol y teuluoedd sy'n ffurfio poblogaeth y pedair sir yn Nhabl 1.

Tabl 1

Proffil ieithyddol teuluoedd yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Sir Ddinbych lle mae un rhiant o leiaf yn siarad Cymraeg

	Pob teulu	2 oedolyn sy'n siarad Cymraeg – mewn pâr	1 oedolyn sy'n siarad Cymraeg – mewn pâr	1 oedolyn sy'n siarad Cymraeg – rhiant sengl	Cyfanswm y teuluoedd lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg
Ceredigion	30,972 (100%)	3919 (13%)	3125 (10%)	811 (3%)	7855 (26%)
Sir Gaerfyrddin	73,112 (100%)	8475 (12%)	8425 (12%)	2121 (3%)	19021 (27%)
Sir Benfro	48,176 (100%)	1621 (3%)	3219 (7%)	540 (1%)	5380 (11%)
Sir Ddinbych	39,889 (100%)	1859 (5%)	3488 (9%)	686 (2%)	6033 (16%)


Ffynhonnell: Ystadegau Cenedlaethol, 2003

3 Methodoleg

3.1 Cynllun yr astudiaeth

3.1.1.1 Roedd yr astudiaeth ymchwil yn defnyddio cynllun o ddulliau cymysg, gan gyfuno pedwar dull gwahanol. Roedd yr elfen gyntaf yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn cyn y geni oedd yn defnyddio dull meintiol i ddadansoddi data ynghylch effeithiolrwydd cynllun Twf yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro, a Dinbych. Roedd hyn yn cael ei gyflenwi gan ail elfen oedd yn defnyddio dull ansoddol i fynd i'r afael â'r un cwestiwn ymchwil ac a oedd yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb ar ôl y geni. Yn drydydd, cwblhawyd dadansoddiad ethnograffig o weithgareddau Twf yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro; ac, yn olaf, cynhaliwyd chwech o grwpiau ffocws ar wahân gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Dangosir trosolwg ar gynllun astudiaeth ymchwil Twf ac ymlaen yn Ffigur 1 gyda throsolwg manwl ar bob un o'r pedwar cyfnod yn Nhabl 2.

Ffigur 1
Trosolwg ar astudiaeth ymchwil Twf ac ymlaen



3.1.2 Diffiniad o broffil iaith y teulu

3.1.2.1 I ddibenion dadansoddi, dosbarthwyd y teuluoedd yn astudiaeth ymchwil Twf ac ymlaen yn ôl tri phroffil iaith teuluol gwahanol, yn unol â disgrifiadau yr oeddent yn eu rhoi ohonynt eu hunain, fel a ganlyn:

- **Cymraeg/Cymraeg (C/C)** = Y fam a'r tad yn siarad Cymraeg yn dda iawn neu'n weddol dda
- **Cymraeg/Saesneg (C/S)** = Naill ai'r fam NEU'R tad yn siarad Cymraeg yn dda iawn neu'n weddol dda
- **Saesneg/Saesneg (S/S)** = Y fam NA'R tad yn siarad Cymraeg yn dda iawn nac yn weddol dda

Tabl 2

Trosolwg manwl ar bedwar cyfnod astudiaeth ymchwil Twf ac ymlaen

	Cyfweliadau cyn y geni	Cyfweliadau ar ôl y geni	Dadansoddiad o weithgaredd Twf	Grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd
Poblogaeth	Pob pâr oedd yn disgwyl babi yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gyda phroffil iaith C/C, C/S neu S/S Pob pâr oedd yn disgwyl babi yn Sir Ddinbych gyda phroffil iaith C/C neu C/S	Yr holl rieni a gymerodd ran yn y cyfweliadau cyn y geni	Pob swyddog Twf oedd yn gweithio yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro a'u cysylltiadau	Yr holl fydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn gweithio yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro
Meini prawf cynnwys	Parau oedd yn disgwyl babi yn byw yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gyda phroffil iaith C/C, C/S neu S/S Parau oedd yn disgwyl babi yn byw yn Sir Ddinbych gyda phroffil iaith C/C neu C/S	Parau oedd yn disgwyl babi a gymerodd ran mewn cyfweliadau cyn y geni ac a gytunodd i gymryd rhan gyda'i gilydd mewn cyfweliad wyneb yn wyneb	Pob swyddog Twf oedd yn gweithio yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro a'u cysylltiadau	Yr holl fydwagedd ac ymwelwyr iechyd sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro
Sampl	Sampl hunan-ddetholedig o 153 o deuluoedd o Geredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Ddinbych	Sampl haenedig bwriadus o 44 o deuluoedd o Geredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Ddinbych	Detholiad systematig o weithgareddau Twf yn ôl matrices arsylwi ar draws siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro	Sampl hunan-ddetholedig o 21 o fydwagedd ac ymwelwyr iechyd o Geredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro

Twf ac Ymlaen Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

	Cyfweliadau cyn y geni	Cyfweliadau ar ôl y geni	Dadansoddiad o weithgaredd Twf	Grwpiau ffocws gyda bydwreigedd ac ymwelwyr ieuchyd
Dull casglu data	Un cyfweliad strwythuredig dros y ffôn gyda'r fam oedd yn disgwyl babi ac un gyda'r tad oedd yn disgwyl babi	Un cyfweliad wyneb yn wyneb ac arsylwi gyda'r pâr yn eu cartref	Dull ethnograffig yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Arsylwadau manwl • Yr ymchwilydd yn cymryd rhan yn lleoliadau Twf • Cyfweliadau gyda hysbyswyr allweddol • Dogfennaeth digwyddiadau a gweithgareddau 	Un grŵp ffocws bydwreigiaeth ac un ymweld ieuchyd a gynhaliwyd yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro
Dull dadansoddi data	Ystadegau disgrifiadol a chasgliadol	Dadansoddiad fframwaith thematig	Dadansoddiad fframwaith thematig o nodiadau maes a chyfweliadau	Dadansoddiad fframwaith thematig
Ffrâm amser	Mawrth 2005 i Ragfyr 2007	Gorffennaf 2006 i Ionawr 2008	Ebrill 2005 i Ragfyr 2005	Rhagfyr 2005 i Fawrth 2006

3.1.3 Cyfweiliadau dros y ffôn cyn y geni

- 3.1.3.1 Recriwtiwyd sampl hunan-ddetholedig o 153 o deuluoedd oedd yn disgwyl babi o Geredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Ddinbych (drwy daflenni, hysbysebu yn y cyfryngau, rhwydweithiau personol a dulliau recriwtio caseg eira) i gymryd rhan yn y cyfweiliadau strwythuredig dros y ffôn rhwng Mawrth 2005 a Rhagfyr 2007.
- 3.1.3.2 Derbyniodd cyfranogwyr posib gymhelliant i gymryd rhan yn yr ymchwil. Derbyniodd teuluoedd a gymerodd rhan £10 mewn ffurf taleb stryd fawr, ynghyd a chyfle i ennill £1000 o wobr.
- 3.1.3.3 Roedd y dreflen cyfweiliad ffôn yn cynnwys chwe rhan wahanol: y cartref; gallu yn yr iaith Gymraeg; defnydd o'r iaith Gymraeg; canfyddiadau ynghylch trosglwyddo iaith; agweddau tuag at ddwyieithrwydd; effaith gwybodaeth ar drosglwyddo iaith.
- 3.1.3.4 Cynhaliwyd cyfweiliadau ar wahân gyda'r darpar dad a'r darpar fam o bob teulu. Cafodd y rhain eu recordio ar dâp sain, a chafodd y data meintiol a'r data ansoddol a gododd o'r rhain ei ddadansoddi. Dengys Tabl 3 broffiliau teuluol y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau dros y ffôn o siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro a Dinbych.

Tabl 3

Proffiliau teuluoedd – Cyfweiliadau cyn-geni: Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Ddinbych

	Y fam a'r tad yn siarad Cymraeg (C/C)	Y fam neu'r tad yn siarad Cymraeg (C/S)	Y fam na'r tad yn siarad Cymraeg (S/S)	Cyfanswm (nifer o deuluoedd)	Canran o'r sampl
Ceredigion	19	12	9	40	26%
Sir Gaerfyrddin	25	20	12	57	37%
Sir Benfro	6	7	10	23	15%
Sir Ddinbych	12	21	0	33	22%
Cyfanswm	62	60	31	153	100%
<i>Y ganran o'r proffiliau teuluoedd yn y sampl</i>	41%	39%	20%	100%	

3.1.4 Cyfweiliadau ar ôl y geni

- 3.1.4.1 O'r 153 o deuluoedd a gymerodd ran yn y cyfweiliadau dros y ffôn, gwahoddwyd 44 o deuluoedd i gymryd rhan mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb pellach yn eu cartref pan oedd eu babi newydd rhwng 1 mis a 24 mis oed. Cafodd pob un o'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb ei recordio ar dâp sain. Roedd trefn holi'r cyfweiliadau'n lled strwythuredig ac yn cynnwys wyth adran ar sail casgliadau'r cyfweiliadau dros y ffôn
- 3.1.4.2 Gan ddefnyddio dull samplu bwriadus, dewiswyd y 44 teulu yma o'r sampl gwreiddiol ar sail eu profiad o broject Twf, nifer y plant yn y teulu, statws cymdeithasol-economaidd, a'r sir yr oeddent yn byw ynddi. Cynhaliwyd tri deg a thri o gyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda'r ddau riant gyda'i gilydd yn siroedd De Orllewin Cymru (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro) a chynhaliwyd 11 cyfweiliad wyneb yn wyneb yn Sir Ddinbych. Cwblhawyd y cyfweiliadau rhwng Gorffennaf 2006 ac Ionawr 2008.

3.1.5 Dadansoddiad o weithgaredd Twf

- 3.1.5.1 Arsylwyd detholiad systematig o weithgareddau Twf ar draws siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro rhwng Ebrill a Rhagfyr 2005. Roedd y dull ethnograffig yr ymgwymerwyd ag ef yn cynnwys arsylwadau manwl; yr ymchwilydd yn cymryd rhan yn lleoliadau Twf; cyfweiliadau gyda hysbyswyr allweddol; ac adroddiadau dogfennol am ddigwyddiadau a gweithgareddau.

3.1.6 Grwpiau ffocws

- 3.1.6.1 Cymerodd cyfanswm o 21 o ymwelwyr iechyd a bydwagedd ran mewn cyfweiliadau grwpiau ffocws, gyda'r ddau broffesiwn yn cael eu cynrychioli ym mhob un o'r tair sir, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws rhwng Rhagfyr 2005 a Mawrth 2006 gan ddau holwr. Roedd y cyfweiliadau'n para rhwng 45 munud ac 1½ awr ac yn cael eu recordio ar dâp sain. Cynhaliwyd pedwar o'r cyfweiliadau yn Saesneg a chynhaliwyd dau yn ddwyieithog, hynny yw, roedd yr holwyr a'r atebwyr yn newid yn ôl ac ymlaen rhwng y Saesneg a'r Gymraeg yn ystod y cyfweiliad, yn ôl pa iaith oedd orau gan yr atebwyr. Roedd trefn holi'r cyfweiliad grŵp ffocws yn cynnwys 23 o gwestiynau ynghylch cynllun Twf.

3.1.7 Ystyriaethau moesegol

- 3.1.7.1 Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y cyfweiliadau dros y ffôn, y cyfweiliadau wyneb yn wyneb, a'r dadansoddiad o weithgaredd Twf gan Bwyllgor Moeseg, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor. Derbyniwyd cydsyniad gwybodus ysgrifenedig gan bawb oedd yn cymryd rhan yn y cyfweiliadau dros y ffôn a'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb a rhoddwyd sicrwydd iddynt y byddent yn cael eu cadw'n ddiennw.
- 3.1.7.2 Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer cyfweiliadau'r grwpiau ffocws gan Bwyllgor Moeseg, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor a

Phwyllgor Moeseg Ymchwil Lleol De Orllewin Cymru. Rhoddwyd cymeradwyaeth llywodraethu ymchwil gan Ymddiriedolaethau GIG Sir Benfro a Derwen, Ceredigion a Chanolbarth Cymru a Sir Gaerfyrddin, ac yn eu hadeiladau hwy y cynhaliwyd yr ymchwil. Derbyniwyd cydsyniad llafar gan yr holl gyfranogwyr cyn dechrau ar y cyfweiliadau grwpiau ffocws.

3.2 Dulliau dadansoddi

- 3.2.1.1 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau er mwyn dadansoddi'r data o'r pedwar cyfnod o gasglu data.
- 3.2.1.2 Ar gyfer data meintiol y cyfweiliadau cyn y geni cynhaliwyd ystadegau disgrifiadol a chasgliadol, gan gynnwys cyfernodau cydberthyniad a dadansoddiad amrywiant gan ddefnyddio pecyn ystadegol SPSS (SPSS, 2005). Defnyddiwyd yr ystadegau casgliadol hyn i gyffredinoli o'r sampl i'r boblogaeth gyfan. I ddiben yr adroddiad hwn, ac ar gais y comisiynwyr, mae dadansoddiad y data meintiol wedi ei gyfyngu i'r data a gasglwyd oddi wrth deuluoedd C/S a C/C.
- 3.2.1.3 Defnyddiwyd dadansoddiad fframwaith thematig (Ritchie a Spencer, 1994) i ddadansoddi data ansoddol y cyfweiliadau ar ôl y geni a'r grwpiau ffocws.
- 3.2.1.4 Yn yr astudiaeth ethnograffig, cyd-blethwyd data o'r cofnodion arsylwi, trawsgrifiadau'r cyfweiliadau a'r dadansoddiad dogfennau gan ddefnyddio dull fframwaith thematig.

3.3 Synthesis

- 3.3.1.1 Cafodd canlyniadau'r pedwar cyfnod o gasglu data eu syntheseiddio mewn ffordd systematig. Cafodd yr holl gasgliadau o'r pedwar cyfnod eu harchwilio'n systematig ac wedyn nododd un ymchwilydd y casgliadau mwyaf amlwg o'r astudiaeth feintiol a phlotio'r rhain yn erbyn y themâu a ganfuwyd yn ystod y cyfweiliadau ansoddol, cyfweiliadau'r grwpiau ffocws a'r dadansoddiad o weithgaredd Twf.
- 3.3.1.2 Wedyn cydweddwyd pob un o'r is-themâu, e.e. agweddau, gyda'r dystiolaeth gyfatebol o'r canlynol:
 - Y llenyddiaeth
 - Y cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni
 - Y cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni ar ôl geni'r plentyn
 - Cyfweiliadau'r grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieuchyd
 - Y dadansoddiad o weithgaredd Twf

Twf ac Ymlaen : Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- 3.3.1.3 Archwiliwyd y llwybr syntheseiddio data'n annibynnol gan ddau ymchwilydd arall er mwyn sicrhau na adawyd data allan ac na chafodd data'i ddyblygu a bod y dystiolaeth a'r is-themâu yn cyfateb yn gyson.
- 3.3.1.4 Y ddogfen syntheseiddio data hon, lle'r oedd yr holl ddata wedi ei blotio yn erbyn yr is-themâu oedd yn dod i'r amlwg, a ffurfiodd y sylfaen i'r adran ganlyniadau sy'n dilyn.

3.4 Cryfderau a gwendidau'r astudiaeth ymchwil

- 3.4.1.1 Mae'r adran hon yn trafod cryfderau a gwendidau astudiaeth ymchwil Twf ac ymlaen.

3.4.1.2 Cryfderau

- Cynhaliwyd yr astudiaeth ymchwil gan dîm annibynnol o ymchwilwyr o'r Ganolfan Ymchwil gysylltiedig ag Iechyd, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor. Roedd y tîm yn cynnwys ymchwilwyr profiadol gyda dealltwriaeth gadarn o faterion trylwyrredd.
- Roedd yr astudiaeth yn defnyddio dulliau cymysg i archwilio effaith cynllun Twf, gan gyfuno dulliau ansoddol a meintiol o gasglu data. Roedd hyn yn peri bod modd triongli'r data.
- Aeth yr astudiaeth ati i gasglu barn defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid proffesiynol yn ogystal â staff prosiect Twf. Roedd hyn hefyd yn darparu cyfrwng i driongli data.

3.4.1.3 Cyfyngiadau

- Comisiynwyd astudiaeth Twf ac ymlaen bum mlynedd ar ôl i gynllun Twf gael ei gychwyn. Ac eithrio data'r cyfrifiad, nid oedd data cychwynnol cymharol ar gael i roi gwybodaeth gymharol 'y pellter a deithiwyd',
- Mae'n hysbys bod gwerthuso mentrau cymunedol cymhleth sy'n esblygu, megis cynllun Twf, yn her oherwydd bod cynlluniau o'r fath yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau lluosog mewn amgylcheddau gwleidyddol sy'n newid
- Anodd yw mesur effaith dylanwad uniongyrchol prosiect fel Twf, a'i ysgaru o ffactorau cymdeithasol eraill sy'n effeithio ar ddewisiadau iaith ac ymddygiad unigolion.

4 Casgliadau

4.1 Dylanwadau'r cartref ar drosglwyddo'r Gymraeg ac effaith Twf

4.1.1 Hyfedredd yn y Gymraeg a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg

4.1.1.1 Mae lefelau hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith rhieni a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gartref yn nodwedd gref drwy gydol casgliadau'r astudiaeth hon fel dangosydd o'r bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu. Cadarnhaodd cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni ar draws y pedair sir fod lefelau uwch o rwyddineb yn y Gymraeg yn arwain at fwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg; agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd; a bwriadau cryfach i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Yn y sampl hon, roedd 40% o'r darpar rieni yn defnyddio Cymraeg yn bennaf gartref ac yn y fan hon yr oedd eu hyder mewn defnyddio'r Gymraeg ar ei uchaf, 'waeth beth oedd yr hyfedredd yr oeddent yn ei ddweud oedd ganddynt yn yr iaith. Er hynny, er bod cynifer â 77% o'r holl atebwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, nid oedd y lefelau hyn o hunanhyder yn cael eu gwireddu yn y cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda'r rhieni ar ôl i'w babi gael ei eni. I'r gwrthwyneb, awgrymai trafodaethau trylwyr wyneb yn wyneb gyda'r rhieni er bod ganddynt y sgiliau iaith angenrheidiol efallai a bod ganddynt y cymhelliad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, fod tystiolaeth gref fod rhieni'n brin o'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Cefnogir hyn gan y cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda'r bydwagedd a'r ymwelwyr iechyd ac ymhellach gan gasgliadau astudiaeth flaenorol gan Edwards a Pritchard Newcombe (2005). Rhydd hyn hygredded i rôl ganolog Twf yn cynorthwyo teuluoedd i droi eu bwriadau ynghylch trosglwyddo iaith yn realiti ymarferol drwy adeiladu hyder.

4.1.1.2 Awgryma cyfweiliadau wyneb yn wyneb, a gynhaliwyd gyda sampl o rieni ar ôl i'w babi gael ei eni, fod patrymau'r defnydd o iaith ymhlith parau, yn gyffredinol, yn endidau sefydlog. Er hynny, ceir enghreifftiau o atebwyr sy'n gwneud pob ymgais i ddysgu'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ar ôl geni eu babi, ac yn ymhyfrydu'n fawr yn eu hymdrechion. Mae'r casgliadau yn taflu goleuni ar batrymau o ddefnyddio iaith rhwng rhieni a'u babi newydd. Er enghraifft, mewn teuluoedd cymysg eu hiaith, ceir tystiolaeth o ddefnyddio'r model 'un iaith, un person' o drosglwyddo iaith yn ogystal â dull iaith gymysg, lle mae rhieni'n newid cod yn gyflym ac yn rhoi geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml i mewn fel ffordd o gyflwyno'r iaith i'w babi newydd. Gwelir hyn yn aml fel y rhiant a'r babi'n dysgu gyda'i gilydd, fel y darlunnir yn y dyfyniad a ganlyn:

“So when X (gŵr) is with us, it's half and half and, as well as teaching XX (babi), we're teaching X (gŵr), you know. It's 'geiriau', words, then he's picking up words, numbers. It's just, you know, the basics – 'un, dau tri' and things like that that he's learning.”

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- 4.1.1.3 Datgelodd y dadansoddiad o weithgaredd Twf fod swyddogion Twf yn ceisio ychwanegu at ymdrechion o'r fath gan rieni drwy hybu strategaethau i sicrhau bod plant o gefndiroedd cymysg eu hiaith yn clywed y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn y cartref. Gwneir hyn yn aml drwy dynnu ar waith Baker (1988, 1992 a 2003) a '6 Rheswm Da' (taflen Twf) i hybu'r model un iaith, un partner, a gofyn am gymorth teidiau a neiniau, brodyr a chwiorydd a chyfeillion sy'n siarad Cymraeg.
- 4.1.1.4 Ymddengys o'r cyfweiliadau dros y ffôn bod gan ddarpar rieni siawns gyfartal o brofi'r un lefel o neges Twf, 'waeth beth fo'u hyfedredd yn y Gymraeg na'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gartref. Mae'r her i Twf wrth ryngweithio gyda'u grŵp targed yn cytuno gyda chasgliadau'r cyfweiliadau ar ôl geni'r babi lle mae presenoldeb Twf yn amrywio o fychan iawn (adnoddau Twf yn unig) i arwyddocaol (sgwrs gyda swyddog Twf a gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref).
- 4.1.1.5 Mewn ymgais i wella rhwyddineb yn y Gymraeg ymhlith rhieni, roedd menter a sefydlwyd yn fuan gan Twf yn canolbwyntio ar ddysgu geirfa syml, megis lliwiau, rhifau ac ymadroddion syml i rieni S/S fel ffordd o gyflwyno'r Gymraeg i'w plant yn ifanc. Dangosodd y dadansoddiad o weithgaredd Twf mai gwerthusiadau cymysg a dderbyniodd y fenter hon, sef 'Cymraeg i Rieni'. Er enghraifft, mynegwyd rhai amheuron gan gyrff blynyddoedd cynnar eraill a oedd y fenter hon yn elfen briodol i bortffolio Twf, gan ei bod yn tynnu swyddogion Twf oddi wrth eu gweithgareddau canolog, a'i bod yn rôl y byddai'n well i'r nifer o gyrff eraill, oedd yn darparu Cymraeg i Oedolion, ei mabwysiadu. Ymhellach, er bod rhai yn gweld y fenter yn ateb angen oedd heb ei fodloni, arweiniodd y cwmp buan mewn niferoedd at bryderon ynghylch cost-effeithiolrwydd cyrsiau o'r fath. Yng ngoleuni'r amheuron hyn, ymddengys bod 'Cymraeg i Rieni' yn elfen o waith Twf sy'n werth ei pharhau ond gyda'r amod bod angen talu sylw gofalus i gynllunio'r gwaith hwn mewn cydweithrediad gyda chyrrff eraill, (e.e. Cymraeg i Oedolion; Acen), i sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf posibl.
- 4.1.1.6 Mae menter fwy diweddar gan Twf, sy'n dwyn y teitl 'Mae dy Gymraeg di'n grêt', a ddaeth i fod ar ôl i'r dadansoddiad o weithgaredd Twf gael ei gwblhau, yn canolbwyntio ar roi cefnogaeth i gynulleidfa darged wahanol, sef rheini sy'n siarad Cymraeg ond sy'n dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn eu cymuned. Cynhaliwyd peilot o'r gwaith hwn mewn 8 ardal darged yn Sir Gaerfyrddin gyda 61 o rieni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn cysylltiad â chynllun Twf. Er ei bod yn rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant wrth werthuso'r sesiynau peilot hyn, ymddengys y gall y fenter hon osod ffordd ymlaen amserol i ysgogi hyder ymhlith y siaradwyr Cymraeg hynny na fyddent yn naturiol yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

Crynodeb o hyfedredd yn y Gymraeg a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg

- Po uchaf fo lefelau rhwyddineb yn y Gymraeg ymhlith rhieni a pho fwyaf eu hyder wrth siarad Cymraeg, y mwyaf yw'r bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- Roedd 40% o'r sampl yn defnyddio Cymraeg yn bennaf yn eu cartref, gyda hyder i ddefnyddio'r iaith ar ei uchaf yn y fan hon, 'waeth beth oedd yr hyfedredd yn yr iaith.
- Er bod gan y rhieni'r sgiliau iaith angenrheidiol efallai, a'u bod yn teimlo cymhelliad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, mae nifer yn dal yn ddiffygiol o ran hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.
- Mae swyddogion Twf yn cefnogi ymdrechion rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu drwy ddsbarthu adnoddau a rhoi cyngor.
- Er hynny, y duedd yw i ddarpar rieni dderbyn yr un lefel o brofiad o Twf, 'waeth beth fo'u hyfedredd yn y Gymraeg na'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith.
- Efallai y bydd mentrau hyfforddi Twf, i wella sgiliau Cymraeg rhieni a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, yn fuddiol o ran codi lefelau trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu.

4.1.2 Hunaniaeth Gymreig a throsglwyddo iaith

- 4.1.2.1 Mae arwyddocâd iaith fel cyfrwng mynegi hunaniaeth ddiwylliannol wedi ei hen gydnabod yn y llenyddiaeth ac nid yw rôl y Gymraeg yn siapio hunaniaeth Gymreig yn eithriad (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003). Mae arolygon diweddar a gynhaliwyd ar draws Cymru yn dod i'r casgliad bod yr hunaniaeth Gymreig mewn nifer o ffyrdd yn fyw iawn ac yn gyffredin (Coupland et al., 2006) ac mae'r ffordd y mae'r Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei gweld yn 'cool' wedi dylanwadu ar yr ymwybyddiaeth gyffredinol o'r iaith ac wedi gwneud siarad Cymraeg yn beth ffasiynol (McAllister a Thomas, 2006).
- 4.1.2.2 Mae'r tueddiadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn yr astudiaeth ymchwil hon, lle'r oedd cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni ar draws y pedair sir yn dangos bod y rheiny sy'n teimlo'n gryf ynghylch hunaniaeth genedlaethol eu plentyn yn y dyfodol yn fwy tueddol i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babi newydd. Yn wir, roedd cymaint â 66% o'r sampl hon yn credu bod hunaniaeth genedlaethol eu plentyn wedi dylanwadu ar eu penderfyniad ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. Er enghraifft, eglurodd un atebwr fel hyn:

“I want ... him or her to be part of the community and be part of, you know, understand their identity.”

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Mae'r casgliad hwn yn cyd-fynd â gwaith blaenorol a adroddwyd gan Gathercole et al (2006), lle'r adroddwyd bod materion hunaniaeth ynghlwm gydag iaith. Gwelir hyn yn ffactorau arwyddocaol, sy'n gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y teulu.

- 4.1.2.3 Fe wnaeth cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni, yn dilyn y geni ddangos eu hawydd i greu teimlad o berthyn a hunaniaeth Gymreig yn eu plant drwy ddefnyddio'r Gymraeg gartref. Nodwedd amlwg o'r cyfweiliadau hyn oedd penderfyniad cryf y rhieni i weithredu er lles gorau eu plentyn, o ran ei ddatblygiad ieithyddol a'i integreiddiad i mewn i'r gymuned. Er bod hyn yn aml yn drosglwyddiad naturiol a goddefol ymhlith teuluoedd C/C, gellir gweld yr ymdrech ymhlith teuluoedd S/S, yn arbennig mewnfudwyr, i ddod yn rhan o'r gymuned leol ac uniaethu gyda hi, yn troi'n benderfyniad pendant i gyflwyno'r Gymraeg yn y cartref, fel y disgrifiwyd gan y fam ganlynol o gefndir S/S cyn geni ei phlentyn:

“Well, I mean I find it a bit difficult to explain, but um, there's a sense of being living in this land... where Welsh is part of living in this land and it goes back a long, long way. It's a very old language, and um, you know, it has been oppressed and I think, on that basis, you know, I want him to have an experience of it. Just, you know, the same as me. That's why I'm learning it, partly, because it's something that represents the land itself really and also because I have a few friends who have a really profound love of the language.”

Crynodeb o hunaniaeth Gymreig

- Mae'r llenyddiaeth yn dangos fod y Gymraeg wedi ennill mwy o amlygrwydd a derbyniad ehangach yn ystod y blynyddoedd diwethaf; a'i fod yn rhan annatod o'r hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- Mae rhieni sy'n teimlo'n gryf ynghylch hunaniaeth genedlaethol eu plant yn y dyfodol yn fwy tueddol i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babi newydd.
- Mae rhieni S/S yn gwneud ymdrech i ddod yn rhan o'r gymuned leol drwy gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.
- Mae yna botensial i Twf, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, hybu trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref drwy gynyddu teimladau'r rhieni o hunaniaeth Gymreig.

4.1.3 Statws cymdeithasol-economaidd

4.1.3.1 Mae Higgs et al., (2004) yn nodi bod amrywiadau dosbarth cymdeithasol yn bod mewn perthynas â'r Gymraeg ac i roi enghraifft o'r safbwynt hwn, maent yn tynnu ar waith Drinkwater ac O'Leary (1997), sy'n dangos bod siaradwyr Cymraeg yn Ne Cymru yn cael eu gorgynrychioli mewn proffesiynau o statws uwch o'u cymharu ag unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae Higgs et al. (2004) yn cydnabod nad yw'r mater o ddsbarth cymdeithasol ac iaith yn un clir ac maent yn dangos bod amrywiadau yn y cysylltiadau rhwng y ddau newidyn ar draws gwahanol siroedd yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, yn rhai siroedd, defnyddir y Gymraeg yn amlach ymhlith y grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch, ond yn eraill, mae'n amlycach ymhlith pobl o grwpiau cymdeithasol-economaidd is. Er hynny, mae tystiolaeth a dynnwyd o'r cyfrifiad diweddaraf yn arwain Aitchison a Carter (2004) i honni

“the de-industrialization of Wales has been accompanied by a marked switch from jobs in manufacturing to professional and administrative posts where those who can offer a facility in Welsh have some advantage. Thus the ability to speak Welsh has become associated with higher status positions” (tud.91).

4.1.3.2 Mae'r astudiaeth ymchwil hon hefyd yn dangos amrywiadau dosbarth cymdeithasol ac, yn gyffredinol, mae'r rhain hefyd yn awgrymu cysylltiad cadarnhaol rhwng statws cymdeithasol-economaidd a'r Gymraeg. Er enghraifft, yn y cyfnod cyn y geni, mae hi'n amlwg po uchaf y bo statws cymdeithasol-economaidd y rhieni, y mwyaf yw eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plentyn. Ymhellach mae rhieni o grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch yn adrodd am fesur arwyddocaol fwy o hyder i siarad Cymraeg yn y cartref na'u cymheiriaid o grwpiau cymdeithasol-economaidd is; fel y darlunnir gan yr hanes hwn gan fam o grŵp cymdeithasol-economaidd is:

“No (wouldn't start a conversation in a local shop in Welsh) probably now. I mean, if somebody said, you know, “diolch”, I'd probably say “diolch” back, but not, I wouldn't start a conversation in Welsh probably, and I'm hoping that the more she's learning, the more I can gain in confidence then, and just feel more able to use it.”

4.1.3.3 Mae Edwards a Pritchard Newcombe (2005) yn dadlau bod ymdrechion i hybu dwyieithrwydd wedi apelio'n bennaf at rieni'r dosbarth canol. Os mai felly y mae hi, mae'n debygol o gynyddu gwahaniaethau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. Yn debyg i ddeddf Gofal Gwrthdro (Tudor Hart, 1971) yng nghyd-destun gofal ieched, mae'r rhieni sydd â'r angen mwyaf, sef y rheiny o'r grwpiau cymdeithasol-economaidd is, yn mwynhau llai o fynediad at gyfleusterau na'r rheiny o'r grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch. Canlyniad y ffenomenon hon yw bod mwy o gyngor yn cael ei

dderbyn ynglŷn â dwyieithrwydd gan rieni o grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch ac yn y pen draw bod cynnydd yn y gwahaniaethau Cymraeg rhwng y ddau grŵp.

- 4.1.3.4 Oddi wrth y dadansoddiad gweithgaredd roedd hi'n amlwg fod cynllun Twf yn cydnabod pwysigrwydd cyfleu ei neges i deuluoedd o grwpiau cymdeithasol-economaidd is. Mae swyddogion Twf yn cadw mewn cof yr angen i deilwrio'r neges i ateb anghenion grwpiau penodol. Maent yn cydnabod bod pobl o grwpiau cymdeithasol-economaidd is yn 'anodd eu cyrraedd' a dengys y dadansoddiad gweithgaredd mai amrywiol yw llwyddiant cynllun Twf o ran cyrraedd y grwpiau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, roedd swyddogion Twf yn ymddangos fel pe baent yn agor llwybrau newydd addawol yn eu hymdrech i gyrraedd mamau o grwpiau cymdeithasol-economaidd is drwy weithio ochr yn ochr â mentrau megis Cychwyn Cadarn. Serch hynny, er bod y dadansoddiad gweithgaredd yn tynnu allan rai enghreifftiau cadarnhaol o arfer da, dengys y data meintiol, a gynhyrchwyd yn y cyfweiliadau dros y ffôn, nad oes, yn gyffredinol, berthynas rhwng y lefel o brofiad o Twf a'r statws cymdeithasol-economaidd. Felly, mae gan ddarpar rieni siawns gyfartal o brofi'r un lefel o ymyriad Twf, 'waeth beth fo'u statws cymdeithasol-economaidd. Nid yw hyn yn syndod oherwydd mewn amrywiol fentrau cymunedol, mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael anhawster i gyrraedd pobl o'r grwpiau cymdeithasol-economaidd is (Benedict, 2007).

Crynodeb o statws cymdeithasol-economaidd

- Dengys y llenyddiaeth fod perthynas rhwng hyfedredd yn y Gymraeg a statws cymdeithasol-economaidd.
- Awgryma'n hastudiaeth ni fod rhieni o grwpiau cymdeithasol-economaidd is yn llai hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref na'r rhieni o'r grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch.
- Mae pobl o grwpiau cymdeithasol-economaidd is yn dangos llai o fwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babi newydd na'u cymheiriaid mewn grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch.
- Mae cynllun Twf wedi cael peth llwyddiant yn cyrraedd rhieni o grwpiau cymdeithasol-economaidd is.
- Mae gan rieni siawns gyfartal o brofi'r un lefel o ymyriad Twf, 'waeth beth fo'u statws cymdeithasol-economaidd.

4.1.4 Rhyw y person

- 4.1.4.1 Er bod data cyfrifiad 1991 yn awgrymu bod mamau sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o drosglwyddo'r iaith i'w plant na thadau sy'n siarad Cymraeg, dengys astudiaethau diweddar fod yna anghysondebau yn hyn o beth. Er enghraifft, daeth astudiaeth ethnograffig Jones a Morris (2007) o 12 o deuluoedd cymysg eu hiaith yng Nghymru i'r casgliad fod mamau sy'n siarad Cymraeg yn chwarae rhan fwy arwyddocaol o ran cael eu plant i gymdeithasu yn gynnar yn Gymraeg na thadau oedd yn siarad Cymraeg. Mae astudiaeth dulliau cymysg Gathercole et al. (2006), o dros 300 o rieni ar draws Cymru, yn amau'r casgliad hwn, gan haeru nad yw rhyw y rhiant yn dylanwadu ar drosglwyddo iaith mewn teuluoedd dwyieithog. Mewn geiriau eraill, yn groes i adroddiadau blaenorol (e.e. Lyon, 1991) mae mamau a thadau yn chwarae rôl gyfartal mewn gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o iaith yn y cartref. Mae goblygiadau arbennig i'r casgliad hwn ar gyfer cynllun Twf, yn enwedig gyda golwg ar y ffordd y mae darpar rieni yn cael eu targedu i dderbyn neges Twf.
- 4.1.4.2 Mae dadansoddiad ystadegol o'r data a gasglwyd o'n cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni yn cefnogi casgliadau Gathercole et al. (2006) ac yn awgrymu nad oes gwahaniaeth rhwng darpar famau a thadau o ran eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg gyda'u babi newydd. Er hynny, mae eu profiad unigol o gynllun Twf yn sylweddol wahanol, gyda darpar famau yn derbyn mewnbwn sylweddol fwy na'u cymheiriaid ymhlith y dynion. Prin fod y casgliad hwn yn syndod, a gwybod mai merched sy'n disgwyl babi a mamau yw prif ddefnyddwyr gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymweld iechyd, sef partneriaid Twf, ac yr ystyrir y tadau'n anodd eu cyrraedd yn aml ac yn anodd i gynnal eu diddordeb yn y mater yma (Wiggins et al., 2005).
- 4.1.4.3 Mae'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni newydd yn taflu goleuni ar y casgliadau hyn ac yn cyfrif am rai o'r diffygion wrth gyrraedd tadau'n uniongyrchol, fel y dangosir isod:

“(The Twf lady) she hands out leaflets about raising children bilingually and she has goody bags with CDs and other things and she sits and talks to the mothers.”

- 4.1.4.4 Er bod y teuluoedd wedi eu dethol ar gyfer cyfweiliad ar sail eu bod wedi derbyn mewnbwn Twf, roedd hi'n amlwg nad oedd unigolion bob amser yn rhannu'r wybodaeth gyda'u partner. Dangosir hyn gan y ffaith nad oedd gan nifer o'r rhieni, yn enwedig tadau, unrhyw brofiad o Twf ac nad oeddent yn gwybod am ei fodolaeth, fel y dengys y dyfyniadau a ganlyn gan ddau dad:

“*Never heard of it, no, who are they?*”

“So'ni wedi siarad i neb (Mam). O na! Dim o Twf (Tad).”

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- 4.1.4.5 Er gwaethaf y diffygion hyn, dengys y dadansoddiad o weithgaredd Twf fod swyddogion Twf yn ymwybodol o'r angen i deilwrio'u neges i ateb gofynion grwpiau sy'n her i'w cyrraedd. Yn neilltuol, maent yn categoreiddio tadau a phobl o grwpiau cymdeithasol-economaidd is yn 'anodd eu cyrraedd' a dengys y dadansoddiad o weithgaredd mai amrywiol yw llwyddiant Twf o ran cyrraedd y grwpiau hyn. Er enghraifft, cadarnhâi ein harsylwadau ni fod y tadau wedi eu tangynrychioli mewn cyflwyniadau Twf, ac mewn clinigau lle roedd gan Twf bresenoldeb. Fodd bynnag, roedd yna eithriadau i'r patrwm yma a phan fyddai swyddogion Twf yn dod ar draws tadau roeddent yn ymddangos yn fedrus wrth gyfleu eu neges i apelio at gynulleidfa wrywaidd.
- 4.1.4.6 Mae dadansoddiad pellach o ddata'r cyfweiliadau dros y ffôn yn tynnu sylw at ymateb goddefol ymhlith parau i drafod materion ynghylch trosglwyddo iaith yn y teulu ac i rannu gwybodaeth ynghylch neges Twf. Er enghraifft, ni chafodd 53% o'r atebwyr dros y ffôn erioed drafodaeth gyda'u partner ynglŷn â throsglwyddo iaith gyda'u babi newydd, cyn nac yn ystod y beichiogrwydd. Ymhellach, p'un a wnaethant drafod y mater neu beidio, nid oedd gwahaniaeth yn y profiad o Twf a gafodd y rhieni. Ymhellach roedd llawer, oedd wedi derbyn y lefel uchaf o brofiad o Twf (a ddisgrifir fel adnodd Twf, trafodaeth gyda swyddog Twf a thrafodaeth gyda gweithiwr proffesiynol ieuchyd), heb siarad am drosglwyddo iaith gyda'u partner.
- 4.1.4.7 Awgryma'r casgliadau hyn, er bod mamau mewn safle da i dderbyn neges Twf o amrywiol ffynonellau, eu bod yn aml yn methu â thrafod y neges gyda'u partner. A derbyn bod tadau'n chwarae rhan gyfartal mewn penderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo iaith yn y cartref, mae yna le i Twf oresgyn ei heriau presennol o ran cyrraedd tadau a throsglwyddo'r neges i gynulleidfa darged ehangach.

Crynodeb o ryw y person

- Mae'r llenyddiaeth yn anghyson o ran adrodd am wahaniaethau rhwng y ddau ryw mewn perthynas â throsglwyddo iaith mewn teuluoedd dwyieithog.
- Yn ein hastudiaeth ni nid oes gwahaniaethau yn y bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref rhwng darpar famau a darpar dadau.
- Er hynny, mae mamau sy'n disgwyl babi yn derbyn mewnbyn sylweddol fwy gan gynllun Twf na'u cymheiriaid ymhlith y dynion.
- Mae tadau'n gyffredinol wedi eu tangynrychioli mewn cyflwyniadau Twf, ac mewn clinigau lle mae gan Twf bresenoldeb.
- Er yr ystyrir dynion gan gynllun Twf fel grŵp 'anodd ei gyrraedd', pan fydd swyddogion Twf yn dod ar drws tadau maent yn ymddangos yn gyffredinol fedrus o ran cyfleu eu neges mewn modd sy'n apelio at gynulleidfa wrywaidd.
- Mae difaterwch cyffredinol ymhlith parau i drafod materion ynghylch trosglwyddo iaith yn y teulu ac o ran rhannu gwybodaeth ynghylch neges Twf.
- Nid yw cyfleu neges Twf i un partner o angenrheidrwydd yn arwain at drafodaeth ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref gyda'r partner arall.

4.1.5 Cyrhaeddiad addysgol

- 4.1.5.1 Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod y Cymry'n draddodiadol wedi gosod gwerth uchel ar addysg a chymwysterau (e.e. Reynolds et al., 1998). At hynny, ceir tystiolaeth i ddangos bod gan ganran uwch o siaradwyr Cymraeg gymwysterau uwch, megis graddau, cymwysterau proffesiynol a galwedigaethol, o'u cymharu â rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (Drinkwater ac O'Leary, 1997).
- 4.1.5.2 Mae'r sylwadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn ein hastudiaeth ninnau, lle roedd cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni yn dangos po fwyaf oedd cyrhaeddiad addysgol y rhieni, y mwyaf rhugl oedd eu sgiliau iaith Gymraeg a'r cryfaf eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg. Ymhellach, roedd cynifer ag 85% o'r sampl yn ystyried addysg eu plentyn yn y dyfodol yn bwysig iawn, gan honni ei bod yn ffactor dylanwadol yn eu penderfyniad ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. Mae arwyddocâd arbennig yn y ddau gasgliad yma i Twf yn ei ymdrechion i wella trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu ac mae triongli'r data'n darparu cyfleoedd i hysbysu ac arwain cynllun Twf tuag at y nod hon.
- 4.1.5.3 Mae'r holi pellach yn ystod y cyfweiliadau dros y ffôn yn cynnig eglurhad am y berthynas rhwng y bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg gartref ac addysg arfaethedig y plentyn a'i ysgol. A gwybod am y cynnydd amlwg ac eang mewn darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o rieni'n dewis y math hwn o addysg ar gyfer eu plant (Reynolds et al., 1998). Gwelir bod eu cymhellion yn hyn o beth yn cael eu gyrru gan draddodiad, cyfleustra, integreiddio i'r gymuned a deilliannau academaidd cadarnhaol (Packer a Campbell, 1996), ac mae'r rhain i gyd yn cael eu darlunio yn ein hastudiaeth. I rieni sydd wedi cael gwell addysg, mae eu huchelgais i sicrhau addysg gyfrwng Cymraeg i'w plentyn yn troi'n ymrwymiad cadarnhaol i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref ac yn awydd i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plentyn fel y dangosir yn y dyfyniad sy'n dilyn:

“Dwi'n meddwl hefyd, y ffaith fydden nhw'n siarad Cymraeg a Saesneg o oedran ifanc iawn, a falle fydden nhw'n gallu pigo ieithoedd eraill lan yn eithaf cloi, amser fydde nhw yn yr ysgol neu bach yn henach.”

- 4.1.5.4 I eraill, sy'n llai gwybodus efallai am fanteision dwyieithrwydd cynnar, mae'r rhieni'n gadael y cyfrifoldeb am drosglwyddo'r Gymraeg i'r ysgol fel y darlunnir yn y dyfyniad o'r hyn a ddywedodd atebwr dros y ffôn:

“And once he starts school now, like after Christmas he's going part time, and even though, it's an English school, Welsh is the second language, the nursery teachers are Welsh speaking, and they have said that they will speak Welsh to him especially”.

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

O ganlyniad, collir cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad y plentyn fel siaradwr dwyieithog hyderus.

- 4.1.5.5 Mae trafodaethau pellach gyda rhieni, a hwyluswyd drwy'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn y cyfnod yn dilyn y geni, yn cefnogi'r casgliadau cychwynnol hyn, lle mae mwyafrif llethol y rhieni o blaid ysgol gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer eu plentyn ond mae eu cyfiawnhad dros y dewis hwn yn amrywio. Mae rhai rhieni'n dewis ysgol gyfrwng Cymraeg oherwydd y gwerth y maent yn ei osod ar sicrhau bod eu plentyn yn ddwyieithog. I eraill, fel mantais eilaidd y gwelir dwyieithrwydd, gan mai'r prif gymhelliad i sicrhau lle mewn ysgol gyfrwng Cymraeg yw'r canfyddiad bod ysgolion o'r fath yn cynnig profiad addysgol gwell i'w plentyn, neu yn sianel i gael mynediad at amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol.
- 4.1.5.6 Heb ystyried eu bwriad i gael mynediad at addysg gyfrwng Cymraeg, dengys y data o'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb fod gan rai rhieni S/S bryderon ynghylch eu gallu i gefnogi eu plentyn yn ddigonol drwy ei astudiaethau cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir y pryderon hyn gan Twf ac mae rhai rhieni'n cydnabod yr ymdrechion a wneir gan Twf i leihau'r ansicrwydd hwn.
- 4.1.5.7 Roedd cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn tystio i'r ffaith lle roedd gan deuluoedd S/S lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol, fod rhieni'n gwneud ymdrech arbennig i ddysgu Cymraeg fel dull o gefnogi datblygiad dwyieithog eu plentyn a chynorthwyo gyda gwaith cartref, fel y mae'r fydwraig hon yn disgrifio:

“So, I think adults who've got probably higher education would go along and learn Welsh for themselves with a view to particularly supporting their child, even if they didn't want to actually use it at work or anything like that.”

- 4.1.5.8 Dengys y dadansoddiad o weithgaredd Twf fod swyddogion Twf yn ymwybodol o bryderon rhieni ynghylch ansawdd profiad addysgol eu plentyn. Gwelir bod swyddogion Twf yn defnyddio llenyddiaeth wedi ei thargedu sy'n pwysleisio manteision gwybyddol addysg ddwyieithog; tra mae'n lledaenu gwybodaeth am ddarpariaeth leol o fewn ysgolion ac yn cynnig strategaethau i gefnogi dysgu yn y cartref. Mae'r dyfyniad canlynol o gyfweiliad dros y ffôn yn tystio i botensial swyddogion Twf i drosglwyddo goblygiadau cadarnhaol dwyieithrwydd i ddarpar rieni:

“Some of the argument put forward by, I think it's Twf, how having a second language at an early age can improve or just give children another way of analysing things and making sense of the world, if they are not limited to just one language - so there's a sort of a development of their powers of reasoning, I think really, which is where you get the benefit from having that second language at the outset, and that's certainly something that I've, you know, that's

now quite a strong influence in my decision. Although at the start, I wasn't aware of that, I hadn't really considered the argument."

- 4.1.5.9 Fel gyda llawer o ymgyrchoedd cyhoeddus o'r math yma (Letourneau et al., 2007), ychydig o amheuaeth sydd, wrth ddadansoddi'r data, bod neges Twf yn fwy tebygol o gyrraedd rhieni â lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol. Ymhellach, dengys ein hymchwil ni fod rhieni â lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol yn fwy tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Felly, ymddengys y byddai Twf yn elwa o geisio targedu'r rheiny sy'n llai gwybodus ynghylch manteision sefydlu dwyieithrwydd yn gynnar er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus yn hyn o beth.

Crynodeb o gyrhaeddiad addysgol

- Awgryma'r llenyddiaeth fod gwerth mawr wedi ei osod yn draddodiadol yng Nghymru, ar addysg a hyfforddiant.
- Yn ychwanegol, mae siaradwyr Cymraeg yn arddangos lefelau uwch o gymwysterau na'u cymheiriaid sydd heb fod yn siarad Cymraeg.
- Yn yr astudiaeth yma roedd 85% o ddarpar rieni yn honni bod addysg eu plentyn yn y dyfodol yn ffactor dylanwadol yn eu penderfyniad ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref.
- Po uchaf fo cyrhaeddiad addysgol y rhieni, y mwyaf rhugl eu sgiliau Cymraeg a'r cryfaf eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg.
- Mae rhieni sydd wedi cael addysg dda yn dymuno cael addysg gyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant ac yn ymdrechu i gefnogi eu datblygiad drwy drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- Mae rhai rhieni yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am drosglwyddo'r Gymraeg i'r ysgol, ac felly maent yn peryglu'r cyfle i'w plentyn ddatblygu fel siaradwr dwyieithog hyderus.
- Mae swyddogion Twf yn teilwrio'u hadnoddau a'u strategaethau i gefnogi dysgu'r Gymraeg yn y cartref.
- Mae neges Twf yn fwy tebygol o gyrraedd rhieni â lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol.

4.1.6 Agweddau tuag at ddwyieithrwydd

4.1.6.1 Yn ôl McAllister a Thomas (2005), mae siaradwyr Cymraeg sydd rhwng 22 a 45 mlwydd oed yn gweld bod gan y Gymraeg ddelwedd fwy cadarnhaol a'i bod mewn safle cryfach yn awr nag erioed o'r blaen. Adlewyrchir yr agwedd gadarnhaol hon ymhellach yn astudiaeth Gathercole et al., (2006) o drosglwyddo iaith mewn teuluoedd dwyieithog, lle roedd y rhieni i gyd bron yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, yn gyffredinol ac mewn perthynas â magwraeth eu plant eu hunain.

4.1.6.2 Yn ein hastudiaeth, gwelwyd bod agweddau tuag at ddwyieithrwydd ymhlith darpar rieni yn adleisio'r teimpladau cadarnhaol a geir yn y llenyddiaeth. Roedd y farn hon yn cael eu darlunio ymhellach drwy sylwadau megis:

“It’s a beautiful language. Because I learnt it as a young child I found it very easy to learn and I think if you start young it’s just going to be simple. So there’s no threats, there’s no difficulties. It’s just something that should be very natural.”

4.1.6.3 Cadarnhaodd dadansoddiad ystadegol o'r cyfweiliadau dros y ffôn mai po fwyaf y lefelau o rwyddineb yn y Gymraeg y mwyaf cadarnhaol oedd yr agweddau a'r mwyaf tebygol y bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu. Adroddir am y ffenomenon hon hefyd gan Jones a Morris (2007) yn eu hastudiaeth ethnograffig o gymdeithasoli Cymraeg yn y teulu.

4.1.6.4 Datguddiodd cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda'r rhieni ar ôl geni eu plentyn amrediad o brofiadau ieithyddol yn eu magwraeth hwy eu hunain. Adroddid yn aml fod gan y rhain rôl allweddol yn sefydlu proffiliau iaith yn nes ymlaen pan oeddent yn oedolion; ac yn selio agweddau'r rhieni tuag at ddwyieithrwydd a'u meddyliau am benderfynu ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. P'un a gafodd eu dewis o iaith ei wneud yn ymwybodol neu yn fwy greddfodol, roedd y penderfyniadau i drosglwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol wedi eu gyrru gan agweddau cadarnhaol a lefel uchel o ymrwymiad, fel y dangosir yn y dyfyniad canlynol:

“(I want to speak Welsh to my new baby...) Just because I think, you know, that erm, they always say that it's the best time for them to learn – when they are really young, and the easiest time for her to learn. And then I know, when I was young, I didn't really see the benefits of it, but, obviously now that I'm still living in Wales and working within a Welsh community – erm, it really has benefited me, so I can't see any. It can be more harm....it can be more beneficial to her than not really.”

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- 4.1.6.5 I'r gwrthwyneb yn hollol, dangosai rhieni eraill agwedd hamddenol tuag at drosglwyddo iaith, lle roedd y broses yn cael ei gadael i siawns i raddau helaeth, fel y dangosir yn y sylw hwn gan riant newydd o Sir Ddinbych:

“For me I wouldn't even have thought about it (language transmission) or discussed anything if we hadn't seen the (research project) flyer...otherwise it would probably have been what ever happens.”

- 4.1.6.6 Mae cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieuchyd yn atgyfnerthu'r casgliadau hyn ac yn rhoi dealltwriaeth bellach ynghylch y ffordd y mae agweddau ieithyddol yn dylanwadu ar benderfyniadau rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Honnai gweithwyr ieuchyd proffesiynol pan fyddent yn codi mater dwyieithrwydd gyda'u cleientiaid, eu bod fel arfer yn derbyn naill ai ymatebion difater, lle roedd rhieni'n methu â rhoi blaenoriaeth i ddwyieithrwydd yn eu bywydau prysur; neu ymatebion cadarnhaol lle roedd y rhieni'n dangos diddordeb yn y mater. Darlunnir y consensws gan y sylw canlynol:

“I haven't had one negative – I mean I've had some fairly passive ones, but not one reaction where you can see by body language 'we don't want to know'”.

- 4.1.6.7 Dangosodd ein hastudiaeth fod agweddau cadarnhaol cryfach tuag at ddwyieithrwydd yn arwain at fwy o fwriad i drosglwyddo'r Gymraeg. Mae cynllun Twf yn targedu unigolion er mwyn ceisio dylanwadu ar eu hagweddau, a'u daliadau a'u hymddygiad yn y pen draw ac yn canoli ei neges ar godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a darpar rieni o werth dwyieithrwydd a chyflwyno'r Gymraeg yn y cartref.

- 4.1.6.8 Mae'r themâu a gododd o'r dadansoddiad gweithgaredd yn cynnig peth dealltwriaeth o waith swyddogion Twf ac yn tynnu sylw at feysydd o arfer da, megis teilwrio'r neges ar gyfer cynulleidfa amrywiol, a meysydd lle y gellid gwella, megis cryfhau cydweithrediad gyda phartneriaid yn y gwasanaeth ieuchyd. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae ein casgliadau o'r cyfweiliadau dros y ffôn, yn y cyfnod cyn y geni, yn awgrymu mai lefel isel o fewnbwn y mae nifer sylweddol o rieni'n ei dderbyn gan Twf, sy'n golygu derbyn adnoddau gan Twf, megis taflen neu CD (47%), neu ddim mewnbwn o gwbl (40%). A derbyn bod trafodaethau wyneb yn wyneb wedi cael eu dangos i fod yn fwy effeithiol na thafledd gwybodaeth o ran dylanwadu ar agweddau (Murphy a Smith, 1992; 1993), mae posibiliadau pellach i Twf ddatblygu ar y lefel hon gydag unigolion.

Crynodeb o agweddau tuag at ddwyieithrwydd

- Awgryma'r llenyddiaeth fod agweddau tuag at y Gymraeg ymhlith oedolion rhwng 22 a 45 mlwydd oed yn gryfach nag erioed.
- Mae ein hastudiaeth yn cyd-fynd â chasgliadau blaenorol, ac yn dangos mai po uchaf y lefelau o rwyddineb yn y Gymraeg y mwyaf cadarnhaol yw'r agweddau a'r mwyaf tebygol yw'r bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu.
- Ategir y casgliadau hyn gan gyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni newydd a thrafodaethau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieuchyd.
- Mae cynllun Twf yn targedu unigolion er mwyn ceisio dylanwadu ar eu hagweddau, eu daliadau ac yn y pen draw eu hymddygiad ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- Mae arsylwi swyddogion Twf wrth eu gwaith bob dydd wedi tynnu sylw at feysydd o arfer da o ran dylanwadu ar agweddau a meysydd lle y gellid cael gwelliant.
- A gwybod bod trafodaethau wyneb yn wyneb wedi cael eu dangos i fod yn fwy effeithiol na thafleuni gwybodaeth o ran dylanwadu ar agweddau mae cyfle i ddatblygiadau gan Twf ar y lefel unigol hon.

4.1.7 Proffil iaith y teulu

- 4.1.7.1 Mae trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu yn hollbwysig i ddyfodol yr iaith gan y bydd ieithoedd yn methu â goroesi oni chânt eu siarad yn y cartref (Fishman, 1991). Yn ôl arolwg 2004 Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y defnydd o'r Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006) mae 90% o siawns y bydd plant yn siarad yr iaith os bydd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Fodd bynnag, os mai un rhiant yn unig sy'n siarad Cymraeg, mae'r ganran hon yn gostwng i oddeutu 59%.
- 4.1.7.2 Mae casgliadau ein hastudiaeth yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn, lle yr oedd y cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni ar draws y pedair sir yn dangos perthynas arwyddocaol rhwng eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref a phroffil iaith eu teulu. Mewn geiriau eraill, roedd teuluoedd C/C yn sylweddol fwy tebygol i ddangos bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu na'u cymheiriaid ymhlith teuluoedd C/S. Efallai y gellir egluro hyn yn rhannol drwy'r ffaith fod teuluoedd C/C hefyd yn sylweddol fwy tebygol o fod yn meddu ar agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd a mwy o hyder mewn defnyddio'r Gymraeg gartref na theuluoedd C/S.
- 4.1.7.3 Cadarnhaodd dadansoddiad o'r cyfweiliadau dros y ffôn cyn y geni nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng proffil iaith teuluoedd a lefel eu profiad o Twf. Mewn geiriau eraill, roedd darpar rieni o deuluoedd C/C yr un mor debygol o dderbyn neges Twf â rhieni o deuluoedd C/S. Awgryma hyn fod cynllun Twf yn mabwysiadu dull eang. Serch hynny, mae'n ymddangos fod cyfyngiadau i'r ffordd hon o weithio gan ei bod yn drawiadol fod 40% o'r rhieni (mamau a thadau), a gymerodd ran yn y cyfweiliadau dros y ffôn, heb dderbyn unrhyw fewnbwn o gwbl gan Twf.
- 4.1.7.4 Mae'r casgliadau hyn yn gyson â'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni yn y cyfnod yn dilyn y geni pan nad oedd nifer o rieni yn gweld eu hunain fel prif darged neges Twf, ni waeth beth oedd proffil iaith eu teulu, fel y mae'r dyfyniadau canlynol yn darlunio:

"I'm not their target – so it's wasting their time." (Mam o deulu C/S).

"I dunno, it's just I, think, personally, the end target audience is more sort of both parents speaking Saesneg." (Mam o deulu C/S).

"Oedd hi (y swyddog Twf) ddim yn siarad 'da fi, ond dwi'n meddwl achos bod fi'n Cymry Cymraeg. Oedd hi'n gwybod hynny." (Mam o deulu C/C)

Er hynny, roedd consensws ymhlith canfyddiadau atebwyr am natur neges Twf, gyda rhieni o deuluoedd S/S, C/S a C/C yn awgrymu bod neges Twf yn bennaf ynghylch hybu dwyieithrwydd yn y teulu.

- 4.1.7.5 Roedd cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieuchyd yn cefnogi'r casgliadau cyffredinol hyn lle roedd yr atebwyr yn mynegi barn

glir am rôl y teulu yn gwella dwyieithrwydd mewn plant. Teimlai llawer fod cefndir y teulu hefyd yn dylanwadu'n gryf ar y penderfyniad a wneir yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, gwelid bod siaradwyr Cymraeg, yn arbennig merched, yn fwy tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, gan yr ystyrid hyn y 'peth naturiol i'w wneud', tra y meddylid bod teuluoedd cymysg eu hiaith yn fwy tebygol o wneud penderfyniad ymwybodol, fel y darlunnir yn y dyfyniad canlynol o'r data:

"I don't think so much of a conscious decision if they are a traditional Welsh family but I think if there's, if there's mixed languages there, then they sometimes do make a conscious decision."

- 4.1.7.6 Er bod y cyfranogwyr yn aneglur ynghylch pa deuluoedd oedd yn nodweddiadol o brif gynulleidfa darged Twf roedd rhai'n gallu dyfalu'n wybodus ynghylch pwy y gallent fod; fel y dengys y darn canlynol:

"... if you look at the percentage figures, there's still (a) significant number there where one parent speaks Welsh, where the children aren't brought up bilingually. So I presume that's their target audience."

- 4.1.7.7 Er hynny, mae hi'n amlwg fod ymwelwyr ieuchyd a bydwagedd yn credu nad yw proffil teulu Cymraeg yn bennaf bob amser yn golygu tebygolrwydd uwch o drosglwyddo'r Gymraeg, fel y darlunnir yn y dyfyniad canlynol:

"Mae'r rhan fwyaf sydd yn yr ardal - mae nhw'n deall yr iaith - mae nhw'n deall yn iawn, ond 'dy nhw ddim yn dewis siarad a mae lot o hynna. Mae nhw'n deall - dwi'n gweud wrtho nhw - allen i 'weud rhywbeth ac mae nhw'n deall yn iawn, ydyn, ydyn."

Awgryma hyn na ddylid cyfeirio ymdrechion Twf i annog trosglwyddo'r Gymraeg i ffordd oddi wrth y teuluoedd C/C.

- 4.1.7.8 Nid yw teuluoedd S/S yn brif darged i gynllun Twf gan fod trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref y tu hwnt i gyrraedd y rhieni hynny nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg. Er hynny, yn yr achos hwn gwelwyd swyddogion Twf yn rhoi cyngor ynghylch manteision dwyieithrwydd, megis rhwyddineb dysgu dwy iaith yn gynnar ac am y defnydd o gyfleoedd megis ysgolion meithrin Cymraeg ac adnoddau ieithyddol fydd yn galluogi plant nad ydynt yn Gymry Cymraeg, i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg y tu fewn a'r tu allan i'r cartref. Cefnogir y casgliadau hyn gan Edwards a Pritchard Newcombe (2003) oedd yn nodi enghreifftiau tebyg o arfer da yn eu hastudiaeth. Fodd bynnag, lle nad yw Edwards a Pritchard Newcombe (2003) yn cyfeirio ond at enghreifftiau cadarnhaol, mae'r dadansoddiad gweithgaredd yn datgelu sefyllfaoedd lle nad oedd llwybrau mor ffafriol yn cael eu dilyn.

Crynodeb o broffil iaith y teulu

- Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod trosglwyddo'r Gymraeg yn fwyaf bregus ymhlith teuluoedd C/S lle nad oes ond 59% yn debygol o fagu eu plant yn ddwyieithog, o'u cymharu â 90% o deuluoedd C/C.
- Roedd y cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni'n adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn, lle roedd teuluoedd C/C gryn dipyn yn fwy tebygol o ddangos bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu na'u cymheiriaid ymhlith teuluoedd C/S.
- Mae teuluoedd C/C hefyd yn arwyddocaol fwy tebygol o feddu agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd a mwy o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gartref na'u cymheiriaid ymhlith teuluoedd C/S.
- Mae cynllun Twf yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull marchnata eang er mwyn cyrraedd teuluoedd ag amrediad o broffiliau iaith.
- Mae darpar rieni o deuluoedd C/C yr un mor debygol i dderbyn profiad o Twf â rhieni o deuluoedd C/S. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu lefel gymharol isel o fewnbwn Twf, lle nad ydynt yn derbyn ar y gorau ond deunyddiau Twf.
- Nid oes consensws ymhlith rhieni, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd ynglŷn â grŵp targed Twf.
- Er bod data arolwg diweddar yn tynnu sylw at yr angen i dargedu teuluoedd C/S â neges Twf, mae lle i wella trosglwyddo'r Gymraeg drwy fabwysiadu strategaeth farchnata fwy eang sy'n cynnwys teuluoedd C/C.

4.1.8 Safle'r plentyn yn y teulu

- 4.1.8.1 Yn gyffredinol, ychydig o sylw a rydd y llenyddiaeth i safle'r plentyn yn y teulu fel un o benderfynyddion trosglwyddo iaith yn y cartref. Er hynny, mae'n eglur, yn y rhan fwyaf o achosion, bod rhieni'n dechrau siarad mewn ffordd arbennig â'u plant a'u bod yn cynnal eu dewis iaith dros amser (Gathercole et al., 2006). Mewn geiriau eraill, ar ôl sefydlu iaith y cartref gyda'r plentyn cyntaf, mae'r patrwm hwn yn debygol o gael ei gynnal gyda phlant diweddarach.
- 4.1.8.2 Yn ein hastudiaeth, roedd 41% o'r sampl a gymerodd ran yn y cyfweiliadau dros y ffôn yn disgwyl eu babi cyntaf ac roedd 59% yn disgwyl eu hail blentyn neu un diweddarach. Datgelodd archwiliad manylach o'r data fod tri chwarter o'r atebwyr oedd â phlant eraill yn credu nad oedd eu barn ynghylch trosglwyddo iaith wedi newid ers geni eu plentyn blaenorol. Serch hynny, roedd y chwarter arall o'r rhieni hyn yn adrodd am newid yn eu safbwynt a allai sbarduno newid yn eu hymddygiad o ran defnyddio mwy neu lai o Gymraeg gyda'r plentyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Awgryma hyn fod yna botensial i Twf weithio gyda rhieni o'r fath i sicrhau bod eu newid ymddygiad yn symud tuag at fwriad cryfach i drosglwyddo'r Gymraeg i'r babi newydd.
- 4.1.8.3 Yn ystod y cyfweiliadau dros y ffôn, roedd y rhieni oedd wedi cael profiad cadarnhaol o drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yn ymfalchio yng nghanlyniadau da eu hymdrechion o ran gwella datblygiad iaith eu plentyn a'i eirfa, gan ddangos sut yr oedd hyn wedi rhoi mwy o hyder iddynt a

phenderfyniad i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u babi newydd, fel y dangosir yn y dyfyniad canlynol o'r data:

“Well, I suppose I became more determined to have them speaking Welsh - because of the effect on their speech development and their word usage; and their ability to sort of switch between from one language to another. It's lovely to see them do that and to know the difference between the two languages and, you know, know the different words in English and Welsh.”

- 4.1.8.4 Mewn cyferbyniad, roedd rhieni â llai o hyder oedd wedi ymdrechu i gyflwyno'r Gymraeg yn y cartref ar adegau blaenorol yn llai tueddol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u babi newydd ac mae'r dyfyniad canlynol yn mynegi hyn:

“Yes, I thought I would use Welsh much more than I do (with the other child); and I find, I sort of talk to her all the time really and I don't have to think about it too much when I'm speaking English, whereas it's a big effort to try and use Welsh. So it just feels rather unnatural somehow, so I have to make a real effort and I tend to only do it if I'm sort of feeling inspired, if I've come back from a Welsh lesson or we've been to Cylch Meithrin or something and then we can use a few phrases. But it doesn't come naturally most of the time.”

- 4.1.8.5 Roedd dadansoddiad ystadegol o'r data yn cadarnhau nad oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y rheiny sy'n disgwyl eu babi cyntaf a'r rheiny sy'n disgwyl eu hail blentyn neu un diweddarach, o ran eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu. Er hynny, mae casgliadau'r cyfweiliadau dros y ffôn yn awgrymu bod eu profiad o gynllun Twf yn sylweddol wahanol. Yn wir, mae'r dadansoddiad yn cadarnhau os oes gan deuluoedd blentyn yn barod eu bod yn fwy tebygol o fod yn agored i lefel uwch o brofiad o Twf, yn cynnwys trafodaeth wyneb yn wyneb gyda swyddog Twf neu weithiwr iechyd proffesiynol. Yn ein hastudiaeth, er enghraifft, 7% yn unig o deuluoedd oedd yn disgwyl eu babi cyntaf oedd wedi profi'r lefel hon o fewnbwn gan gynllun Twf. Mae hyn yn cymharu â ffigur o 18% ymhlith teuluoedd oedd â phlant yn barod.
- 4.1.8.6 Roedd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni ar ôl geni eu plentyn yn egluro'r anomaledau hyn ac yn rhoi mwy o ddyfnder ac ystyr i'r data. I rieni ail blentyn neu un diweddarach, roedd presenoldeb brodyr a chwiorydd eraill yn nodwedd oedd yn codi o'r trafodaethau ac ymddangosai'n ffactor allweddol oedd yn dylanwadu ar drosglwyddo iaith yn y teulu. Wedi eu hysbrydoli gan lwyddiannau eu plant hyn, roedd rhieni newydd yn datgelu eu hawydd i'w babi newydd a'i frodyr a chwiorydd sgwrsio â'i gilydd yn Gymraeg gartref. Mae'r safbwynt hwn yn cael ei gyfleu yn y dyfyniad dilynol o'r hyn ddywedodd atebwr o deulu C/S:

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

“I’ve caught X (eldest child) speaking English to XX (baby). But I’ve also caught him speaking Welsh to him as well, more recently – probably because he knows that I speak Welsh to XX (baby). I don’t know, I will be happy when they both converse in Welsh with each other but they will speak English to each other as well.”

- 4.1.8.7 Roedd nifer o atebwyr yn honni eu bod wedi cael llwyddiant wrth fagu eu plant yn ddwyieithog drwy wneud pob ymdrech gartref a mynd i gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg lleol, meithrinfeydd ac ysgolion. Efallai bod eu rhwydweithiau cymdeithasol cynyddol, cysylltiedig â darpariaeth blynyddoedd cynnar, yn cyfrif am y ffaith eu bod yn dod ar draws y profiad o Twf i raddau helaethach, o’u cymharu â theuluoedd oedd yn disgwyl eu plentyn cyntaf.
- 4.1.8.8 Mae asiantaethau blynyddoedd cynnar sy’n cydweithredu gyda Twf yn cynnwys y Mudiad Ysgol Meithrin (MYM), y corff Cymraeg ar gyfer rhai dan oed ysgol, a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, (WPPA) sy’n cynnig darpariaeth cyn-ysgol Saesneg, Cymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant a meithrinfeydd preifat. O’r asiantaethau uchod, mae Twf yn cydweithredu gyda Mudiad Ysgiolion Meithrin ar raddfa helaethach na’r gweddill. Datgelodd dadansoddiad gweithgaredd Twf fod swyddogion Twf yn ymweld â grwpiau meithrin, yn cefnogi eu defnydd o’r Gymraeg gyda phlant dan oed ysgol, yn eu cynghori ynglŷn ag adnoddau priodol megis llyfrau Cymraeg a dwyieithog, ac yn defnyddio’r ymweliadau hyn fel cyfle i siarad â rhieni. Maent yn dosbarthu adnoddau hefyd neu’n gofyn i arweinyddion y grwpiau chwarae wneud hyn ar eu rhan.
- 4.1.8.9 Wrth i deuluoedd dyfu, mae eu cysylltiadau gyda’r cyrff blynyddoedd cynnar hyn yn debygol o gryfhau, wrth i rhieni eu cael eu hunain yn fwyfwy dibynnol ar y gefnogaeth arbenigol a’r adnoddau a gynigir. A gwybod bod Twf yn gweithio ochr yn ochr â llawer o’r cymdeithasau hyn, mae’n debygol y bydd rhieni’n fwy agored i neges Twf wrth i niferoedd eu teuluoedd gynyddu. Er hynny, yng ngoleuni’r ffordd y sefydlir patrymau iaith yn y cartref yn aml gyda’r plentyn cyntaf, mae dadl gref dros i Twf ganolbwyntio ei ymdrechion ar gyfnod cynharach yn natblygiad y teulu.

Crynodeb o safle'r plentyn yn y teulu

- Wedi sefydlu iaith y cartref gyda'u plentyn cyntaf, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod y patrwm hwn yn debygol o gael ei gadw gyda'r plant dilynol.
- Gall barn rhieni ynghylch trosglwyddo iaith newid dros amser a gall hyn ysgogi newid ymddygiad o ran defnyddio mwy neu lai o Gymraeg gyda babi newydd.
- Gall newid i gyfeiriad defnyddio mwy o Gymraeg gael ei ysgogi gan gynnydd yn hyder y rhieni wrth ddefnyddio'r Gymraeg, profiadau cadarnhaol yn y gorffennol a chydabyddiaeth o'r manteision i'r plentyn yn nhermau gwell datblygiad iaith.
- Roedd ein hastudiaeth yn dangos nad oedd gwahaniaeth rhwng y rheiny sy'n disgwyl eu babi cyntaf a'r rheiny sy'n disgwyl eu hail blentyn neu un diweddarach o ran eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu.
- Er hynny, os oes gan deuluoedd blentyn eisoes, maent yn fwy tebygol o fod yn agored i lefel uwch o brofiad o Twf, gan gynnwys trafodaeth wyneb yn wyneb gyda swyddog Twf neu weithiwr iechyd proffesiynol.
- Mae hyd yn oed rhieni â lefel hyfedredd isel yn y Gymraeg yn aml yn ymrwymedig i gyflwyno rhyw lefel o Gymraeg o leiaf i'w babi newydd, drwy annog brodyr a chwiorydd hŷn i siarad Cymraeg â'r babi.
- Efallai bod rhwydweithiau cymdeithasol cynyddol, cysylltiedig â darpariaeth blynyddoedd cynnar, yn cyfrif am y ffaith bod rhieni â phlant yn dod ar draws y profiad o Twf i raddau helaethach, o'u cymharu â theuluoedd sy'n disgwyl eu plentyn cyntaf.
- Yn yr astudiaeth hon, 7% yn unig o'r teuluoedd oedd yn disgwyl eu plentyn cyntaf a dderbyniodd uchel o brofiad o Twf. Mae hyn yn cymharu gyda ffigur o 18% ymhlith teuluoedd oedd â phlant eisoes.

4.2 Dylanwadau ar drosglwyddo'r Gymraeg yn rhyngwyneb y cartref/y gymuned ac effaith Twf

4.2.1 Teulu estynedig a chyfeillion

4.2.1.1 Mae llawer o blant bach yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser, nid yn unig gyda'u teulu agosaf ond hefyd gyda chyfeillion ac aelodau o'r teulu estynedig, megis teidiau a neiniau, sydd yn aml yn chwarae rôl sylweddol yng ngofal a magwraeth y plentyn, yn arbennig mewn cymunedau clòs (Edwards a Pritchard Newcombe, 2003). Prin ei bod yn syndod, felly, fod Gathercole et al., (2006) yn eu hastudiaeth o drosglwyddo iaith mewn teuluoedd dwyieithog, wedi canfod os dylanwadir ar riant o gwbl gan rywun arall wrth benderfynu ynghylch trosglwyddo iaith, mae'n fwyaf tebygol mai'r partner neu'r rhiant fydd hwnnw neu rywun arall y maent yn perthyn yn agos iddo. At hynny, daeth Jones a Morris (2007) i'r casgliad bod teidiau a neiniau, yn arbennig y taid a'r nain ar ochr y fam ac yn enwedig nain, yn cael effaith arwyddocaol ar gymdeithasoli iaith y plentyn.

4.2.1.2 Adlewyrchir y casgliadau hyn yn ein hastudiaeth ninnau, lle roedd cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni yn dangos ar ôl partneriaid, mai'r taid a'r nain ar ochr y fam oedd yn cael eu hystyried yn cael y dylanwad mwyaf ar benderfyniadau ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. Yn wir, honnai cynifer â 45% o'r atebwyr fod y taid a'r nain ar ochr y fam wedi dylanwadu'n sylweddol ar eu penderfyniad yn y mater hwn. Mae i hyn arwyddocâd arbennig ar gyfer Twf yn eu hymdrechion i godi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd o werth cyflwyno'r Gymraeg yn y cartref.

4.2.1.3 Mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb ar ôl geni eu plentyn, siaradai rhieni yn hir am farn eu teulu estynedig, yn enwedig taid a nain, gyda golwg ar fagu'r plant yn ddwyieithog. Gwelir amrywiaeth o atebion, gan gynnwys anoddefgarwch rhonc; gofid a phryder; difaterwch a chefnogaeth barhaus. Gyda'r adweithiau hyn yn eu harwain, mae rhieni penderfynol yn dangos eu sgiliau yn lleihau tyndra yn y cartref ac yn chwilio am aelodau o'r teulu a fydd yn siarad Cymraeg â'u babi newydd. I ddarlunio hyn, meddai un fam:

"I always say to them now, you know, "X (daughter), ti'n gallu siarad Cymraeg i Wncl XX a ti'n gallu siarad Cymraeg i Anti XXX". And I sort of, if I meet anyone whose is (Welsh) first language, I always say to my daughter so THEY know... so that they know that I want them to do it to her... establish the way it would go, isn't it?"

4.2.1.4 Yn ogystal ag ennill cefnogaeth gan y teulu, amlinellodd rhieni hefyd rôl cyfeillion a chydweithwyr yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Awgryma'r data fod y rhieni sydd fwyaf brwdfrydig dros fagu eu plant yn ddwyieithog yn aml yn cael eu denu at y rheiny sy'n rhannu'r un farn ac yn

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

cadarnhau eu penderfyniadau. I'r gwrthwyneb, mae rhieni'n cydnabod methiant rhai o'u cyfeillion i'w cefnogi yn eu cenhadaeth. Crynhoir hyn gan un rhiant a ddywedodd:

“Quite often it's Welsh people who don't speak Welsh who are the worse. I've got one or two friends who are a bit lazy in that department.”

- 4.2.1.5 Datgelodd y dadansoddiad o weithgaredd Twf fod swyddogion Twf yn ymwybodol o rôl teidiau a neiniau yn cefnogi gofal plant i lawer o deuluoedd a'u safle allweddol o ran dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Gwelwyd tystiolaeth yn ystod y dadansoddiad o weithgaredd Twf o swyddogion Twf yn cyflwyno negeseuon yn fedrus i aelodau o'r teulu estynedig ac eraill arwyddocaol, megis teidiau a neiniau, modrybedd, brodyr a chwiorydd hŷn a gwarchodwyr plant. Er enghraifft, adroddwyd am gyfarfyddiad gyda darpar nain, nad oedd yn siarad Cymraeg, o deulu cymysg ei iaith, lle roedd swyddog Twf yn rhoi cyngor ac adnoddau i helpu'r nain i gyfathrebu gyda'i hŷyr newydd, heb beryglu cynlluniau'r teulu i gyfyngu faint o Saesneg y byddai eu babi'n ei glywed yn ei flynyddoedd cynnar. Ymhellach roedd enghreifftiau ar draws y tair sir o swyddogion Twf yn cynghori rhieni o deuluoedd C/S ac S/S i ofyn i deidiau a neiniau Cymraeg sefydlu'r Gymraeg fel yr iaith y byddent hwy'n ei defnyddio gyda'r plant.
- 4.2.1.6 Er gwaethaf ymdrechion o'r fath, nid oedd tystiolaeth fod swyddogion Twf yn targedu teidiau a neiniau'n uniongyrchol drwy rwydweithiau eu hasiantaeth hwy eu hunain, megis Merched y Wawr a 'Round Table', ac felly roeddent yn cyfyngu ar y potensial i ledaenu neges Twf ar draws y grŵp ehangach hwn. Ymhellach, nid oedd rhagor o dystiolaeth yn codi allan o'r grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd ynghylch gwaith Twf gydag aelodau'r teulu estynedig.
- 4.2.1.7 Er bod Twf yn gwneud ymdrechion i geisio sicrhau cymorth aelodau o'r teulu oedd yn siarad Cymraeg, megis teidiau a neiniau ac ewythrod a modrybedd, mae cyfansoddiad cymdeithasol y pedair sir yn amrywio ac mae angen ystyried y gwahaniaethau rhanbarthol ym mhroffil demograffig pob sir wrth roi cyngor o'r fath. Er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin, awgryma'r dystiolaeth o Gyfrifiad 2001 bod lefel y mudo i mewn ac allan o'r sir yn isel. 3% o deuluoedd Sir Gaerfyrddin sy'n honni iddynt fyw yn rhywle arall un flwyddyn yn ôl (o ddyddiad y cyfrifiad sef 29 Ebrill 2001), a diffinnir y rhain yn y Cyfrifiad fel 'mewnlif'. At hynny, roedd yr 'all-lif', sef y teuluoedd a symudodd allan o'r sir yn y flwyddyn, yn cyfrif am 2.5% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin. Mae'r mudo cyfyngedig hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd fod rhieni'n byw yn agos at eu teuluoedd estynedig (Morris, 1989) ac felly mae hi'n rhesymol i swyddogion Twf gymryd yn ganiataol y byddant yn gallu tynnu ar yr adnoddau a gynigir iddynt gan eu teulu estynedig.
- 4.2.1.8 Mewn cyferbyniad, mae'r mudo i mewn ac allan o Geredigion yn arwyddocaol fwy, lle mae'r mewnlif yn 6.5% o'r boblogaeth a'r all-lif yn 5.4% o'r boblogaeth. Wedi symud i ardal newydd, mae mwy o

bosibilrwydd na fydd y mudwyr yn byw yn agos at eu teulu estynedig ac felly nid ydynt yn elwa o'r gefnogaeth o ddydd i ddydd gan y rhai sy'n perthyn agosaf iddynt yn eu hymdrechion i gynyddu defnydd eu plant o'r Gymraeg. Mae'n amlwg yn yr achos hwn bod sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg y tu hwnt i'r teulu yn dod yn flaenoriaeth i rieni sy'n ymrwymedig i fagu eu plant yn ddwyieithog (McAllister a Thomas 2005; Gathercole et al., 2006) a gwelid bod Twf yn cadarnhau hyn. Er enghraifft, yn y dadansoddiad o weithgaredd Twf, gwelwyd swyddogion yn cynghori rhieni S/S i hyrwyddo cyfeillgarwch gyda phlant oedd yn siarad Cymraeg mewn ymdrech i beri bod eu plant yn clywed y Gymraeg.

Crynodeb o teulu estynedig a chyfeillion

- Dengys y llenyddiaeth fod y teulu estynedig yn cael effaith arwyddocaol ar drosglwyddo iaith yn y cartref, yn enwedig y neiniau a'r teidiau ar ochr y fam ac yn enwedig y nain ar ochr y fam.
- Honnai 45% o ddarpar rieni yn y cyfweiliadau dros y ffôn, fod y taid a'r nain ar ochr y fam wedi dylanwadu'n sylweddol ar eu penderfyniad ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref.
- Felly dylai neiniau ar ochr y fam fod yn un o'r prif dargedau wrth ledaenu neges Twf.
- Adroddir bod teidiau a neiniau yn dangos gwahanol ymatebion gyda golwg ar fagu plant yn ddwyieithog, o anoddefgarwch rhonc i gefnogaeth barhaus.
- Mae swyddogion Twf yn ymwybodol o rôl teidiau a neiniau yn cefnogi gofal plant i lawer o deuluoedd a'u safle allweddol o ran dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y teulu.
- Er hynny, nid oes tystiolaeth fod Twf yn targedu teidiau a neiniau yn uniongyrchol drwy rwydweithiau eu hasiantaeth hwy eu hunain.
- Mae sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg y tu allan i'r teulu yn flaenoriaeth i rieni sy'n ymrwymedig i fagu eu plant yn ddwyieithog, yn arbennig y rheiny o deuluoedd C/S ac S/S.
- Mae Twf yn gwneud peth ymdrech i hyrwyddo datblygiad y rhwydweithiau hyn.
- Mae angen ystyried y gwahaniaethau rhanbarthol ym mhroffil demograffig siroedd wrth roi cyngor i'r teulu.

4.2.2 Gofal plant

4.2.2.1 Bu cryn ehangu ar ofal plant yn y blynyddoedd diwethaf, gyda'r nifer o leoedd gofal cofrestredig ar gyfer plant dan wyth mlwydd oed yn cynyddu o bron i 18,500 rhwng Mawrth 1999 a Mawrth 2005. Mae darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol wedi cynyddu gyda mwy na 24,000 o leoedd wedi eu creu rhwng 1999 a 2002. At hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyflawni ei hymrwymiad i ddarparu lle hanner amser am ddim mewn addysg yn ystod y tymor ar gyfer yr holl blant tair blwydd oed (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Wlad sy'n Dysgu, 2005).

4.2.2.2 Gall gofal plant gymryd ffurf darpariaeth wladol; darpariaeth breifat neu ymrwymiad gwirfoddol. Nid yw'n syndod, felly, fod Edwards a Pritchard

Newcombe (2003) yn awgrymu bod angen ymestyn y syniad o'r teulu i gynnwys teidiau a neiniau, gwarchodwyr plant a gofalwyr eraill, y mae llawer o blant yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser gyda hwy. Mae canlyniadau i hyn ar gyfer cynllun Twf, gan fod y llenyddiaeth yn awgrymu y gall swm bychan o gefnogaeth i iaith y cartref mewn gofal dydd plant hybu trosglwyddo iaith leiafrifol (Siren, 1995). Ymhellach, yng nghydestun y Gymraeg, ceir tystiolaeth fod gwarchod plant a darpariaeth gofal plant yn effeithio ar gymdeithasoli Cymraeg y plant (Jones a Morris, 2007).

- 4.2.2.3 Yn ein hastudiaeth, dangosodd y cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni, fod gan warchodwyr plant, i rieni oedd yn disgwyl eu hail blentyn neu un diweddarach, ddylanwad sylweddol ar eu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref, gan roi hyder a phenderfyniad, fel y darlunnir isod:

“The childminder that we use two days a week (has influenced our decision about the use of language with our new baby) because she's a Welsh speaker and therefore she speaks Welsh to the children all the time.”

- 4.2.2.4 Ymhelaethir ar y thema hon yn y cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni ar ôl geni eu plentyn, lle y gwelir bod darpariaeth gofal plant yn effeithio ar ymresymiad y teulu. Er y nodwyd mai teidiau a neiniau oedd ffynhonnell rhan fawr o ofal plant i lawer o deuluoedd, roedd rhieni hefyd yn siarad am drefnu eu patrymau gwaith i rannu cyfrifoldebau gwarchod plant rhwng y rhieni a defnyddio darpariaeth fwy ffurfiol, megis gwarchodwyr plant a meithrinfeydd. O ganlyniad i'r amrediad amrywiol o fodolau gofal plant, mae'r effaith ar iaith y teulu wedi ei osod ar hyd continwwm dimensiynol clir. Mae rhai rhieni'n credu bod eu babanod yn clywed mwy o Gymraeg nag a fyddai wedi bod yn bosibl o fewn y teulu niwclear, tra mae eraill yn mynegi peth pryder y gall eu trefniadau gofal plant arwain at wanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Un enghraifft o hyn yw'r fam hon o Sir Gaerfyrddin a'i disgrifiadau o staff y feithrinfa.

“Mae yna dwy o'r merched yn siarad Cymraeg ond mae e'n tueddu i fod yn fwy Seisnigaidd na Cymraeg, ond siarad Cymraeg mae nhw pan fi'n troi lan!”

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- 4.2.2.5 Gan fod Gathercole et al., (2006) yn cadarnhau mai un o'r ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar ddefnydd rhieni o iaith gyda'u plentyn yw presenoldeb system o gefnogaeth iaith neu 'gylch o siaradwyr', gall gwarchodwr plant sy'n siarad Cymraeg gael effaith ddramatig ar ddatblygiad Cymraeg ymhlith plant bach, yn arbennig y rheiny sydd ond yn clywed ychydig o Gymraeg yn y cartref.
- 4.2.2.6 Mae cynllun Twf yn cydnabod ei botensial yn hybu negeseuon cadarnhaol ynghylch gwerth darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Caiff hyn ei gadarnhau fel ffordd o gefnogi'r defnydd o iaith naturiol y cartref ar gyfer plant o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg a chyflwyno dwyieithrwydd i blant o gefndiroedd S/S.

Crynodeb o gofal plant

- Mae gofal plant yng Nghymru wedi ehangu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae gan hyn ganlyniadau i gynllun Twf, gan fod y llenyddiaeth yn awgrymu y gall cefnogi iaith drwy ofal plant wella trosglwyddiad yr iaith yn y cartref.
- Mae gwarchodwyr plant yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref, yn arbennig ymhlith rhieni sy'n disgwyl eu hail blentyn neu un diweddarach.
- Mae trefniadau gofal plant yn cael effaith gadarnhaol ac effaith negyddol hefyd ar wella dwyieithrwydd yn y cartref, yn dibynnu ar gyfrwng iaith y ddarpariaeth.
- Mae cynllun Twf yn cydnabod ei botensial yn hybu negeseuon cadarnhaol ynghylch dwyieithrwydd drwy gydweithio gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar.

4.2.3 Neges Twf

- 4.2.3.1 Un penderfynydd allweddol, o ran trosglwyddo iaith mewn teuluoedd dwyieithog yng Nghymru, yw eu mynediad at system gefnogi iaith sy'n hwyluso ac yn arwain eu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Mae hyn fel arfer ar gael i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg drwy eu rhwydwaith o deulu a chyfeillion. Fodd bynnag, i rieni cymysg eu hiaith a dysgwyr Cymraeg, efallai y bydd mynediad at gefnogaeth o'r fath, i wella eu sgiliau Cymraeg a chynnal eu hymdrechion i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, yn fwy cyfyngedig.
- 4.2.3.2 A chadw'r diffyg hwn mewn cof, mae cynllun Twf yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth gadarn gyda rhieni, sy'n eu grymuso i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'r negeseuon yn cael teilwra i fod yn addas i deuluoedd o wahanol gefndiroedd ieithyddol. Mae'r neges yn canolbwyntio ar dynnu sylw at werth y Gymraeg a dwyieithrwydd i rieni, darpar rieni a'r boblogaeth yn gyffredinol; ac annog teuluoedd i fagu eu plant i siarad Cymraeg. Mae cynllun Twf yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, ac mae'n defnyddio taflen wybodaeth '6 Rheswm Da' yn sail i'r neges hon.

4.2.3.3 Aeth ein hastudiaeth ati i asesu i ba raddau y mae neges Twf yn cyrraedd ei chynulleidfa darged a'i heffaith ar gyfranogwyr. Datgelodd cyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni, ar draws y pedair sir, er bod 56% o'r sampl wedi derbyn taflenni gwybodaeth Twf a 29% wedi derbyn CD Twf, mai 14% yn unig o'r sampl oedd wedi siarad â Swyddog Twf, 19% oedd wedi cael trafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith gyda bydwraig ac 11% oedd wedi cael trafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith gydag ymwelydd iechyd. Mewn perthynas â derbyn neges Twf, dengys dadansoddiad o'r data ar lefel sirol fod trigolion Sir Ddinbych yn derbyn mwy o fewnbwn Twf na'u cymheiriaid yn y tair sir arall. Fodd bynnag, awgryma'r casgliadau mai lefel gymharol isel o brofiad o Twf y gall darpar rieni ddisgwyl ei derbyn yn gyffredinol yn ystod y cyfnod cyn y geni. A derbyn bod arferion iaith teulu ac unigolion yn cael eu sefydlu'n gynnar, a'u bod yn anodd iawn eu newid (Jones a Morris, 2007), mae i hyn oblygiadau pwysig ar gyfer cynllun Twf. At hynny, mae'n tynnu sylw at yr angen i ategu'r gwaith o dargedu rhieni sy'n disgwyl plentyn â dulliau eraill mwy eang, sy'n cyfleu negeseuon cadarnhaol ynghylch magu plant yn ddwyieithog.

4.2.3.4 Roedd cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni, ar ôl geni eu plentyn, yn taflu goleuni ar eu canfyddiadau a'u derbyniad o neges Twf. Mae'r casgliadau'n cadarnhau bod presenoldeb Twf ym mywydau rhieni'n amrywio'n sylweddol, fel bod continwmm dimensiynol clir yn dod i'r amlwg. Roedd nifer bychan o rieni yn adrodd am eu profiad sylweddol o bresenoldeb Twf, gan ddod ar draws neges Twf mewn amrywiol leoliadau, megis lleoliadau gofal iechyd, meithrinfeydd ac ysgolion a digwyddiadau cymunedol; a thrwy gyfryngau gwahanol, gan gynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb gyda Swyddogion Twf a derbyn deunydd Twf, fel y darlunnir yn yr adroddiad canlynol gan fam o Sir Gaerfyrddin:

“And once or twice when we've been to clinic, she (the Twf officer) hands out leaflets about raising children bilingually - and she has goody bags with CDs and other things and she sits and she talks to the mothers. She's very good.”

4.2.3.5 I'r gwrthwyneb, adroddai rhai rhieni am bresenoldeb prin Twf, wedi dod ar draws Twf am ysbaid fer, wrth dderbyn adnoddau Twf, er enghraifft, neu drwy eu presenoldeb tawel mewn digwyddiad o adloniant i blant. Yn wir, dywedodd nifer o rieni, nad oeddent yn gwybod beth oedd cylch gorchwyl cynllun Twf, y byddent yn gwerthfawrogi peth mewnbyn o natur yr hyn y mae Twf eisoes yn ei ddarparu, megis cynnig adnoddau a deunyddiau neu fynychu grwpiau chwarae er mwyn cyfleu neges fyddai'n hybu dwyieithrwydd yn y cartref.

4.2.3.6 Roedd peth cytundeb ymhlith atebwyr am natur neges Twf, gyda rhieni o bob cefndir iaith teuluol yn awgrymu bod a wnelo neges Twf yn ei hanfod â hybu dwyieithrwydd yn y teulu, fel y mae'r fam ganlynol o deulu sy'n siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych yn mynegi:

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

“They (Twf) are promoting (parents) to speak both languages at home.”

Ymddengys, felly, pan fydd rhieni wedi derbyn neges Twf, fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'i ffocws a'i goblygiadau; a'u bod yn ei dehongli fel y bwriadodd Twf iddynt wneud.

- 4.2.3.7 Rhoddodd y grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd dystiolaeth bellach i natur a lledaeniad neges Twf. Adroddai rhai ymwelwyr iechyd eu bod yn aml yn cael eu gwahodd i argymhell ysgolion i rieni newydd ac roedd un, yn arbennig, yn defnyddio'r adnoddau a gyflenwyd gan gynllun Twf i ledaenu negeseuon cadarnhaol ynghylch addysg ysgol ddwyieithog, fel y disgrifir yma:

“She (Twf officer) brought those (information leaflets) last week because it's something that we're asked so often, if we could recommend a school. So we can give the information and the parents could choose – so we'll have that which is useful.”

- 4.2.3.8 Mae effaith neges Twf yn thema sy'n treiddio drwy'r cyfan ac wedi ei gweu i mewn i'r casgliadau o'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni newydd. Mae denu'r nodwedd hon allan yn rhoi argraff gyffredinol o effaith cynllun Twf, fel y'i gwelir gan y rhieni. Mae clwstwr o atebion yn cyfleu'r safbwynt mai ychydig o effaith y mae Twf yn ei chael ar benderfyniadau rhieni. Priodolid hyn i ddau brif eglurhad. Naill ai un, am fod rhieni unigol heb glywed am Twf ac nad oeddent yn ymwybodol o'r gefnogaeth yr oedd yn ei chynnig, neu dau, oherwydd bod gan rieni farn gref eisoes am yr iaith y byddant yn ei defnyddio gyda'u plentyn. Felly, yn yr achos olaf, yn hytrach na chynorthwyo i ffurfio barn, mae unrhyw fewnbwn gan Twf wedi bod o gymorth i gadarnhau penderfyniad a chefnogi cynlluniau a luniwyd ynghynt, fel y darlunnir yn y dyfyniad canlynol gan dad o Geredigion:

“Ym, wel wnaeth e ddim rili newid dim byd achos o'n i'n mynd i wneud (siarad a'r babi) drwy'r Gymraeg anyway.”

- 4.2.3.9 Fodd bynnag, nid yw hyn i negyddu effaith cynllun Twf gan fod Twf yn cael ei weld, gan y rhieni hynny oedd yn ansicr sut i fynd ymlaen gyda magu eu plentyn yn ddwyieithog, fel adnodd i fynd i'r afael â phryderon a rhoi gwybodaeth, fel y mynegwyd gan fam o sir Gaerfyrddin:

“Um, I think it gave us a bit of support didn't it? And then they (Twf) had things in black and white to show you that, no, it should be encouraged and ... speaking to the child in one language with one parent and another language with another parent isn't going to confuse the child and it's going to help the child.”

- 4.2.3.10 Ystyriwyd effaith y gweithgareddau hyn hefyd gan yr atebwyr o blith y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yma roedd canfyddiadau ymwelwyr iechyd a bydwragedd yn ymddangos ar gontinwrm dimensiynol o barch cadarnhaol hyd at y negyddol, fel hyn:

“I think certainly, making information available, and I think that’s the difference they’ve made - they’ve made available choices for people isn’t it?”

“Dwi’n meddwl bod ‘na le i Twf - i allu wneud gwahaniaeth - ond dwi ddim yn meddwl fod e’n gwneud gwahaniaeth ar hyn o bryd.”

Crynodeb neges Twf

- Awgryma'r llenyddiaeth y gellir gwella trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd dwyieithog drwy fynediad at system gefnogi iaith, megis yr un a ddarperir gan deulu a chyfeillion, ond efallai y bydd mynediad at gefnogaeth o'r fath, i rieni cymysg eu hiaith a dysgwyr Cymraeg, yn gyfyngedig.
- Mae cynllun Twf yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth gadarn gyda rhieni sy'n eu grymuso i wneud dewisiadau gwybodus.
- Mae neges Twf yn tynnu sylw at werth y Gymraeg a dwyieithrwydd i rieni, darpar rieni a'r boblogaeth yn gyffredinol; ac yn annog teuluoedd i fagu eu plant i fod yn ddwyieithog.
- Er bod 56% o sampl ein hastudiaeth wedi derbyn neges Twf drwy daflenni gwybodaeth a 29% wedi derbyn CD Twf; 14% yn unig o'r sampl oedd wedi siarad â Swyddog Twf; 19% oedd wedi cael trafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith gyda bydwrraig; ac 11% oedd wedi cael trafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith gydag ymwelydd iechyd.
- Mae effaith Twf ar benderfyniadau rhieni ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref yn amrywio o'r prin i'r arwyddocaol. Adroddir am hyn gan rieni a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel ei gilydd.
- Lle roedd effaith Twf yn fychan, roedd rhieni naill ai heb glywed am Twf ac heb wybod am y gefnogaeth yr oedd yn ei chynnig neu roedd ganddynt farn gref eisoes am yr iaith y byddent yn ei defnyddio gyda'u plentyn.
- I'r rhieni hynny sy'n ansicr sut i fynd ymlaen gyda magu eu plentyn yn ddwyieithog, gwelir cynllun Twf fel ffynhonnell gwybodaeth ac adnodd i fynd i'r afael â phryderon.

4.2.4 Gweithgareddau Twf

- 4.2.4.1 Fe wnaeth gwerthusiad annibynnol Morris a Jones' (2002) o gynllun Twf, yn gynnar yn ystod ei ddatblygiad, adolygu ei ddeunyddiau marchnata a dod i'r casgliad, tra yr ystyrid y rhain yn bwysig i waith y cynllun, mai'r cyfan oeddent oedd *'only an adjunct to discussion with the field workers and health professionals'* ac *'excessive emphasis should not, therefore, be placed on materials at the expense of other aspects of the scheme.'* (tudalen 36).
- 4.2.4.2 Er gwaethaf yr argymhelliad hwn, datgelodd ein casgliadau ni, o gyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar rieni, wahaniaeth amlwg rhwng faint o adnoddau a faint o drafodaethau wyneb yn wyneb yr oedd rhieni wedi eu derbyn, fel yr adroddwyd yn gynharach. Roedd y data'n cadarnhau, yn ystod y cyfnod cyn y geni, bod rhieni bedair gwaith yn fwy tebygol o dderbyn taflenni gwybodaeth Twf na thrafodaeth gyda swyddog Twf ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. Ceir dau eglurhad am yr anghysondeb hwn. Yn gyntaf, mae natur ran-amser gwaith llawer o swyddogion Twf yn awgrymu diffyg gallu i gyrraedd yr holl ddarpar rieni drwy gyfarfyddiad wyneb yn wyneb. Yn ail, datgelodd y data o'r dadansoddiad gweithgaredd fod yna, ar adegau, ddiffyg rheolaeth gaeth ar weithgareddau Twf, a allai fod wedi arwain at rhy ychydig o bwyslais ar y cyswllt wyneb yn wyneb gyda rhieni.
- 4.2.4.3 Rhydd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni, ar ôl geni eu plentyn, hygredded i'r casgliadau hyn, gan mai un thema gyson oedd yn codi o'r data, hyd yn oed yn y cyfnod ar ôl y geni, oedd diffyg ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan gynllun Twf. Mae'r ffaith fod nifer o atebwyr wedi awgrymu gweithgareddau y gallent elwa oddi wrthynt, oedd, mewn gwirionedd, eisoes yn cael eu cynnal gan Twf, yn dystiolaeth i'r diffyg ymwybyddiaeth yma.
- 4.2.4.4 Er hynny, adroddai nifer bychan o atebwyr am eu cyfranogaeth mewn gweithgareddau a drefnwyd gan Twf. Roedd y rhain yn bennaf yn cael eu cynnal mewn digwyddiadau lleol neu genedlaethol megis sioeau ac eisteddfodau. Yma, mae'n debyg, roeddent yn gallu cynnig peth seibiant i rieni a phlant yn ystod diwrnod prysur ac er bod ymdrechion Twf, yn y rhan fwyaf o achosion yn y digwyddiadau hyn, yn ymddangos fel pe baent wedi cael ond ychydig o effaith ar benderfyniadau rhieni ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, fe wnaeth un fam o deulu sy'n siarad Cymraeg nodi'r cyfle y mae digwyddiadau o'r fath yn gallu ei gynnig:
- “Yn Eisteddfod yr Urdd eleni, nhw (Twf) oedd efo'r lle gorau i fwydo achos oedd e'n le bach neis a dwi'n meddwl bod nhw'n hybu eu hunain wrth wneud y petha' yma.”
- 4.2.4.5 Roedd rhai atebwyr wedi mynychu sgwrs mewn dosbarth cyn geni neu glinig ar ôl y geni ac roedd y sgysiau hyn wedi cael derbyniad da yn gyffredinol, gan y gwelid eu bod yn cael eu cynnig ar adeg hollbwysig i

ddylanwadu ar benderfyniadau ac i ymateb i bryderon rhieni unigol fel yr amlinellir isod:

“Also I think if you start it antenatally, you know where to go to start learning Welsh. By the time the child goes to school at four, they will have a good grasp of Welsh, even if they can't write it – they'd understand.”

- 4.2.4.6 Fe wnaeth bydwragedd ac ymwelwyr iechyd nodi, yn eu cyfweiliadau grwpiau ffocws, nifer o weithgareddau y mae Twf wedi eu mabwysiadu, yn amrywio o siarad â rhieni mewn amrywiol ddigwyddiadau cyhoeddus i grwpiau blynyddoedd cynnar a chlinigau mamolaeth a chlinigau iechyd plant; cynnig gwersi Cymraeg; cydweithio gyda mudiadau eraill, megis Menter Iaith; a hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill.
- 4.2.4.7 Cadarnhaodd y dadansoddiad gweithgaredd fod cynllun Twf yn defnyddio nifer o lwybrau i gyfleu ei neges, o ddigwyddiadau wedi eu trefnu'n genedlaethol i sgysiau anffurfiol fel yr oedd y cyfle'n codi. O ran digwyddiadau cenedlaethol, mae gan Twf bresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r Sioe Frenhinol Gymreig, y cyfan yn cael eu cynnal yn flynyddol dros nifer o ddiwrnodau. Fel arfer mae prif stondin arddangos yn cael ei llogi yn y digwyddiadau hyn ac mae hon wedi ei gosod yn agos at stondinau sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y Gymraeg. Bydd swyddogion Twf ar draws y rhanbarthau fel arfer yn gofalu am y stondin fesul dau neu dri. Byddant naill ai'n tynnu sgwrs ag oedolion wrth iddynt fynd heibio neu'n siarad â rhieni, y mae eu plant yn cael eu denu at y stondin gan y gweithgareddau a gynigir. Wedyn byddant yn trosglwyddo neges Twf ar lafar i'r oedolion ac yn cefnogi hyn drwy ddsbarthu adnoddau, megis taflenni a chylchlythyrau, y gall pobl gyfeirio atynt yn ddiweddarach.
- 4.2.4.8 Bydd swyddogion Twf yn dilyn patrwm tebyg mewn digwyddiadau lleol, megis sioeau amaethyddol. Roedd y data a gynhyrchwyd o'r dadansoddiad gweithgaredd yn darparu enghreifftiau niferus o neges Twf yn cael ei chyflwyno'n frwdfrydig ac yn cael ei derbyn yn eiddgar. Fodd bynnag, fe wnaeth y dadansoddiad hefyd dynnu allan ddata oedd yn tynnu sylw at agweddau negyddol y digwyddiadau, megis cynllunio ymlaen yn wael o safbwynt staffio, a diffyg alinio gyda chyrrff oedd mewn partneriaeth Gall talu sylw i'r diffygion hyn gynorthwyo cynllun Twf i wella ei ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Crynodeb o weithgareddau Twf

- Mae ymchwil flaenorol wedi nodi gwerth gweithgareddau cynllun Twf fel ffordd o bwysleisio pwysigrwydd datblygu dwyieithrwydd yn y cartref.
- Dengys ein hastudiaeth fod rhieni, yn ystod y cyfnod cyn y geni, bedair gwaith yn fwy tebygol o dderbyn taflenni gwybodaeth Twf na thrafodaeth gyda Swyddog Twf ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref.
- Awgryma hyn nad oes digon o Swyddogion Twf i gyrraedd eu cynulleidfa neilltuol hwy ac ar adegau bod yna ar adegau, ddiffyg rheolaeth gaeth ar weithgareddau Twf.
- Hyd yn oed yn y cyfnod ar ôl y geni, mae rhieni yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau a gynhyrchid gan gynllun Twf
- Efallai y caiff ymdrechion Twf i ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni, ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref, fwy o effaith pan gânt eu cyflwyno mewn clinigau mamolaeth a chlinigau iechyd plant yn hytrach nag mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol.
- Efallai y gallai cynllunio ymlaen yn well ar gyfer digwyddiadau Twf wella ei ymgyrchoedd yn y dyfodol.

4.2.5 Adnoddau Twf

4.2.5.1 Mewn ymdrech i ledaenu ei neges yn effeithiol ynghylch hybu dwyieithrwydd yn y cartref, mae cynllun Twf wedi sefydlu amrediad o ddeunyddiau brand o ansawdd da er mwyn marchnata'r manteision o fagu plant yn ddwyieithog. Mae neges allweddol Twf wedi ei chrynhai yn y daflen '6 Rheswm Da', sy'n adlewyrchu casgliadau ymchwil allweddol ynghylch manteision gwybyddol, diwylliannol a chwricwlaidd dwyieithrwydd. Mae'r daflen wedi ei chynnwys yn y pecyn Bounty o samplau am ddim a'r llenyddiaeth hysbysebu a ddosberthir i bob merch sy'n rhoi genedigaeth yng Nghymru. Ar adeg ein hastudiaeth roedd deunyddiau eraill Twf yn cynnwys:

- Poster 6 Rheswm Da
- Taflen 6 Rheswm Da
- Taflen Dewch i Ddarllen
- Cerdyn sganio Twf
- Cerdyn post Twf
- Cerdyn llongyfarch Twf
- Sticer car Twf
- Bwletin Twf
- Cryno ddisgiau 1 a 2 Twf
- Lyfrau lliwio Twf
- Calendr Twf
- Bib Twf

4.2.5.2 Fe wnaeth y mwyafrif llethol o gyfweiliadau gyda darpar rieni ddenu sylwadau am adnoddau Twf, gan fod y rhan fwyaf o rieni wedi derbyn deunyddiau o ryw fath. Derbyniwyd y rhain yn bennaf drwy drydydd parti, er enghraifft, mewn pecynnau Bounty, gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, meithrinfeydd ac ysgolion. Er bod yr adnoddau yn cael eu gwerthfawrogi i raddau helaeth gan rieni, ymddengys mai cyfyngedig yw eu heffaith. Nid yw hyn yn syndod, oherwydd, yng nghyd-destun hybu iechyd, mae Murphy a Smith (1993); a Davey, Austoker a Jansen (1998) yn cadarnhau bod trafodaethau wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol o lawer mewn newid agweddau na gwybodaeth ysgrifenedig. Awgryma ein data ni, nad yw y deunyddiau ar y gorau ond yn gymorth i gefnogi penderfyniad y rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babanod. Fodd bynnag, yn gyffredinol, fe'u gwelid fel adnodd defnyddiol i ddifyrru eu plant:

“Yeah, (play the Twf CD in the car) or even here (in the home). When he goes to crèche and it's just us, I Hoover along and sing! Sing along!”

Gwelid adnoddau Twf hefyd fel rhywbeth adloniadol yng nghanol bywydau prysur y rhieni, fel y dywedodd un tad oedd yn siarad Cymraeg o deulu C/S:

“I've seen the CD lying around the house but that's as far as it goes!”

4.2.5.3 Awgrymai'r cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ystyried hunaniaeth Twf fel agwedd gadarnhaol ar y fenter, gan fod natur wahanol cynnyrch Twf yn gymorth i agor sgwrs am ddwyieithrwydd ac yn rhoi hygredded i'r trafodaethau. Ar y sail hwn, maent yn awgrymu y dylai Twf dalu mwy o sylw i gyhoeddi ei lwyddiant, er mwyn gwneud yn fawr o'r hyn y mae wedi ei gyflawni.

4.2.5.4 Er bod yr adnoddau hyn wedi cael eu gwerthuso'n gadarnhaol iawn mewn adolygiad annibynnol ar eu cyflwyniad a'u cynnwys (Edwards a Pritchard Newcombe, 2007), cynghorai Morris a Jones (2002) y dylid gwella cyflenwadau stoc deunyddiau Twf. Datgelodd y dadansoddiad o weithgaredd ar amser ein hastudiaeth ni, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, fod anghysondeb ynghylch y cyflenwad stoc. Er enghraifft, dywedodd un swyddog Twf nad oedd hi'n cael unrhyw anhawster i gael adnoddau a'i bod yn awyddus i godi proffil Twf drwy ddsbarthu pecynnau adnoddau. Fodd bynnag, dywedodd swyddog Twf arall ei bod yn cael trafferth i gael digon o gyflenwad o adnoddau gan yr asiant, a gwelwyd hi'n dal adnoddau'n ôl pan oedd hi'n cael cyfleoedd i ddsbarthu deunyddiau i'r cyhoedd. Mae angen edrych i mewn ymhellach i'r anghysondebau hyn i ganfod y rheswm am farn ac arferion mor wahanol.

Crynodeb o adnoddau Twf

- Mae cynllun Twf wedi sefydlu amrediad o ddeunyddiau brand o ansawdd da er mwyn marchnata'r manteision o fagu plant yn ddwyieithog.
- Caiff yr adnoddau yma eu gwerthfawrogi ymhlith rhieni.
- Er hynny, yn ôl casgliadau'r llenyddiaeth o faes hybu iechyd, nid yw adnoddau ar eu pennau eu hunan yn debygol o beri newidiadau mewn agwedd nac ymddygiad.
- Awgryma'n data ni mai cymorth ydyw adnoddau Twf, ar y gorau, i gefnogi penderfyniadau rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.
- Ceir anghysondebau ynghylch cyflenwad stoc adnoddau Twf ac mae'r rhain yn galw am archwiliad pellach.

4.3 Dylanwadau'r gymuned ar drosglwyddo'r Gymraeg ac effaith Twf

4.3.1 Proffil iaith a statws y gymuned

4.3.1.1 Mae'r gymuned yn elfen sy'n ymddangos yn amlwg yn y llenyddiaeth ar drosglwyddo iaith mewn teuluoedd dwyieithog (e.e. Siren, 1995) ac nid yw'r astudiaeth hon yn eithriad. Roedd atebwyr yn barod i fynegi eu canfyddiadau o broffil yr iaith a statws eu cymunedau. Ymhellach, gwelwyd bod hyn yn effeithio ar eu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yn ogystal â chael dylanwad ar gynllunio a chyflawni gweithgareddau Twf.

4.3.1.2 Yn ystod y cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni newydd, roedd nifer ohonynt yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws arwyddocaol o fewn eu cymuned. Er gwaethaf pwysigrwydd canfyddadwy'r Saesneg fel iaith lafar, gwelir y Gymraeg yn aml yn iaith ddymunol ac yn un y mae nifer o rieni'n ymdrechu i'w sefydlu er mwyn eu plant. Darlunnir y safbwynt hwn gan fam a ddywedodd:

“It's (the Welsh language) quite fashionable. If you lived in Cardiff now, it's quite fashionable now to send your children to Welsh school. I think if you go to a Welsh school it's middle class isn't it?”

4.3.1.3 Er gwaethaf adroddiadau o'r fath, mae amheuaeth i ba raddau y mae canfyddiadau mor gadarnhaol am statws y Gymraeg ymhlith rhieni, gan fod trafodaethau'r grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn sôn mai'r Saesneg sy'n dal i gael ei hystyried yr iaith bwysig ymhlith llawer.

4.3.1.4 Er hynny, a derbyn bod cynifer â 64% o sampl atebwyr y cyfweiliad dros y ffôn yn credu bod bywyd cymdeithasol / diwylliannol eu plentyn yn y dyfodol wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref, mae canfyddiadau rhieni ynghylch y Gymraeg fel iaith gymunedol a'u daliadau normadol ynghylch dwyieithrwydd yn debygol o fod yn ddangosyddion allweddol o'u bwriad i ddefnyddio'r Gymraeg gartref. Mae hyn yn arwyddocaol hyd yn oed ymhlith siaradwyr di-Gymraeg, oedd yn adrodd bod eu hanesmwythyd, wrth orfodi siaradwyr Cymraeg i droi i'r Saesneg, yn aml yn gatalydd i ddysgu Cymraeg a throsglwyddo lefel o Gymraeg yn y teulu.

4.3.1.5 Daw'r amrywiaeth ym mhroffiliau iaith cymunedau â gwahanol bwyslais a heriau i waith Twf ac adlewyrchir hyn yn y modd y mae'n cynllunio ac yn trefnu'i weithgareddau. Er enghraifft, yn Sir Benfro, lle mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd yn S/S, mae gwaith Twf yn aml yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan gynnig dosbarthiadau Cymraeg drwy

'Gymraeg i Rieni' a chynghori dysgwyr Cymraeg ynghylch y ffordd orau i drosglwyddo'u Cymraeg cyfyngedig i'w plant.

- 4.3.1.6 Fodd bynnag, mae pwyslais gwaith Twf yng Ngheredigion yn gwahaniaethu oddi wrth ei waith yn Sir Benfro ac yn canolbwyntio ar strategaethau i hybu dwyieithrwydd mewn cartrefi cymysg eu hiaith; gan dynnu ar nodweddion cadarnhaol a gynigir gan neiniau a theidiau sy'n siarad Cymraeg, brodyr a chwirydd a chyfeillion; a chynnig adnoddau i gefnogi teuluoedd sydd eisoes wedi sefydlu trosglwyddiad y Gymraeg yn y cartref.

Crynodeb o broffil iaith a statws y gymuned

- Mae proffil iaith cymunedau a'r statws yr ystyrir sydd gan y Gymraeg yn y cymunedau hynny yn effeithio ar benderfyniadau rhieni ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- Roedd 64% o sampl y cyfweiliadau dros y ffôn yn credu bod bywyd cymdeithasol/diwylliannol eu plentyn yn y dyfodol yn ddylanwadol yn eu penderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo iaith yn y cartref.
- Felly, gall codi canfyddiadau rhieni ynghylch y Gymraeg fel iaith gymunedol efallai ddylanwadu ar eu penderfyniad yn hyn o beth.
- Mae'r amrywiaeth ym mhroffiliau iaith cymunedau yn dylanwadu ar y ffordd y cynllunnir ac y cyflawnir gweithgareddau Twf a chymerir y rhain i ystyriaeth ar lefel trefniadaeth o ran cynllunio a staffio strategol.

4.3.2 Cyflogaeth

- 4.3.2.1 Wrth ymchwilio i gymhelliad rhieni wrth ddewis ysgol gyfrwng Cymraeg, canfu Packer a Campbell (1996) fod rhieni'n aml yn nodi'r Gymraeg fel mantais o ran gyrfa yn ogystal ag o ran cyfoethogi diwylliannol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith rhieni nad oeddent yn siarad Cymraeg, lle roedd rhwyddineb yn y Gymraeg yn cael ei gydnabod fel mantais werthfawr wrth edrych am waith yng Nghymru.
- 4.3.2.2 Yng ngoleuni'r llenyddiaeth sy'n amlinellu manteision dwyieithrwydd yn y gweithle (e.e. Aitchison & Carter, 1999), mabwysiadwyd y neges hon gan gynllun Twf lle mae'n nodi, drwy ei ddeunyddiau brand, y cyfleoedd cyflogaeth gwell fel un o'r chwe rheswm da dros sicrhau bod plant yn gallu siarad Cymraeg.
- 4.3.2.3 Ategir argyhoeddiadau'r rhieni a adroddir gan Packer a Campbell (1996) gan gasgliadau ein hastudiaeth ni ynghylch canfyddiadau rhieni ynglŷn â gwerth sgiliau Cymraeg o safbwynt cyflogaeth. Mae'r data o'r cyfweiliadau dros y ffôn yn datgelu bod y gwerth a roddir ar y Gymraeg gan rieni ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn cael effaith ar eu bwriadau i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- 4.3.2.4 Yn ein hastudiaeth drwy gyfweiliadau dros y ffôn o ddarpar rieni, roedd cynifer â 94% o'r sampl mewn gwaith. Felly roedd yr atebwyr mewn sefyllfa ardderchog i wneud sylwadau ar y ffordd yr oedd eu profiadau

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref a'u gobeithion ar gyfer gyrfaedd eu plant yn y dyfodol. Dengys y data fod 74% o'r atebwyr yn credu bod gyrfa eu plentyn yn y dyfodol wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg. Mae'r dyfyniad canlynol yn esiampl o hyn:

"It's for job opportunities as well isn't it? You know, for the future isn't it? I wish somebody in my family had given me the option of speaking Welsh, the amount of jobs and other various things that I've missed out on because I don't speak Welsh, I don't want them to go through the same."

- 4.3.2.5 Ymhellach, i'r rhai oedd wedi dysgu Cymraeg, roedd eu penderfyniad i fagu eu plant yn ddwyieithog yn aml yn cael ei yrru gan eu methiant hwy eu hunain i ddod yn hollol rugl a'r diffyg dewis o ran cyfleoedd cyflogaeth o ganlyniad, fel y mae'r ddarpar fam ganlynol yn egluro:

"Although I did it (Welsh) in school and I did really well in my (Welsh) exam, I forgot a lot of it and I just feel that I wouldn't want them to go the same way, because ... things that I've wanted to go for – it was Welsh needed as well and ... I don't want them to feel that they can't do what they want to do because of that barrier."

- 4.3.2.6 Roedd cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni ar ôl geni eu plentyn yn adleisio'r casgliadau hyn. Teimlai llawer o atebwyr fod cael dwy iaith yn fantais i ddod o hyd i swydd, yn y lle cyntaf, ac wedyn i allu siarad ag eraill yn eu gwaith ac yn y gymuned ehangach. At hynny, dengys y data y gall amgylchedd iaith y gweithle gael dylanwad cadarnhaol ar sgiliau iaith rhieni a'u hyder, sefyllfa a danlinellir yn y dyfyniadau canlynol:

"Welsh is probably more my first language in work and because I am speaking it more, I've gained the confidence to speak it."

"Um, I learnt it at primary school, and carried on in high school, then I lost it a bit when I went to college, but then I started working for a solicitor in the town, and she does work in Welsh, so I have to go back to using Welsh on the phone, when people make appointments and things like that in Welsh."

- 4.3.2.7 Yn amlwg, mae'r cyfleoedd yma'n fwy tebygol o ddigwydd yn y rhanbarthau hynny lle y ceir y dwysedd mwyaf o siaradwyr Cymraeg. Er hynny, fel y dywed Jones a Morris (2007), er bod siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a Sir Ddinbych yn cynrychioli 50% a 26% o'r boblogaeth yn y drefn honno, o fewn y siroedd mawr yma ceir cymunedau lle y gall dwysedd y siaradwyr Cymraeg gyrraedd cyn uchod â 70%. Felly, dylai fod yna gyfleoedd i wella dwyieithrwydd yn y gweithle a chodi sgiliau Cymraeg

y gweithlu hyd yn oed o fewn siroedd gyda chyfrannau cymharol isel o siaradwyr Cymraeg.

- 4.3.2.8 Roedd cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn cynnig dealltwriaeth bellach am gymhellion rhieni dros fagu eu plant yn ddwyieithog, gan ategu casgliadau blaenorol. Adroddai gweithwyr iechyd proffesiynol fod rhieni yn aml yn cael eu gyrru gan yr angen i integreiddio i mewn i'r gymuned a gwell cyfleoedd bywyd i'w plant. Mae'r dylanwadau hyn yn arbennig o amlwg ymhlith rhieni oeddent eu hunain wedi eu hamddifadu o'r cyfleoedd i ddatblygu dwyieithrwydd yn gynnar yn eu bywyd, fel y darlunnir gan yr ymwelydd iechyd canlynol:

“I went to a family the other day, which has an older child, which is interesting, and Mum said that she wants him to learn Welsh because, if they are going to stay here, most of the jobs now are advertising that Welsh was desirable... so it would be easier for him when he comes to get a job if he could speak both languages....”

Crynodeb o gyflogaeth

- Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod siarad Cymraeg yn rhugl yn fantais werthfawr wrth edrych am waith yng Nghymru.
- Lledaenir y neges hon gan gynllun Twf yn ei ddeunyddiau brand sy'n nodi cyfleoedd gwaith gwell fel un o'r chwe rheswm da dros sicrhau bod plant yn gallu siarad Cymraeg.
- Dengys ein data fod 74% o ddarpar rieni yn credu bod gyrfa eu plentyn yn y dyfodol wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- A derbyn cryfder y teimlad ymhlith y rhieni, mae lle i gynllun Twf osod mwy o bwyslais ar y neges hon fel ffordd o wella trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- I'r rhai oedd wedi dysgu Cymraeg, roedd eu cymhelliad i fagu eu plant yn ddwyieithog yn aml yn cael ei yrru gan eu methiant hwy eu hunain i ddod yn hollol rugl a'r diffyg dewis o ran cyfleoedd cyflogaeth o ganlyniad.
- Gall amgylchedd iaith y gweithle gael dylanwad cadarnhaol ar sgiliau iaith a hyder y rhieni.

4.3.3 Ysgolion a meithrinfeydd

- 4.3.3.1 Awgryma Baker (2003) fod lledaeniad addysg ddwyieithog ar lefel gynradd ac eilradd, ynghyd â sefydlu'r Gymraeg fel pwnc gorfodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, wedi bod yn ffactorau o bwys, sydd wedi cyfrannu at wrthdroi dirywiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Er hynny, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod llawer o blant, sy'n derbyn addysg ddwyieithog, yn newid i'r Saesneg pan fyddant yn gadael yr ysgol (Gruffudd, 2000). Felly, yng ngoleuni gorddibyniaeth ar addysg fel ffordd o sicrhau dyfodol y Gymraeg, mae cynllunio i gaffael yr iaith hefyd wedi canolbwyntio ar drosglwyddo rhwng y cenedlaethau, drwy brojectau fel cynllun Twf
- 4.3.3.2 Mae Twf yn manteisio ar y dystiolaeth ymchwil sy'n cadarnhau manteision gwybyddol dwyieithrwydd (Bialystok, 2001). Ymhellach, mae ei neges yn annog defnyddio'r Gymraeg yn y cartref yn barod ar gyfer addysg ddwyieithog.
- 4.3.3.3 Dangosodd cyfweiliadau dros y ffôn gyda rhieni oedd yn disgwyl plentyn, ar draws y pedair sir, fod cymaint â 93% o'r sampl yn credu bod addysg eu plentyn yn y dyfodol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. Darlunnir hyn gan y fam ganlynol o Sir Gaerfyrddin.

“Yr unig ffactorau sydd wedi dylanwadu ni yw ydy bod ni yn byw yn XXX, chi'n gwybod. Mae e'n ardal Gymreigaidd iawn. Mae ysgolion o gwmpas ni i gyd, chi'n gwybod. Ysgolion Cymraeg ydy nhw, so mae'n bwysig bod XXXX yn dysgu (mewn) ysgol yn siarad yr iaith Gymraeg – yn deall beth mae pawb o'i chwmpas yn siarad am – neu fydd hi ar goll.”

Yn yr achos hwn roedd y fam yn awyddus i drosglwyddo'r Gymraeg i'w phlentyn yn barod ar gyfer addysg gyfrwng Cymraeg ac fel ffordd o sicrhau bod y plentyn yn dod yn rhan o'r gymuned leol.

- 4.3.3.4 Nodir y thema hon ymhellach mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni ar ôl geni eu plentyn, gan adlewyrchu arwyddocâd trosglwyddo iaith mewn perthynas ag addysg y plentyn. Mae'r casgliadau'n cadarnhau bod y rhan fwyaf o rieni, ar lefel y feithrinfa, 'waeth beth oedd eu cefndir teuluol, yn gwerthfawrogi'r cyfle i'w plentyn ddatblygu lefel o ddwyieithrwydd. Adlewyrchir y meddylfryd yma yng ngeiriau un tad o Sir Gaerfyrddin o deulu S/S i gyfiawnhau dewis meithrinfa gyfrwng Cymraeg fel hyn:

“I wanted him to have the basics in it (Welsh) as well, because, like I said, if they can speak both languages in this kind of area, I think it's beneficial for them anyway.”

- 4.3.3.5 Ar lefel addysg gynradd, ymddengys rhieni fel pe baent yn gosod ffydd sylweddol yn yr ysgolion, yn aml yn gweld y rhain fel y cyfrwng pennaf o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant a meithrin eu hyder mewn defnyddio'r

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Gymraeg. Yn wir, mewn rhai achosion, mae rhieni'n gadael y cyfrifoldeb am drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant yn gyfan gwbl i'r ysgol. I ddarlunio hyn, dywedodd un tad o deulu C/C:

“So I think that's where she'll (baby) really pick it up is in the primary school.”

4.3.3.6 Roedd y cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieuchyd yn rhoi hygyrdd i'r casgliadau hyn, gan gefnogi'r honiad bod ysgol yn cael dylanwad enfawr ar ddatblygiad iaith mewn plentyndod. Awgrymai atebwyr fod rhieni yn teimlo'n falch iawn o gyraeddiadau eu plant yn datblygu dwyieithrwydd, yn arbennig yn ifanc. Roedd dewis ysgol felly'n cael ei weld fel cam allweddol cyntaf ar y ffordd tuag at ddwyieithrwydd.

4.3.3.7 Dangosai cyfweiliadau gyda rhieni eu bod yn gwneud penderfyniadau ynghylch ysgol eu plentyn yn ôl tri phrif maen prawf, sef cyfleustra, cyfrwng iaith ac enw da. Awgrymai'r cyfweiliadau grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieuchyd fod y meini prawf hyn hefyd yn cynnwys dosbarth cymdeithasol, dewis personol; integreiddiad i'r gymuned a chyfleoedd bywyd; trosglwyddiad ysgol; a chynghor yr ymwelydd ieuchyd.

4.3.3.8 Mae rhieni prysur yn aml yn ystyried materion megis lleoliad daearyddol neu oblygiadau ariannol wrth ddewis ysgol neu feithrinfa i'w plentyn, gan wneud sylwadau y mae'r dyfyniad canlynol yn nodweddiadol ohonynt:

“Mae'n 'neud fwy o sens hefyd doddi fe (y plentyn) fewn fanna achos dim ond rownd y gornel yw e (yr ysgol).”

Mae'r ysgolion a'r meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn amrywio mewn siroedd ac ar draws siroedd ac mae hyn yn chwarae rhan bwysig o ran llunio penderfyniadau rhieni ynghylch trosglwyddo iaith

4.3.3.9 I rai rhieni, wrth wneud dewisiadau ynghylch darpariaeth addysgol ar gyfer eu plentyn, mae cyfrwng iaith y feithrinfa neu'r ysgol o'r pwys mwyaf, mewn rhai achosion yn cymryd y flaenoriaeth dros gyfleustra, fel y darlunnir gan fam â phroffil teulu C/S:

“But, we send XXX (son) to the Welsh school in XXX (town) which is in the next village down, because there wasn't much Welsh in the local school.”

4.3.3.10 Mae mwyafrif llethol y rhieni'n ffafrio ysgol gyfrwng Cymraeg ar lefel feithrin a chynradd. Fodd bynnag, mae eu cyfiawnhad dros y dewis hwn yn amrywio. Mae rhai rhieni'n gwneud y dewis yma oherwydd y gwerth y maent yn ei osod ar sicrhau bod eu plentyn yn ddwyieithog. Yn achos eraill, fel mantais eilaidd y gwelir dwyieithrwydd gan mai'r prif gymhelliad dros sicrhau lle mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg yw'r canfyddiad

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

bod ysgolion o'r fath yn cynnig profiad addysgol gwell i'w plentyn, neu'n darparu llwybr at amrediad ehangach o weithgareddau allgwrwicwlaidd, megis cystadlu mewn eisteddfodau ac ymuno â'r Urdd.

- 4.3.3.11 Roedd atebwyr yn disgrifio sut y gall dewisiadau rhieni o ran ysgol fod yn fater o gyfleustra, pryd, er enghraifft, mae ffactorau cymunedol ehangach, megis y clybiau ar ôl yr ysgol sydd ar gael a phwysau cyfoedion, yn cymryd y flaenoriaeth.
- 4.3.3.12 Er bod rhieni'n cydnabod manteision anfon eu plentyn i ysgol gyfrwng Cymraeg, mae rhai hefyd yn rhagweld anfanteision, a all dylanwadu ar eu dewis o ysgol. Er enghraifft, dengys y data cyfweld fod gan rai rhieni di-Gymraeg bryderon ynghylch eu gallu i gynorthwyo eu plentyn yn ddigonol drwy ei astudiaethau, fel y mae geiriau mam o deulu S/S yn darlunio:

"I mean, I do have reservations I suppose about secondary school and Welsh I suppose, because we'd be able to help even less, and then, because it's his second language - I don't know about doing things in Welsh - science for one - history - doing it in a second language - lots of extra demand."

- 4.3.3.13 Mae'r pryder y mae rhieni'n ei fynegi ynghylch eu plentyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gydnabod gan gynllun Twf; ac roedd rhai rhieni'n cydnabod yr ymdrechion yr oedd Twf yn eu gwneud i leihau'r ansicrwydd hwn

Crynodeb o ysgolion a meithrinfeydd

- Dengys y llenyddiaeth fod cynllunio caffael iaith yng Nghymru yn canolbwyntio ar addysg ddwyieithog ac ar drosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau yn y teulu drwy brojectau megis cynllun Twf.
- Mae Twf yn manteisio ar y dystiolaeth ymchwil sy'n cadarnhau manteision gwybyddol dwyieithrwydd. Ymhellach, mae ei neges yn annog defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, yn barod ar gyfer addysg ddwyieithog.
- Roedd 93% o'r sampl yn credu bod addysg eu plentyn yn y dyfodol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni, ar lefel y feithrinfa, 'waeth beth oedd eu cefndir teuluol, yn gwerthfawrogi'r cyfle i'w plentyn ddatblygu lefel o ddwyieithrwydd.
- Ymddengys bod rhieni'n gwneud penderfyniadau ynghylch ysgol eu plentyn yn ôl y meini prawf canlynol: cyfleustra, cyfrwng iaith, enw da, dosbarth cymdeithasol, dewis personol; integreiddiad i'r gymuned a chyfleoedd bywyd; trosglwyddiad ysgol; a chynghor yr ymwelydd ieched.
- Mae rhai rhieni'n gadael y cyfrifoldeb am drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant yn gyfan gwbl i'r ysgol.
- Mae gan rai rhieni S/S bryderon ynghylch eu gallu i gynorthwyo eu plentyn yn ddigonol drwy ei astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.3.4 Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

- 4.3.4.1 Mae cynllun Twf wedi gwneud penderfyniad strategol i gydweithio'n agos gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Yn wir, y cyntaf o ddau amcan y cynllun yw:

'cydweithio gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd fel eu bod hwy'n cyfleu neges Twf i'r gynulleidfa darged.'

- 4.3.4.2 Mae cynllun Twf wedi nodi'r gweithwyr proffesiynol hyn fel partneriaid allweddol oherwydd bod ganddynt gysylltiad â'r holl ddarpar rieni a rhieni newydd ac y gallant hwyluso mynediad swyddogion Twf at y rhieni hyn; a throsglwyddo'r neges yn uniongyrchol i rieni ar ran Twf. Mae Edwards a Pritchard Newcombe (2005) yn gweld hwn yn ddull doeth, gan eu bod yn dweud bod bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn mwynhau perthynas gynnes o ymddiriedaeth gyda'r mamau. Felly mae Twf yn gallu cyrraedd yr holl ddarpar rieni a rhieni plant dan oed ysgol yng Nghymru drwy weithio gyda'r gweithwyr proffesiynol hyn, sy'n fawr eu parch.

- 4.3.4.3 Serch hynny, wrth archwilio'r data, a gododd o'r cyfweiliadau dros y ffôn gyda theuluoedd C/C a C/S oedd yn disgwyl babi, ymddengys bod Edwards a Pritchard Newcombe (2005) wedi rhoi gormod o bwys ar werth y strategaeth hon. O'r 243 o atebwyr yn y sampl hon, dywedodd 91% fod bydwagedd naill ai'n amherthnasol neu ddim yn ddylanwadol o gwbl o ran gwneud penderfyniad ynghylch y defnydd o iaith gyda'u babi newydd. Er gwaethaf y ffaith fod gwaith ymwelwyr iechyd yn cael ei weld fel rhywbeth neilltuol o bwysig i broiect Twf, oherwydd bod datblygiad plant yn rhan ganolog o'u gwaith, hynod o isel, er hynny, ydoedd lefel eu dylanwad ar rieni, gyda 91% eto o rieni'n datgan bod ymwelwyr iechyd naill ai'n amherthnasol neu ddim yn ddylanwadol o gwbl o ran eu penderfyniad ynghylch y defnydd o iaith gyda'u babi newydd.

- 4.3.4.4 Efallai nad yw'r casgliad siomedig hwn yn syndod pan gymerir lefel profiad rhieni gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ystyriaeth. Er bod 146 (60%) o'r 243 o atebwyr C/C neu C/S, yn y cyfweiliadau dros y ffôn, yn dweud eu bod wedi dod ar draws neges Twf i ryw raddau, 19% (n=45) yn unig o'r 243 o atebwyr oedd wedi trafod trosglwyddo iaith gyda bydwraig ac 11% (n=27) gydag ymwelydd iechyd. Cadarnhawyd y casgliadau hyn gan ddata a gasglwyd o'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda rhieni newydd, oedd yn cadarnhau, er bod bydwagedd neu ymwelwyr iechyd wedi dosbarthu gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch trosglwyddo iaith, mai ychydig oedd wedi trafod y mater gyda rhieni, fel y dengys y dyfyniad canlynol:

"Yeah, she (midwife) did. It wasn't anything much was it?.... I really don't think she said much! (about Twf) Did she? I don't. I think. No. I really don't think she did talk about language it was more just erm, about you know, usual ante-natal things."

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- 4.3.4.5 Mae'r data a dynnwyd o'r dadansoddiad gweithgaredd yn atgyfnerthu'r casgliadau hyn, gan ddatgelu sefyllfa lle mae'r ymwelwyr iechyd a'r bydwragedd, sy'n gweithio gyda Twf, weithiau'n barod i ddsbarthu adnoddau ond yn disgwyl i swyddogion Twf gyfleu neges Twf i ddarpar rieni ac i rieni newydd. Er enghraifft, dywedodd un ymwelydd iechyd nad ei chyfrifoldeb hi oedd siarad â rhieni am drosglwyddo iaith gan mai cyfrifoldeb swyddog Twf oedd hyn.
- 4.3.4.6 Er nad yw'r sefyllfa hon yn un ddelfrydol, mae'n golygu y bydd darpar rieni a rhieni newydd yn dod ar draws neges Twf i ryw raddau. Fodd bynnag, roedd hon yn un o'r enghreifftiau mwy cadarnhaol o gydweithio rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a swyddogion Twf a ddatgelwyd yn y dadansoddiad gweithgaredd. Daeth tensiynau hefyd i'r amlwg, rhwng Twf a gweithwyr iechyd proffesiynol hefyd, gyda rhai o swyddogion Twf yn cael anhawster i gael mynediad at ymwelwyr iechyd a bydwragedd, tra roedd eraill, am amrywiol resymau, wedi eu cau allan yn llwyr o weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol.
- 4.3.4.7 Mae cyfweiliadau'r grwpiau ffocws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn cynnig rhai esboniadau am yr heriau i gynllun Twf, o ran cyrraedd eu prif darged o ddatblygu partneriaethau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Mynegodd bydwragedd ac ymwelwyr iechyd farn glir am eu rhan hwy mewn gwella dwyieithrwydd mewn plant. Ar y cyfan, roeddent yn gweld eu rôl broffesiynol yn hybu dwyieithrwydd yn fychan iawn, yn aml yn canolbwyntio ar ddsbarthu adnoddau neu ymateb i gwestiynau rhieni. Yn wir, roedd llawer o atebwyr yn cyfiawnhau'r rhan gyfyngedig hon drwy ymddiried y rôl naill ai i grŵp proffesiynol arall, neu i unigolion yr oeddent hwy'n eu gweld yn rhugl yn eu defnydd o'r Gymraeg. Rhydd y dyfyniad canlynol, gan fydwraig, flas o'r safbwynt hwn
- "I think it's (talking about language) probably more a health visitors' role."
- "I think it's quite difficult if you... don't speak any Welsh - I think possibly Welsh speaking health visitors more (important role in promoting bilingualism) ... I don't think I would say that is part of my remit."
- 4.3.4.8 Roedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn egluro nifer o ffactorau oedd yn dylanwadu ar y rhan yr oeddent yn ei chwarae mewn hybu dwyieithrwydd, gan gynnwys proffil iaith unigol yr ymwelydd iechyd neu'r fydwraig a lefel y cysylltiad yr oeddent yn gweld eu hunain yn ei gael gyda darpar rieni a rhieni newydd. Roedd yr ymwelwyr iechyd a'r bydwragedd, oedd yn cyflawni'r rôl o hybu dwyieithrwydd, yn siarad am bwysigrwydd teilwrio'r neges i ateb anghenion y teuluoedd yr oeddent yn eu gwasanaethu ac yn awgrymu eu bod yn cymryd proffil iaith y teuluoedd i ystyriaeth, oedran y babi a faint o groeso y teimlid y byddai'r neges yn ei chael gan deuluoedd.
- 4.3.4.9 Roedd rhan o deilwrio'r neges yn gysylltiedig â ddsbarthu adnoddau ac roedd hi'n ymddangos fod yna hierarchaeth o ddsbarthu adnoddau oedd

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

yn dibynnu ar amser, gwerth canfyddedig yr adnoddau a pha adnoddau oedd ar gael, fel y darlunnir yn y dyfyniad canlynol:

“Ond, os nag yw nhw (swyddogion Twf) yn dod a nhw (adnoddau) i ni, elen i ni ddim i edrych amdany'n nhw, achos mae shwt gymaint o waith ‘da ni...”

- 4.3.4.10 Mae'r rôl iechyd cyhoeddus yn amlwg yn agwedd bwysig ar waith ymwelwyr iechyd a bydwragedd a gwnaeth nifer o atebwyr sylwadau, yn y cyfweiliadau grwpiau ffocws, ynghylch y berthynas rhwng iechyd cyhoeddus a hybu dwyieithrwydd. Roedd y rhain yn amrywio o gydnabod y berthynas i wrthod bod perthynas yn bodoli, fel y darlunnir yn y dyfyniadau canlynol:

“I wouldn't say that discussing language transmission is part of the public health role.”

- 4.3.4.11 Fel y mae Edwards a Pritchard Newcombe (2005) yn dangos, yn cystadlu gyda llawer o alwadau eraill am amser ymwelwyr iechyd a bydwragedd. Felly, byddai'n ddoeth cymryd camau i sicrhau nad yw neges Twf yn mynd yn faich ychwanegol ond ei bod yn cael ei gweld fel rhan annatod o'u gwaith bob dydd. Mae'r ddealltwriaeth gymysglyd, sy'n amlwg yn bodoli ynghylch y berthynas rhwng iechyd cyhoeddus a dwyieithrwydd, yn cynnig cyfle i gynllun Twf integreiddio ei neges i mewn i rôl feunyddiol ymwelwyr iechyd a bydwragedd, drwy ddangos sut y mae trosglwyddo iaith a dwyieithrwydd yn gysylltiedig ag iechyd cyhoeddus. Gellid mynd i'r afael â hyn drwy ddigwyddiadau hyfforddi.

- 4.3.4.12 Mae cynllun Twf wedi targedu ei ymdrechion i harneisio cefnogaeth ymwelwyr iechyd a bydwragedd drwy gynnal digwyddiadau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol cymwys a thrwy gyfrannau at addysgu rhaglenni proffesiynol ar gyfer myfyrwyr, sy'n dilyn rhaglen addysg mewn ymweld iechyd neu fydweigiaeth. Dengys data o'r dadansoddiad gweithgaredd, pan gynigir hyfforddiant i grwpiau o'r fath, ei fod yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, ar amser yr astudiaeth, ni wnaed unrhyw ymgais i drafod sail ddamcaniaethol trosglwyddo iaith yng nghyd-destun gwaith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Er enghraifft, a derbyn eu diddordeb mewn iechyd cyhoeddus, mae'n nodedig na chafodd y berthynas rhwng dwyieithrwydd a iechyd cyhoeddus ei wneud yn fwy clir i'r cyfranogwyr yn y digwyddiadau hyfforddi.

Crynodeb o weithwyr gofal iechyd proffesiynol


- Mae Twf wedi gwneud cydweithredu gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn un o brif amcanion y cynllun, er mwyn iddynt hwy allu cyfleu neges Twf i'r gynulleidfa darged.
- Dywedodd 91% o atebwyr cyfweiliadau dros y ffôn fod bydwragedd ac ymwelwyr iechyd naill ai'n amherthnasol neu ddim yn ddylanwadol o gwbl o ran gwneud penderfyniad ynghylch y defnydd o iaith gyda'u babi newydd.
- 19% (n=45) yn unig o'r 243 o atebwyr oedd wedi trafod trosglwyddo iaith gyda bydwaig ac 11% (n=27) gydag ymwelydd iechyd.
- Mae'r data o'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn cadarnhau mai ychydig o fydwragedd neu ymwelwyr iechyd oedd wedi trafod y mater o drosglwyddo iaith gyda rhieni newydd.
- Mae ymwelwyr iechyd a bydwragedd yn disgwyl i swyddogion Twf gyfleu neges Twf i ddarparu rieni a rhieni newydd
- Ceir tensiynau rhwng cynllun Twf a gweithwyr iechyd proffesiynol, gyda rhai swyddogion Twf yn cael anhawster i gael mynediad at ymwelwyr iechyd a bydwragedd; neu yn cael eu cau allan yn llwyr o weithio gyda'r gweithwyr iechyd proffesiynol yma.
- Mae ymwelwyr iechyd a bydwragedd, ar y cyfan, yn gweld eu rôl broffesiynol yn hybu dwyieithrwydd yn fychan iawn, yn gyfyngedig yn y gwraidd i ddsbarthu adnoddau neu ymateb i gwestiynau rhieni.
- Mae'r rôl iechyd cyhoeddus yn agwedd bwysig ar waith ymwelwyr iechyd a bydwragedd, y gellid ei harneisio, drwy hyfforddiant, i wneud trosglwyddo neges Twf yn rhan greiddiol, yn hytrach nag yn elfen ychwanegol, o rôl gweithwyr iechyd proffesiynol.

4.3.4.13 Dengys y canlyniadau'n gyffredinol y gellid gwella cynllun Twf drwy gryfhau ei seiliau damcaniaethol er mwyn taflu golau ar y berthynas rhwng daliadau ac agweddau rhieni ynghylch trosglwyddo iaith a'u bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Mae'r Ddamcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig a gynigir gan Ajzen (1991) yn awgrymu bod a wnelo daliadau pobl â'u byd cymdeithasol, ac y bydd disgwyliadau pobl eraill sy'n arwyddocaol iddynt yn effeithio ar eu hymddygiad. Mae'r model hwn yn cynnig fframwaith i gynllun Twf ac fe'i cyflwynir yn yr adran sy'n dilyn.

5 Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig (Ajzen, 1991)

- 5.1.1.1 Mae Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad yn ceisio esbonio sut mae unigolion yn penderfynu ar gymryd rhan mewn gweithgaredd penodol neu ymddwyn mewn ffordd arbennig. Gall dealltwriaeth o'r fath fod o fantais fawr ym maes hybu iechyd, lle mae mabwysiadu dull iach o fyw dan sylw neu roi'r gorau i ymddygiad afiach, megis rhoi'r gorau i ysmegu, bwyta'n iach, ac yn y blaen.
- 5.1.1.2 Mae Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad Ajzen (1991) yn amlinellu sut mae pobl yn tueddu i ymddwyn yn ôl eu bwriad. Mae'r ddamcaniaeth yn tynnu sylw at y ffaith fod y berthynas rhwng bwriad ac ymddygiad yn fwy cymhleth nag y disgwylir, ac mae hynny oherwydd bod pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o dan eu rheolaeth. Mae'r ddamcaniaeth yn tanlinellu'r ffaith fod ymddygiad pobl yn dibynnu nid yn unig ar eu daliadau a'u bwriadau normadol ond hefyd ar eu canfyddiad ynghylch faint o reolaeth fydd ganddynt dros yr ymddygiad hwnnw.
- 5.1.1.3 Mae bwriad i ymddwyn yn dibynnu ar dri ffactor, sef:
- Agweddau tuag at yr ymddygiad
 - Normadau goddrychol (canfyddiad yr unigolyn ynghylch sut y bydd y bobl sy'n bwysig iddo yn edrych ar yr ymddygiad dan sylw)
 - Y rheolaeth ganfyddiadol dros yr ymddygiad (canfyddiad ynghylch faint o reolaeth fydd gan yr unigolyn dros yr ymddygiad dan sylw)
- 5.1.1.4 Mae'r ffactorau hyn yn eu tro yn dibynnu ar ddaliadau'r unigolyn neu'r gymdeithas y mae'n byw ynddi, er enghraifft:
- Mae agweddau'r unigolyn yn dibynnu ar ei ddaliadau personol ynghylch yr ymddygiad
 - Mae daliadau cymdeithas yn dylanwadu'n drwm ar ymateb ei deulu a'i gyfeillion
 - Dylanwadir ar ei ganfyddiad ynghylch faint o reolaeth fydd ganddo dros yr ymddygiad dan sylw gan ei ddaliadau personol, ei sgiliau, ei deimladau, a'r gefnogaeth sydd ar gael
- 5.1.1.5 Mae pobl y gwelir bod ganddynt fynediad at yr adnoddau a'r cyfleoedd angenrheidiol i gyflawni'r ymddygiad yn debygol o feddu ar raddau uchel o reolaeth ganfyddadwy ar yr ymddygiad (Ajzen, 1991). Cynigir model cysyniadol o Ddamcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig gan Ajzen (2002) a dangosir cymhwysiad o'r model i gynllun Twf yn Ffigur 2.

Ffigur 2
Cymhwyso Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad i gynllun Twf
(ar ôl Ajzen 1991)



- 5.1.1.6 Cymhwysir Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig yn eang mewn meysydd mor wahanol ag ymddygiad gyrru (Elliott et al., 2007), ymddygiad ymarfer corff (Brickell et al., 2006), ymddygiad hyfforddiant mabolgampau (Palmer et al., 2005), ymddygiad pleidleisio (Bassili, 1995), ymddygiad atal clefydau (Jemmott et al., 2007), ymddygiad atal cenhedlu (Agnew, 1998), ymddygiad bwydo o'r fron (Swanson a Power, 2005) ac ymddygiad bwyta ffrwythau a llysiau (Hewitt a Stephens, 2007).

**Cymhwyso Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig (Ajzen, 2002)
Ymchwil ar waith**

Cynhaliodd Stead et al., (2005) astudiaeth garfan hydredol bedair blynedd oedd yn archwilio effaith ymgyrch y cyfryngau torfol ar ddiogelwch ffyrdd yn yr Alban, a siapiwyd gan Ddamcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig, gydag agweddau, normau goddrychol a rheolaeth ganfyddedig ar ymddygiad fel y tri phrif ragfynegydd. Gwelsant gefnogaeth gyffredinol i'r penderfyniad i ddefnyddio Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig fel y sail theoretig i'r ymgyrch hysbysebu. Bu'r hysbysebu'n llwyddiant o ran ysgogi deilliannau cyfathrebu a ddymunid ac roedd yn gysylltiedig â newidiadau sylweddol mewn agweddau a daliadau affeithiol ynghylch goryrru.

Edrychodd Elliott et al., (2007) i mewn i allu newidynnau seicogymdeithasol i ragfynegi ymddygiad gyrwyr. Gwelsant fod Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig yn ragfynegydd cryf o fwriadau gyrwyr a'u hymddygiad goryrru yn ôl eu hadroddiad hwy eu hunain. Gwelsant mai bwriad oedd unig ragfynegydd ymddygiad goryrru a arsylwyd.

Cynhaliodd Swanson a Power (2005) astudiaeth ar normau goddrychol mamau newydd mewn perthynas â bwydo ar y fron a bwydo â photel a gwelsant mai normau goddrychol oedd penderfynyddion pwysicaf cychwyn a pharhau i fwydo ar y fron. Roedd y rhai oedd yn parhau i fwydo o'r fron yn canfod bod euartneriaid yn fwy o blaid bwydo ar y fron ar ôl chwech wythnos.

6 Trafodaeth

- 6.1.1.1** Mae canlyniadau astudiaeth asesu effaith Twf ac ymlaen yn dangos bod dau brif gategori o ddylanwad yn cael effaith wrth ystyried trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu ac mae a wnelo'r rhain â'r cartref yn gyntaf ac yn ail y gymuned. Mae'r gwahaniaeth rhwng dylanwadau'r cartref a dylanwadau'r gymuned yn bwysig oherwydd ei fod yn galw am ddealltwriaeth a gweithredu ar ddwy lefel eithaf gwahanol. Drwy dynnu ar y corff sylweddol o wybodaeth sydd wedi ei ddatblygu yn nisgyblaeth hybu iechyd, gellir gwneud gwahaniaeth defnyddiol rhwng y cartref a'r gymuned, lle mae canolbwynt dulliau unigol yn y cartref, a ffocws dulliau strwythuredig ar lefel y gymuned. Mae dulliau unigol yn canolbwyntio ar annog a grymuso pobl i newid eu hymddygiad ac, yn achos hybu iechyd, fabwysiadu dull iach o fyw, tra mae dulliau strwythuredig yn canolbwyntio ar ymdrechion i newid penderfynyddion iechyd megis, yr amgylchedd ffisegol, cymdeithasol ac economaidd (Douglas, 2007).
- 6.1.1.2** Dangosodd ein hymchwil fod perthynas glir rhwng nodweddion rhieni unigol a'r bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i fabi newydd. Er enghraifft, dengys y data fod agweddau'r rhieni tuag at ddwyieithrwydd, eu hyder a'u rhwyddineb, i gyd yn cael effaith ar eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babi newydd ac, yn y pen draw, a fydd y bwriadau hyn yn cael eu troi'n weithredoedd. Mae Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig (Ajzen, 1991) yn benthg ei hun yn dda fel model, y gellir ei ddefnyddio i ddeall pam mae rhieni'n penderfynu trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant neu beidio. Fel yr eglurwyd yn yr adran flaenorol, mae'r model yn ei hanfod yn rhagfynegi bwriad i ymddwyn ar sail daliadau, agweddau a chanfyddiadau'r unigolyn mewn perthynas, yn yr achos hwn, â throsglwyddo iaith, ymateb teulu a chyfeillion i'r mater a gallu'r unigolyn i reoli trosglwyddiad iaith. Yn gyffredinol, mae cynllun Twf yn mynd i'r afael â'r materion hyn hyd at lefel foddhaol.
- 6.1.1.3** Mae swyddogion Twf yn ymdrechu i ddylanwadu ar agweddau tuag at y Gymraeg drwy ddsbarthu deunyddiau hybu a thrwy siarad â rhieni, naill ai fel bo'r cyfle'n codi neu mewn sesiynau a digwyddiadau cynlluniedig. Ymhellach, maent wedi dechrau datblygu mentrau sy'n canolbwyntio ar adeiladu hyder a sgiliau yn yr iaith ac maent yn cynnig cyngor i rieni ynglŷn â strategaethau y gellir eu defnyddio i beri bod eu plant yn clywed yr iaith.
- 6.1.1.4** Wedi dweud hynny, mae hi'n amlwg yn yr ymchwil bod neges Twf yn methu â chyrraedd bron i hanner y rhieni C/C a C/S, sef cynulleidfa darged cynllun Twf, yn y cyfnod allweddol cyn y geni. At hyn, mae'r ymchwil hon yn datgelu bod cynllun Twf yn tueddu i fabwysiadu dull sydd ddim yn targedu grwpiau pendol wrth wneud ei waith, gan fod neges Twf yn methu â chyrraedd rhai grwpiau o bobl (e.e. tadau, teidiau a neiniau a phobl o grwpiau cymdeithasol economaidd is) sydd wedi eu dangos yn y data i ddylanwadu'n gryf ar y tebygolrwydd o rieni'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w

plant. Yn wir, mae'r deunyddiau y mae Twf yn eu dosbarthu yn bennaf at ddefnydd y rhieni'n gyffredinol; ac nid ydynt wedi eu teilwrio ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, megis tadau neu deidiau a neiniau.

- 6.1.1.5** Pan fydd rhieni'n derbyn y neges, nid yw hynny'n aml yn ddim mwy na derbyn taflen, heb ddim sgwrs i atgyfnerthu hynny. Un eglurhad tebygol am y diffyg cyfathrebu wyneb yn wyneb a gynigir i rieni yw'r nifer bychan sydd yna o swyddogion Twf i ateb i boblogaeth y sir y maent yn ei gwasanaethu, a'u gallu cyfyngedig i gael cyswllt unigol â rhieni oherwydd natur ran-amser swyddi llawer o swyddogion Twf.
- 6.1.1.6** Pan fydd swyddogion Twf yn cymryd rhan mewn trafodaeth wyneb yn wyneb gyda rhieni maent yn fedrus iawn wrth wneud pwyntiau sy'n berthnasol i'w cynulleidfa. Er hynny, mae'r rheiny sy'n derbyn neges Twf yn adrodd mai cadarnhau'r penderfyniadau y maent wedi eu gwneud, ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, y mae Twf yn gyffredinol.
- 6.1.1.7** Erbyn hyn mae wedi ei hen sefydlu fod ymyriadau sydd wedi eu bwriadu i ddylanwadu ar agweddau, daliadau ac ymddygiadau'n tueddu i fod yn fwy effeithiol pan fyddant wedi eu cynllunio a'u cyflwyno o fewn fframwaith dull damcaniaethol (Jepson, 2000). Fframwaith damcaniaethol o'r fath yw Damcaniaeth Ymddygiad Cynlluniedig. Mae'n cynnig arweiniad ar gyfer mesurau y gellid eu cymryd yng nghynllun Twf i wella'r gobaid y bydd rhieni'n cadarnhau eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant; ac y bydd y bwriadau hynny'n cael eu troi'n weithredoedd. Gallai mesurau o'r fath gynnwys:
- Canolbwyntio ar agweddau a daliadau rhieni – mae cynllun Twf wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd ond mae lle i wella.
 - Lledaenu eu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau rhieni a'u hyder mewn defnyddio'r Gymraeg fel y bydd rhieni'n teimlo bod ganddynt yr iaith angenrheidiol a'r cymwyseddau rhyngbersonol i reoli trosglwyddiad iaith gyda'u plant.
 - Defnyddio gwahanol ffyrdd a chyfryngau i ledaenu manteision:
 - Trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref
 - Dwyieithrwydd
 - Addysg gyfrwng Cymraeg
 - Mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, cynnig 'gweithdai teuluoedd a chyfeillion' i egluro agweddau a chymodi daliadau, fel bod effaith ymateb teulu a chyfeillion yn cael ei chydabod yn llawn gan bawb sy'n gysylltiedig.
- 6.1.1.8** Mae angen i gynllun Twf hefyd ystyried y mesurau y gellir eu cymryd i droi bwriadau'n ymddygiad. Dangosodd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn dilyn y geni, er bod llawer o rieni oedd wedi datgan eu bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg pan oeddent yn disgwyl y babi wedi glynu wrth y cynlluniau hyn, fod rhai wedi methu â sylweddoli eu huchelgais ac yn defnyddio llawer llai o Gymraeg gyda'u babi newydd nag oeddent wedi bwriadu ei wneud. Pragmatig oedd natur y rhesymau a roddid am y gwyriad hwn yn aml, er enghraifft, diffyg sgiliau, ymrwymiad pobl eraill yn

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

gyfyngedig neu amharoddrwydd neu anallu i darfu ar batrymau iaith sefydledig yn y teulu. Mae lle felly i gynllun Twf ddatblygu eu cronfa ddata o ddarpar rieni, sydd wedi datgan bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babi. Gellid wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon gyda rhieni o'r fath er mwyn sicrhau bod ganddynt y pecyn offer angenrheidiol (y sgiliau, y cymwyseddau, y strategaethau ar gyfer ymdrin â rhwystrau, mynediad at adnoddau) i'w galluogi i ymdrin â'r rhwystrau posibl ar ffordd trosglwyddo'r iaith wrth iddynt godi.

- 6.1.1.9** Ceir cyfoeth o dystiolaeth, sy'n archwilio'n fanwl effeithiolrwydd strategaethau a dulliau a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar ddewisiadau ac ysgogi newid mewn ymddygiad mewn addysg iechyd a hybu iechyd, fyddai o fudd i gynllun Twf. Mae llawer o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar werth cymharol y dulliau unigol a'r dulliau strwythurol a fabwysiedir.
- 6.1.1.10** Mae beirniadaeth sylweddol yn cael ei chyfeirio tuag at ddull sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar annog pobl i newid eu hymddygiad, oherwydd mai bychan yw'r berthynas a ganfuwyd rhwng gwybodaeth, agweddau ac ymddygiad (Bennett a Murphy, 1997). Ymhellach, mae hi'n amlwg fod nifer o ffactorau allweddol megis amgylchiadau amgylcheddol, strwythurau a diwylliannau cymdeithasol-wleidyddol, sydd i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth unigolion, yn cael dylanwad uniongyrchol ar ddulliau byw. Er enghraifft, dengys ein hymchwil ni, a gwaith eraill megis Aitchison a Carter (2000), er gwaethaf bwriadau da, fod llawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth rhieni yn dod i rym megis statws canfyddedig y Gymraeg, y gofal plant a'r addysg gyfrwng Cymraeg sydd ar gael, a all rwystro neu hyrwyddo trosglwyddiad iaith yn y teulu.
- 6.1.1.11** Felly, er yr ystyrir y dull unigol ar ei waethaf yn anfoesegol oherwydd ei fod yn arwain at 'feio'r dioddefwr', sy'n gwneud i bobl deimlo'n gyfrifol ac ar fai am beidio â gweithredu, ni ddylid anwybyddu'r dulliau sy'n sôn am ffordd o fyw yn gyfan gwbl. Gall fod yn rhesymol disgwyl rhyw lefel o newid ymddygiad fel canlyniad, os rhoddir ystyriaeth ofalus i'r syniadau damcaniaethol ac ymarferol sy'n sail i hynny. Ymhellach, dylai menter sy'n ffrwyth meddwl gofalus, ac sy'n arwain ymlaen at ddull strwythurol ehangach, olygu bod y nod yn cael ei chyflawni'n well, gan na all newidiadau strwythurol ar eu pen eu hunain arwain at welliant iechyd os nad yw'r cymwyseddau unigol yn eu lle.

- 6.1.1.12** Mae Aitchison a Carter (2000) yn cydnabod bod dulliau strwythurol yn allweddol i ddylanwadu ar fywiogrwydd y Gymraeg yng Nghymru ac maent yn dyfynnu dylanwad y cyfryngau, addysg a mentrau iaith cymunedol mewn trosglwyddo iaith. Fodd bynnag, fel y mae Gathercole et al., (2006) yn cydnabod, os yw cyd-destun y cartref yn annigonol i gefnogi trosglwyddiad iaith (er enghraifft, oherwydd diffyg rhwyddineb neu hyder), yna ni fydd ymdrechion a wneir ar lefel strwythurol yn dwyn ffrwyth. Er hynny, mae mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn hollbwysig gan fod hyn yn gyfrwng i siapio penderfyniadau rhieni ynghylch trosglwyddo iaith.
- 6.1.1.13** Felly, mewn perthynas â throsglwyddo iaith, gellid dadlau y byddai ymyriad ar y lefel unigol yn elwa o waith ategol sy'n canolbwyntio ar y lefel gymunedol. Fel y gwnaethom ddangos yn gynharach, mae cynllun Twf wedi datblygu lle iddo'i hun o ran gweithgaredd ar y lefel unigol, lle y targedir rhieni (yn bennaf) i fynd i'r afael â'u hagweddau eu daliadau a'u sgiliau iaith. Serch hynny, er mwyn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r boblogaeth gyfan, mae'n rhaid ategu hyn â dull sy'n troi o gwmpas y gymuned.
- 6.1.1.14** Rhoddir cryn werth ar ddatblygiad cymunedol fel dull sy'n anelu at rymuso'r gymuned a sicrhau bod y prosesau o wneud penderfyniadau, sy'n gysylltiedig â nodau ac amcanion strategaeth, yn eiddo i'r gymuned ei hun (Ritchie et al., 2004). Felly mae'n galluogi cymunedau i adnabod problemau, datblygu datrysiadau a hyrwyddo newid (Blackburn, 2000). Mewn geiriau eraill, y defnyddiwr sy'n arwain y datblygiad cymunedol ac, fel y cyfryw, mae'r datblygiad hwn yn galw am ffyrdd newydd o weithio.
- 6.1.1.15** Ar hyn o bryd nid yw swyddogion Twf yn cymryd rhan mewn gwaith datblygu cymunedol gwirioneddol gan fod hyn yn syrthio y tu allan i'w maes gorchwyl presennol; fodd bynnag, gydag ystyriaeth ofalus, efallai y gall cynllun Twf fod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer gwaith datblygu cymunedol. Mae'n amlwg y byddai angen rhywfaint o gytgord rhwng nodau hysbys y grŵp cymunedol a nodau cynllun Twf, ac, fel y cyfryw, byddai unrhyw fenter wedi ei chyfeirio tuag at wella'r hinsawdd gymdeithasol, amgylcheddol a gwleidyddol gyda'r bwriad o wella trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Pe bai grŵp cymunedol yn mynegi bod prinder cyfleoedd i gael darpariaeth feithrin Gymraeg yn rhwystro ymdrechion i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, efallai mai cynllun Twf fyddai'r asiant priodol i hyrwyddo gwaith datblygu cymunedol.
- 6.1.1.16** Un o egwyddorion allweddol gwaith cymunedol llwyddiannus yw cydweithredu effeithiol, i ganiatáu rhannu grym ac adnoddau er mwyn cyrraedd amcanion cyffredin neu gydnaws. Datgelodd yr ymchwil hon beth gweithio mewn partneriaeth rhwng cynllun Twf a chyrff eraill megis MYM. Fodd bynnag, tameidiog oedd hwn yn ymddangos, a'r hyn sy'n allweddol yw ei fod yn colli unrhyw effaith ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn y gellid bod wedi ei gyflawni wrth i gynllun Twf (neu ei bartner) weithio ar ei ben ei hun. A derbyn bod yna ddylanwadau lluosog ar drosglwyddo iaith yn y cartref, yn gweithredu ar amrywiol lefelau, mae'n angenrheidiol gweithio mewn ffordd systematig i sicrhau'r deilliannau a ddymunir drwy weithredu gyda'r holl sectorau hynny sydd â chyfraniad i'w wneud.

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Rhagflaenydd cydweithredu effeithiol, felly, yw'r gydnabyddiaeth gan asiantaethau na allant yn eu nerth eu hunain hwyluso gwaith o'r fath ac y bydd mewnbyn strwythuredig yn angenrheidiol, efallai gan lawer o gyrff ac asiantaethau, er mwyn cynhyrchu menter ddatblygu gymunedol effeithiol. Er enghraifft, efallai y bydd ar fenter, sy'n anelu at gynyddu'r ddarpariaeth lleoedd mewn meithrinfa gyfrwng Cymraeg, angen cyfraniad gan Twf, MYM, Mentrau Iaith, busnesau preifat, yr awdurdod addysg lleol, y cynghorau lleol a sirol ac eraill.


6.1.1.17 Mae Tones a Green (2004) yn dyfynnu o waith Henderson a Thomas (1980) ac yn amlinellu camau a chyfnodau allweddol yn y broses o ddatblygu cymunedol, a amlinellir yn Ffigur 3, y gellid eu defnyddio i fapio gweithgareddau priodol ar gyfer cynllun Twf ac i nodi ble mae yna rôl i Twf a ble y byddai gyrff cymunedol eraill (megis y Mentrau Iaith) mewn gwell sefyllfa i beri gweithgareddau torfol.

6.1.1.18 Fel y dengys Ritchie et al., (2004), awgrymir yn gyffredin fod arweinyddiaeth briodol a strwythurau trefniadol effeithiol yn hollbwysig i ysgogi cyfranogaeth gymunedol lwyddiannus. Yr her i gynllun Twf yw adnabod ei le o fewn dull datblygu cymunedol; cydnabod pwysigrwydd allweddol aelodau o'r gymuned, megis rhieni, grwpiau cymunedol (e.e. Merched y Wawr) a chyrff lleol (e.e. cynghorau tref) yn y broses; a defnyddio a chynyddu galluoedd ac adnoddau o fewn y gymuned. Ymhellach, os ydynt i gynnig gweithredu effeithiol, mae'n rhaid i gynllun Twf a gweithwyr datblygu cymunedol eraill gydnabod y dylai rhaglenni godi o'r gwaelod i fyny (Labonte, 1994). Un ffordd o sicrhau bod materion, sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, yn ymddangos ar raglenni sy'n cael eu gyrru gan y gymuned yw drwy godi statws y Gymraeg. Gweler Ffigur 2 am enghraifft o sut y gellir cyflawni datblygiad cymunedol.

6.1.1.19 Mae Baker (2003) yn dadlau bod codi statws iaith ar draws llawer o feysydd yn rhoi cymhelliad i deuluoedd ailgynhyrchu'r Gymraeg gyda'u rhai bach; ac mae hyn yn gydran allweddol o gynllunio iaith, y mae Cooper (1989 t. 45) yn ei diffinio fel:

'Deliberate efforts to influence the behaviour of others with respect to the acquisition, structure or functional allocation of their language codes'.

Ffigur 3
Cyfnodau allweddol yn y broses o rymuso cymunedol
 (yn dilyn Henderson a Thomas, 1980)



- 6.1.1.20** Mae ein hymchwil ni'n cefnogi gosodiadau Baker (2003), gan ddangos yn ddigamsyniol fod statws y Gymraeg yn arwyddocaol i ddarpar rieni, wrth ystyried trosglwyddo'r Gymraeg i'w babi newydd a phan fyddant yn gwneud ymdrechion i sicrhau mynediad i'w plant i weithgareddau Cymraeg yn y gymuned. Prif ganolbwynt cynllun Twf yw gweithio gydag unigolion, ond mae Twf yn gwneud rhai ymdrechion i hyrwyddo rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ymdrech hon wedi ei chanolbwyntio ar y lefel unigol, ac, er bod gwerth i'r lefel yma o ymdrech, y strategaeth lwyddiannus fyddai un fyddai'n cyfuno mentrau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda gweithgaredd ar lefel gymunedol.
- 6.1.1.21** Byddai symud tuag at weithio ar y lefel gymunedol i godi statws y Gymraeg yn cynnig 'haen o reswm' (Baker, 2003) arall i rieni drosglwyddo'r Gymraeg i'w rhai bach. Broceriaid amlwg gweithgaredd cymunedol o'r fath fyddai'r Mentrau Iaith ac Urdd Gobaith Cymru, y mae eu llwyddiant mewn rhaglenni datblygu cymunedol cysylltiedig â'r Gymraeg wedi ennill cydnabyddiaeth sylweddol (Williams, 2000, Llwyd Morgan, 2007). Fodd bynnag, yn ysbryd cydweithredu, gallai cynllun Twf wneud cyfraniad ychwanegol sylweddol at weithgareddau, seiliedig yn y gymuned, sy'n mynd i'r afael â statws y Gymraeg drwy eu profiad o weithio gyda theuluoedd a chyrrff sy'n canolbwyntio ar y teulu. Byddai mewnbyn o'r fath yn gymorth i sicrhau, drwy eu cyfraniad at gydweithio, y byddai'r cyfanwaith yn fwy na chyfanswm ei rannau.
- 6.1.1.22** Wrth y rhyngwyneb rhwng dulliau unigol a dulliau strwythurol y gorwedd marchnata cymdeithasol, sy'n golygu defnyddio'r cyfryngau torfol fel cyfrwng i gyfleu negeseuon cymdeithasol (Lefebvre & Flora, 1988). Mae'r dull hwn yn mabwysiadu theori marchnata i sicrhau bod gan negeseuon y cydbwysedd iawn o dargedu cynulleidfau, ymchwil sylfaenol a sianelau cyfathrebu. Felly, gellir cyfeirio'r marchnata cymdeithasol at grwpiau penodol (megis teuluoedd unigol) neu at boblogaethau cyfan.
- 6.1.1.23** Ni lwyddasom i ddod o hyd i lenyddiaeth oedd yn ystyried yn benodol effeithiolrwydd dulliau marchnata cymdeithasol i gyfleu manteision dwyieithrwydd yn y cartref; fodd bynnag, ym maes iechyd, ceir tystiolaeth o hysbysebu drwy'r cyfryngau torfol yn gweithredu fel sbardun i weithredu, lle mae codi ymwybyddiaeth am y tro cyntaf yn sbarduno penderfyniad cysylltiedig sydd wedyn yn symud i gyfeiriad gweithredu, (Bennett a Murphy, 1997). Er enghraifft, gall hysbysebu manteision dwyieithrwydd yn y teulu ysgogi darpar riant i drafod trosglwyddo iaith gyda'r partner neu rywun arall arwyddocaol, neu chwilio am wybodaeth ychwanegol.
- 6.1.1.24** Fodd bynnag, mae angen cael disgwyliadau realistig o effaith hysbysebu. Mae'n annhebygol y byddai ymgyrch ar y cyfryngau ar ei phen ei hun yn achosi newidiadau mewn agwedd nac ymddygiad ymhlith poblogaeth (Bauman, Madill, Craig & Salmon, 2004). Er hynny, fel rhan o raglen strwythuredig, sy'n tynnu ar arbenigedd amryw o fudd-ddeiliaid i gydweithredu ar wahanol lefelau o ymyrryd, efallai y byddai'n ddigon i

ysbrydoli unigolion a chymunedau i fabwysiadu gweithgareddau fyddai'n arwain at fwy o drosglwyddo'r Gymraeg.

- 6.1.1.25** Mae mater cydweithredu gyda budd-ddeiliaid yn un arwyddocaol wrth ystyried rôl gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn hybu dwyieithrwydd a throsglwyddo iaith yn y cartref. Cydnabyddir gan gynllun Twf fod ymwelwyr iechyd a bydwragedd yn gydweithredwyr canolog wrth gyfleu neges Twf i rieni newydd. Felly, gellid disgwyl bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hyn eisoes yn brysur yn cyfleu manteision dwyieithrwydd i ddarpar rieni a rhieni newydd.
- 6.1.1.26** Eto, dengys ein hymchwil ni mai anghyson, mewn gwirionedd, yw gwaith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y maes hwn a'i fod yn dibynnu ar duedd yr ymarferwyr unigol yn hytrach nag ar strategaeth wedi ei chynllunio'n dda sy'n cydreddeg gyda chynllun Twf. Yn amlwg, mae angen mynd i'r afael â'r casgliad siomedig hwn. Yn gyntaf, mae'n werth gofyn a ddylai cynllun Twf barhau i nodi ymwelwyr iechyd a bydwragedd fel chwaraewyr allweddol yn eu strategaeth gyffredinol i wella trosglwyddo iaith yn y cartref. I raddau, mae ateb cadarnhaol yn dibynnu ar ewyllys y ddau gorff i gydweithio.
- 6.1.1.27** Mae'n amlwg fod bwlb rhwng eu rolau. Mae cynllun Twf yn bodoli yn gyfan gwbl i hybu trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref tra mae a wnelo ymwelwyr iechyd a bydwragedd â phob agwedd ar iechyd y plentyn, y fam a'r teulu. Fel y cyfryw, rhywbeth sydd i'w weld ar ymyl allanol eu gwaith yw hybu dwyieithrwydd ac felly gallai fod yn un o'r gweithgareddau cyntaf i gael ei roi heibio, pan fyddai pwysau allanol yn bygwth eu gweithgareddau. Ar ben hynny, fe aeth ymwelwyr iechyd a bydwragedd i mewn i'w proffesiwn gyda'r bwriad o ymdrin â materion iechyd ac felly efallai nad ydynt yn hollol ymrwymedig i gyflawni'r rôl o hybu dwyieithrwydd, a welir gan rai cyfranwyr i'n hymchwil fel rhywbeth eilaidd i'w gwaith, yn hytrach na mater iechyd cyhoeddus allweddol.
- 6.1.1.28** Mae'n rhaid i ymwelwyr iechyd a bydwragedd ddilyn cyfnod hir o astudio, hyd at lefel gradd o leiaf, er mwyn cael mynd ar y gofrestr broffesiynol, tra nad oes rhaid i swyddogion Twf (sy'n cydweithio'n uniongyrchol gydag ymwelwyr iechyd) fod wedi cwblhau astudiaethau o'r fath. Gall yr anghysondeb hwn arwain at rai teimladau o arglwyddiaethu proffesiynol, yn enwedig gan fod ymwelwyr iechyd a bydwragedd yn cydweithio mewn system sydd o natur hierarchaidd. O ganlyniad i'r gwahaniaeth grym canfyddedig, mae'n bosibl i ymwelwyr iechyd a bydwragedd ddatblygu canfyddiadau negyddol neu ddi-hid ynghylch pwysigrwydd y neges y mae swyddogion Twf yn ceisio ei chyflwyno drwy weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac roedd hyn yn amlwg ymhlith rhai o'r cyfranogwyr yn ein hastudiaeth. Gall yr anawsterau hyn egluro'n rhannol pam y mae Baker (2003) yn amau a yw'r symudiad i weithio gydag ymwelwyr iechyd a bydwragedd yn cael effaith ar drosglwyddo iaith yn y cartref.

- 6.1.1.29** Er gwaethaf cyfyngiadau gweithio gydag ymwelwyr iechyd a bydwragedd, mae'n amlwg fod yna rai manteision o fabwysyiadau dull cydweithredol gyda'r gweithwyr iechyd proffesiynol hyn. Mae gan ymwelwyr iechyd a bydwragedd brofiad eang o weithio gydag unigolion, eu teuluoedd ac (yn achos ymweld iechyd) cymunedau cyfan. Ymhellach, oherwydd eu haddysg, maent yn gallu tynnu ar y sylfaen theori i sicrhau bod eu gwaith wedi ei gynllunio a'i gyflawni'n llwyddiannus. Yn wir, mae Lowe (2007), yn gwneud y pwynt mai ar lefel y teulu a'r gymuned y mae prif ffocws gwaith ymwelwyr iechyd, lle y dylent fod yn cydweithio gyda grwpiau cymunedol i gyrraedd nodau torfol. Gyda'i gilydd, felly, mae ymwelwyr iechyd a bydwragedd mewn sefyllfa gref i gyfleu neges Twf yn effeithiol ar lefel yr unigolyn ac ar lefel y gymuned. Maent yn adnabyddus, yn gyffredinol, yn y gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac fe'u gwelir fel asiantau credadwy'r gwasanaeth iechyd (Williams et al., 2004). O'r herwydd, doeth o beth fyddai i gynllun Twf ddyfalbarhau yn ei gysylltiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Serch hynny, mae angen cryfhau ac adolygu'r cysylltiadau hyn i raddau, er mwyn cynnwys cyfarwyddiadau polisi clir a chymryd diddordebau ac arbenigedd ymwelwyr iechyd a bydwragedd i ystyriaeth. Cyflwynir rhai awgrymiadau sut y gellir gwneud hyn yn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn.
- 6.1.1.30** Wedi dweud hynny, mae'n bwysig cydnabod na fyddai gormod o bwyslais ar gydweithio gyda un asiantaeth yn ddigon i gyrraedd nod gyffredinol Twf. Dylai cynllun Twf felly barhau i gryfhau ei gysylltiadau gyda phartneriaid eraill, megis MYM, ac ystyried datblygu partneriaethau newydd gydag amrediad mwy amrywiol o grwpiau a sefydliadau, megis gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymunedol, a chyrrff tai ac yn y blaen.
- 6.1.1.31** Un neges gref sy'n codi allan o'r llenyddiaeth yw bod gwerthuso'n elfen hanfodol o'r broses gyffredinol o gynllunio a datblygu unrhyw fenter, os am sicrhau ei bod yn goroesi ac yn hyfyw (Øvretveit, 1998).
- 6.1.1.32** Mae angen gwerthusiad cadarn i benderfynu'r lefel a'r graddau y mae cynllun Twf yn cyrraedd ei amcanion, yn ogystal â sicrhau defnydd effeithlon a chost-effeithiol o adnoddau. Yn ei hanfod, y ddau brif reswm dros werthuso cynllun Twf yw yn gyntaf, yr angen i gynhyrchu tystiolaeth gadarn ynghylch llwyddiant cyffredinol y cynllun, ac yn ail, yr awydd i ffurfio barn am werth amrywiol ymyriadau. Ymhellach, mae mabwysiadu strategaethau gwerthuso trylwyr yn brawf o barodrwydd i ddangos atebolrwydd am lwyddiant neu fethiant cynllun Twf.
- 6.1.1.33** Cydnabyddir bod dull o werthuso, sy'n mesur y broses a'r deilliannau, yn gyfrwng effeithiol i ganfod gwerth menter (Whitehead, 2003) a byddai'n ddull addas i werthuso cynllun Twf. Mae mesur deilliannau yn golygu mesur llwyddiant menter yn erbyn ei hamcanion, tra mae gwerthuso proses yn canolbwyntio ar gael dealltwriaeth o sut y cafodd yr effeithiau eu cyflawni.

- 6.1.1.34** Mae rhoi argymhellion manwl sut y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynllun Twf gyflawni eu proses o werthuso y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon. Er hynny, byddai'n rhesymol disgwyl fod y broses yn debygol o fod angen cyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol i sicrhau mesur yn ddigon dwfn ac eang. At hynny, byddai gwerthusiad gwrthrychol yn gofyn am brosesau monitro mewnol cadarn ynghyd â mesur gwrthrychol gan asiantau o'r tu allan i gynllun Twf.
- 6.1.1.35** I gloi, awgryma'r ymchwil hon fod cynllun Twf, fel menter sy'n ceisio hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cartrefi yng Nghymru, yn dechrau cael llwyddiant. Mae'r ymchwil yn cynnig peth tystiolaeth y gall cynllun Twf gefnogi teuluoedd i wneud y penderfyniad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plentyn os ydynt wedi derbyn neges Twf mewn digon o fanylder. Oni wneir teuluoedd yn ymwybodol o'r manteision y mae dwyieithrwydd yn eu cynnig iddynt, yna, bydd dod yn ddwyieithog yn rhywbeth fydd yn cael ei adael i siawns, ac isel yw'r tebygolrwydd y bydd dysgu siarad iaith leiafrifol yn digwydd yn 'naturiol'. Dylid datblygu lefel a natur y gefnogaeth a gynigir gan gynllun Twf; gan ddefnyddio'r sylfaen o theori sy'n cynnig arweiniad i ymgyrchoedd ar lefel yr unigolyn ac ar lefel y gymuned. Bydd hyn yn sicrhau y bydd strategaethau Twf yn y dyfodol, i hybu bywiogrwydd y Gymraeg yn y cartref, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o gefnogaeth ynghyd â nodau realistig ar gyfer rhieni a'r gymuned ehangach.

7 Argymhellion a'r ffordd ymlaen

7.1.1.1 Mae Twf yn anelu at gynyddu trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu drwy'r ddau amcan canlynol:

Amcan 1: Cydweithredu gyda bydwagedd ac ymwelwyr ieched fel y gallant hwy gyfleu negeseuon Twf i'r boblogaeth darged.

Amcan 2: Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd yn gyffredinol o werth cyflwyno'r Gymraeg yn y cartref, gwerth dwyieithrwydd a manteision addysg Gymraeg. Prif darged Twf yn hyn o beth yw darpar rieni a rhieni gyda babanod dan 6 mis oed.

7.1.1.2 Gan gymryd yr amcanion uchod i ystyriaeth, a thynnu ar gasgliadau'r astudiaeth, sy'n ganlyniad syntheseiddio'r pedair prif set o ddata, cynigir yr argymhellion canlynol i symud cynllun Twf yn ei flaen. Gweler Tabl 3.

Tabl 3
Argymhellion

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Ffocws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
1	1. Egluro rôl iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd a bydwagedd yng Nghymru mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd	Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd	d/b	Bwrdd yr Iaith Gymraeg Prif Swyddog Nyrsio Cymru Byrddau Iechyd Lleol Ymddiriedolaethau'r GIG Sefydliadau Addysg Uwch Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
1	2. Ceisio cyfarwydddebau statudol gan y llywodraeth a chyrrff profesiynol i gynnal safonau ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwagedd wrth iddynt fynd ar y gofrestr mewn perthynas â'u rôl yn cefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn	Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd	d/b	Bwrdd yr Iaith Gymraeg Prif Swyddog Nyrsio Cymru Y Coleg Nyrsio Brenhinol Coleg Brenhinol y Bydwagedd Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd – (CPHVA) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Focws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
1	teuluoedd yng Nghymru. 3. Nodi a chynnal cyfleoedd yn y cwricwla bydwreigiaeth ac ymweld iechyd i sicrhau a gwella'r ymwybyddiaeth o iaith a rhaglenni hyfforddi cynllun Twf	Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau focws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd	Daliadau ymddygiad	Sefydliadau Addysg Uwch
1	4. Sefydlu rôl newydd mewn sefydliadau gofal iechyd ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwragedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer cynllun Twf	Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau focws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd	d/b	Prif Swyddog Nyrsio Cymru Ymddiriedolaethau'r GIG Byrddau Iechyd Lleol
1 & 2	5. Sefydlu arweiniad unffurf ar gyfer swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd	Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau focws gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd	Gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu Yr ymddygiad a fwriedir	Swyddogion Twf Ymwelwyr Iechyd Bydwragedd

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Ffocws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
1 & 2	<p>a bydwagedd i ddatblygu gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu ar gyfer eu grŵp cleientiaid</p> <p>6. Sefydlu dulliau o weithredu ar gyfer swyddogion Twf, ymwelwyr ieuchyd a bydwagedd i ddatblygu strategaethau i droi bwriadau'n ymddygiad</p>	<p>Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr ieuchyd</p>	<p>Gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu Yr ymddygiad a fwriedir</p>	<p>Swyddogion Twf Ymwelwyr ieuchyd Bydwagedd</p>
2	<p>7. Cynllun Twf i gydweithio gydag ymwelwyr ieuchyd a bydwagedd dynodedig er mwyn cyrraedd teuluoedd Cymraeg/ Saesneg a theuluoedd eraill</p>	<p>Dadansoddiad o weithgaredd Twf Grwpiau ffocws gyda bydwagedd ac ymwelwyr ieuchyd</p>	<p>Gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu</p>	<p>Ymwelwyr ieuchyd Bydwagedd Swyddogion Twf</p>

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Ffocws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
	ar sail demograffeg leol			
2	8. Cynllun Twf i dargeddu grwpiau anodd eu cyrraedd, megis rhieni o grwpiau cymdeithasol-economaidd isel, darpar dadau ac aelodau eraill o'r teulu estynedig	Cyfweliadau dros y ffôn Cyfweliadau wyneb yn wyneb	Gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu	Ymwelwyr lechyd Bydwragedd Cynllun Twf Swyddogion Twf
2	9. Ystyried gwella systemau monitro a gwerthuso cynllun Twf er mwyn darparu dull gwerthuso mwy trwyadl	Dadansoddiad o weithgaredd Twf	d/b	Cynllun Twf Bwrdd yr Iaith Gymraeg
2	10. Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu ymgyrchoedd priodol i godi ymwybyddiaeth a gwella	Dadansoddiad o weithgaredd Twf Cyfweliadau dros y ffôn Cyfweliadau wyneb yn wyneb	Gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu Daliadau normadol Normau goddrychol	Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Ffocws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
	<p>gwybodaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> - manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref - manteision dwyieithrwydd - manteision addysg gyfrwng Cymraeg 			
	<p>11. Cynllun Twf i wella fflydd o weithio gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar i godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth ymhlith rhieni ynghylch :</p> <ul style="list-style-type: none"> - manteision trosglwyddo'r 	<p>Dadansoddiad o weithgaredd Twf Cyfweiliadau dros y ffôn Cyfweiliadau wyneb yn wyneb</p>	<p>Gwybodaeth ac awgrymiadau gweithredu Daliadau normadol Normau goddrychol</p>	<p>Cynllun Twf</p>

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Ffocws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
	Gymraeg yn y cartref - manteision dwyieithrwydd - manteision addysg gyfrwng Cymraeg			
2	12. Datblygu gwybodaeth rhieni am fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref	Cyfweliadau dros y ffôn Cyfweliadau wyneb yn wyneb	Agweddau tuag at ymddygiad	Ymwelwyr lechyd Bydwragedd Swyddogion Twf
2	13. Datblygu lefelau hyder a chymhwysedd rhieni wrth drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref	Cyfweliadau dros y ffôn Cyfweliadau wyneb yn wyneb	Rheolaeth ganfyddadwy	Ymwelwyr lechyd Bydwragedd Swyddogion Twf
Ystyriwch 3ydd amcan	14. Gweithio mewn partneriaeth gyda chyryff eraill i	Dadansoddiad o weithgaredd Twf	Pob cam yn y broses gymunedol	Bwrdd yr Iaith Gymraeg Cynllun Twf

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Amcan cynllun Twf	Argymhelliad	Tystiolaeth	Ffocws damcaniaethol	Cyfrifoldeb
2	<p>gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cymunedol er mwyn sicrhau bod ffocws y neges yn cyrraedd y lefel strwythurol yn ogystal â lefel yr unigolyn</p>	<p>Dadansoddiad o weithgaredd Twf</p>	<p>Rheolaeth ganfyddadwy</p>	<p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg Cynllun Twf</p>

Tabl 4 Enghreifftiau o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu'r argymhellion

Argymhelliad	Enghraifft o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu
<p>1. Egluro rôl iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd a bydwragedd mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru</p>	<p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg i annog: Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol i ddosbarthu cyfarwydddeb broffesiynol yn egluro rôl iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd a bydwragedd mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru</p> <p>Prif Swyddog Nyrsio Cymru i ddosbarthu cyfarwydddeb ymarfer yn egluro rôl iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd a bydwragedd mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru</p> <p>Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau bod y berthynas rhwng iechyd cyhoeddus a dwyieithrwydd ar lefel yr unigolyn, grŵp a'r gymuned yn cael eu cynnwys mewn cwricwla ymweld iechyd a bydwreigiaeth</p>
<p>2. Gofyn am gyfarwydddebau statudol gan y llywodraeth a chyrrff proffesiynol i gynnal safonau ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwragedd wrth iddynt fynd ar y gofrestr mewn perthynas â'u rôl yn cefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru</p>	<p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg i bwysleisio wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Prif Swyddog Nyrsio bwysigrwydd cefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd mewn ymarfer ymweld iechyd a bydwreigiaeth; ac arwyddocâd dwyieithrwydd ar gyfer iechyd cyhoeddus.</p> <p>Y Prif Swyddog Nyrsio i egluro i Arolygiaeth Iechyd Cymru yr achos neilltuoel dros sefydlu safonau mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg yng Nghymru.</p>

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Argymhelliad	Enghraifft o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu
<p>3. Nodi a chynnal cyfleoedd yn y cwricwla ymweld iechyd a bydwreigiaeth i gyflwyno a gwella ymwybyddiaeth o iaith a rhaglenni hyfforddi cynllun Twf</p>	<p>Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith yn nodweddu addysg bydwreigiaeth ac ymweld iechyd drwyddi draw yng Nghymru</p> <p>Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau bod arweinwyr rhaglenni ar gyfer rhaglenni arbenigol iechyd cyhoeddus a bydwreigiaeth yn peri bod myfyrwyr, yn dod wyneb yn wyneb â chynllun Twf yn ystod y rhaglenni addysgol.</p>
<p>4. Sefydlu rôl newydd mewn cyrff gofal iechyd ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwreagedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer Cynllun Twf</p>	<p>Y Prif Swyddog Nyrsio i ddsbarthu canllaw/cyfarwyddyd ynghylch sefydlu rolau arbenigol ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwreagedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer cynllun Twf</p> <p>Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau bod rolau dynodedig wedi eu cynnwys mewn manylebau ar gyfer comisiynu</p> <p>Ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod digon o ymwelwyr iechyd a bydwreagedd wedi eu penodi i'r rolau dynodedig</p> <p>Ymddiriedolaethau'r GIG i wahodd Twf i ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac addysg ar gyfer bydwreagedd ac ymwelwyr iechyd ynghylch cenhadaeth cynllun Twf, ei gynulleidfa darged a'i rôl</p>

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Argymhelliad	Enghraifft o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu
<p>5. Sefydlu arweiniad unffurf ar gyfer swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd a bydwragedd i ddatblygu gwybodaeth ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu ar gyfer eu grŵp cleientiaid</p>	<p>Cynllun Twf i gynnig gweithdai i hyrwyddo dulliau gwahanol o ledaenu manteision:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, • dwyieithrwydd • addysg gyfrwng Cymraeg <p>Swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd, a bydwragedd i ddatblygu ffyrdd o weithio i sicrhau bod ymwybyddiaeth o fanteision:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, • dwyieithrwydd • addysg gyfrwng Cymraeg <p>yn cael eu lledaenu'n effeithiol i'r gynulleidfa darged</p>
<p>6. Sefydlu dulliau gweithredu ar gyfer swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd a bydwragedd i ddatblygu strategaethau i droi bwriadau yn ymddygiadau</p>	<p>Swyddogion Twf, ymwelwyr iechyd a bydwragedd i ofyn am gyngor arbenigol a gweithio mewn cydweithrediad i ddatblygu strategaethau priodol i gefnogi rhieni sy'n mynegi'r bwriad i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref • rhoi'r cyfle i'w plant elwa o addysg gyfrwng Cymraeg <p>fel bod ganddynt yr adnoddau a'r cymwyseddau angenrheidiol i gyflawni eu bwriadau. Er enghraifft, gellid cysoni normau goddrychol drwy sefydlu gweithdai teuluoedd a chyfeillion</p>
<p>7. Cynllun Twf i gydweithredu gydag ymwelwyr iechyd a bydwragedd dynodedig i gyrraedd teuluoedd Cymraeg/Saesneg a theuluoedd eraill ar sail demograffeg leol</p>	<p>Swyddogion Twf i sefydlu dulliau o weithio gydag ymwelwyr iechyd a bydwragedd sy'n caniatáu iddynt rannu manylion rhieni rhwng sefydliadau o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf Gwarchod Data.</p> <p>Swyddogion Twf i sefydlu dulliau derbyniol ar gyfer cysylltu â rhieni targed a chodi eu hymwybyddiaeth o fanteision:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref • dwyieithrwydd • addysg gyfrwng Cymraeg

Argymhelliad	Enghraifft o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu
<p>8. Cynllun Twf i dargedu grwpiau anodd eu cyrraedd, megis rheini o grwpiau cymdeithasol-economaidd isel, darpar dadau ac aelodau eraill o'r teulu estynedig</p>	<p>Cynllun Twf i nodi ffyrdd o dargedu rhieni o grwpiau cymdeithasol-economaidd isel, er enghraifft drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cychwyn Cadarn • Canolfannau gwaith • Canolfannau hamdden <p>Cynllun Twf i nodi ffyrdd o dargedu tadau, er enghraifft drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Slipiau talu • pecynnau tadolaeth • gweithgareddau cysylltiedig â chwaraeon, megis clybiau rygbi/pêl-droed/criced <p>Cynllun Twf i nodi ffyrdd o dargedu teidiau a neiniau, er enghraifft drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • foreau coffi cymunedol • Merched y Wawr • Sefydliad y Merched • Round Table • clybiau golff • clybiau bowlio • grwpiau crefyddol • canolfannau hamdden <p>Bydwagedd ac ymweiwyr iechyd hefyd i nodi'r dulliau gorau i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â mater trosglwyddo iaith gyda thadau, a theidiau a neiniau yn y lleoliadau clinigol a'r cartref</p>

Argymhelliad	Enghraifft o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu
<p>9. Ystyried gwella systemau monitro a gwerthuso cynllun Twf er mwyn darparu dull gwerthuso mwy trwyadl</p>	<p>Cynllun Twf a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sefydlu dulliau newydd o fonitro ymarfer gan ddefnyddio dulliau trwyadl o werthuso e.e. fel y gellir cynnal gwerthusiadau'n hawdd yn y dyfodol. Dulliau o'r fath i gymryd proses a chanlyniad Ymyriadau Twf i ystyriaeth</p>
<p>10. Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu ymgyrchoedd hysbysebu priodol i godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> - manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref - manteision dwyieithrwydd - manteision addysg gyfrwng Gymraeg 	<p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sefydlu ymgyrch hysbysebu genedlaethol ar y cyfryngau (papurau newydd, radio a theledu) ynghylch manteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, manteision dwyieithrwydd, a manteision addysg gyfrwng Gymraeg</p>
<p>11. Cynllun Twf i wella ffyrdd o weithio gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar i godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth ymhlith rhieni ynghylch</p> <ul style="list-style-type: none"> - manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref - manteision dwyieithrwydd - manteision addysg gyfrwng Gymraeg 	<p>Swyddogion Twf i weithio mewn cydweithrediad gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar i ddatblygu strategaethau amrywiol i gefnogi rhieni sy'n mynegi'r bwriad i</p> <ul style="list-style-type: none"> • drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, • rhoi'r cyfle i'w plant elwa o addysg gyfrwng Gymraeg <p>fel bod ganddynt yr adnoddau a'r hyfedredd angenrheidiol i gyflawni eu bwriadau</p>
<p>12. Datblygu gwybodaeth rhieni am fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref</p>	<p>Cynllun Twf i gynnal ymgyrch hysbysebu genedlaethol ar y cyfryngau ynghylch manteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref</p> <p>Cynllun Twf i ddatblygu eu gwefan (www.twfcymru.com) fel bod gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd yn haws eu canfod. Byddai mwy o fanylion trwyadl ynghylch trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau o gymorth i deuluoedd C/S i wneud penderfyniadau gwybodus</p> <p>Bydwagedd ac ymwelwyr iechyd i rannu gwybodaeth ynghylch manteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref</p>

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Argymhelliad	Enghraifft o'r ffordd yr awgrymir symud ymlaen i weithredu
<p>13. Datblygu lefelau hyder rhieni a'u hyfedredd i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref</p>	<p>Cynllun Twf i ddarparu sesiynau 'Mae dy Gymraeg di'n gret' (Your Welsh is wicked) / 'Siarad babi' (baby talk) ar gyfer rhieni newydd, i gryfhau hyder rhieni i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn y cartref o ganlyniad</p> <p>Cynllun Twf i ofyn am gyngor arbenigol ynglŷn â sefydlu strategaethau pellach i godi hyder a lefelau hyfedredd</p> <p>Cynllun Twf i fonitro sesiynau gan ddefnyddio dulliau gwerthuso trwyadl</p> <p>Bydwagedd ac ymwelwyr iechyd i annog mamau a thadau heb lawer o hyder yn eu hyfedredd yn y Gymraeg i fynychu sesiynau a ddarperir gan cynllun Twf</p>
<p>14. Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cymunedol er mwyn sicrhau bod ffocws y neges yn cyrraedd y lefel strwythurol yn ogystal â lefel yr unigolyn</p>	<p>Cynllun Twf i nodi grwpiau budd-ddeiliaid perthnasol ac arweinwyr cymunedol, y dylent gydweithredu gyda hwy ar brojectau penodol, megis gweithio gyda mamau i sefydlu darpariaeth gofal plant gyfrwng Cymraeg mewn ardal.</p>
<p>15. Gwella gallu ac effeithlonrwydd gweithredol cynllun Twf er mwyn cynyddu'r cyswllt wyneb yn wyneb gyda rhieni</p>	<p>Cynllun Twf i sefydlu templedi cynllunio a gwerthuso corfforaethol er mwyn hyrwyddo cysondeb mewn arferion</p> <p>Cynllun Twf i ddatblygu cronfa ddata o ddarpar rhieni sydd wedi dangos bwriad i drosglwyddo'r Gymraeg i'w babi, ac i dargedu'r unigolion hyn yn eu cartref neu mewn clinigau cyn/ar ôl y geni</p> <p>Cynllun Twf i adolygu eu strategaeth gynllunio gweithlu bresennol</p>

8 Cyfeiriadau

- Agnew, C. (1998) Modal versus individually derived behavioural and normative beliefs about condom use: Comparing measurement alternatives of the cognitive underpinnings of the theories of reasoned action and planned behaviour. *Psychology and Health*, 13, 271-287.
- Aitchison, J. a Carter. H. (2000) *Language Economy and Society*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Aitchison, J. a Carter. H.(2004) *Spreading the word: The Welsh language 2001*. Y Lolfa, Cymru, y D.U.
- Ajzen, I. (1991) The Theory of Planned Behaviour. *Organizational Behaviour and Human Decision Processes*, 50, 179-211.
- Ajzen, I. (2002) Perceived Behavioural Control, Self-Efficacy, Locus of Control, and the Theory of Planned Behaviour. *Journal of Applied Social Psychology*, 32, 665-683.
- Baker, C. R. (1988) *Bilingualism: Pictures, Prejudices and Potentialities*. Bangor: Canolfan Astudiaethau Iaith.
- Baker, C. R. (1992). *Attitudes and Language*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. R. (2003) Language planning: A grounded approach. Yn J.M.Dewaele, A. Housen a Li Wei (golygyddion). *Bilingualism: Beyond Basic Principles*. Clevedon: Multilingual matters. 88-111.
- Bassili, J. N. (1995) Response latency and the accessibility of voting intentions: What contributes to accessibility and how it affects vote choice. *Personality and Social Psychology Bulletin*, 21, 686-695.
- Bauman, A., Madill, J., Craig, C. a Salmon, A. (2004) ParticipACTION. This Mouse Roared, But Did it get the Cheese? *Canadian Journal of Public Health*, 95 (Supplement 2), S14-S19.
- Benedict S., Campbell M., Doolen A., Rivera I., Negussie T. a Turner-McGrievy G. (2007) Seeds of HOPE: a model of addressing social and economic determinants of health in a women's obesity prevention project in two rural communities. *Journal of Women's Health*, 16(8): 1117-24.
- Bennett, P. a Murphy, S. (1997) *Psychology and Health Promotion*. Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.
- Bialystok, E. (2001) *Bilingualism in development: language, literacy, and cognition*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- Blackburn, J. (2000) Understanding Paulo Freire: reflections on the origins, concepts and possible pitfalls of his educational approach. *Community Development Journal*, 35, 3–15.
- Brickell, T. A., Chatzisarantis, N. L., a Pretty, G. M. (2006) Autonomy and control: augmenting the validity of the theory of planned behaviour in predicting exercise. *Journal of Health Psychology*, 11(1) 51-63.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (2006) *2004 Welsh Language Use Survey*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Coupland, N., Bishop, H., a Garrett, P. (2006) How many Wales? Reassessing diversity in Welsh ethnolinguistic identification. *Contemporary Wales* 18: 1-27.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) Learning Wales. *Childcare is for children*. http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news_details.asp?NewsID=2215. Ymwelwyd â'r safle ar 21/01/08.
- Davey, C. Austoker, J. a Jansen, J. (1998) Improving written information for women about cervical screening: evidence -based criteria for the content of letters and leaflets. *Health Education Journal*, 57, 263-281.
- Davies, E. (2005) Welsh in the family. *Agenda*, Awst,. 12 – 14.
- Douglas, J. (2007) Promoting the public health: continuity and change over two centuries. Yn Douglas, J., Earle, S., Handsley, S., Lloyd, C. a Spur, S. (golygyddion) *A Reader in Promoting Public Health: Challenge and Controversy*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen 12-18.
- Drinkwater, S. J., a O'Leary, C. (1997) Unemployment in Wales: does language matter? *Regional Studies*, 31, 583–91.
- Edwards, V. a Pritchard Newcombe, L. (2003) *Evaluation of the efficiency and effectiveness of the Twf project, which encourages parents to transmit the language to their children*. Reading: Prifysgol Reading.
- Edwards, V. a Pritchard Newcombe, L. (2005) Language transmission in the family in Wales: An example of innovative language planning. *Language Problems & Language Planning*, 29, 2, 135 – 150
- Elliott, M. A., Armitage, C.J. a Baughan, C.J. (2007) Using the Theory of Planned Behaviour to predict observed driving behaviour. *The British Journal of Social Psychology*, 46(1), 69-90.
- Fishman, J. (1991) *Reversing Language Shift*. Multilingual Matters, Clevedon.
- Gathercole, V, C. M., Thomas, E. M., Williams, E., a Deuchar, M. (2006) *Language transmission in bilingual families in Wales*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- Gruffudd, H. (2000) Planning for the use of Welsh by young people. Yn Williams C. (gol.). *Language Revitalisation*. Gwasg Prifysgol Cymru.
- Henderson, P. a Thomas, D. N. (1980) *Skills in neighbourhood work*. Llundain: Allen ac Unwin
- Hewitt, A. M., a Stephens, C. (2007) Healthy eating among 10-13 year old New Zealand children: understanding choice using the Theory of Planned Behaviour and the role of parental influence. *Psychology, Health & Medicine*, 12(5), 526-35.
- Higgs, G., Williams C., a Dorling, D. (2004) Use of the census of population to discern trends in the Welsh language: an aggregate analysis. *Area* 32.2, 187-201.
- Jemmott, J.B. 3rd; Heeren, G. A., Ngwane, Z., Hewitt, N., Jemmott, L.S., Shell, R., ac O'Leary, A. (2007) *Theory of Planned Behaviour predictors of intention to use condoms among Xhosa adolescents in South Africa*. *Aids Care*, 19(5) 677-84.
- Jepson, R (2000) *The Effectiveness of Interventions to Change Health-related Behaviours: a Review of Reviews*. MRC Social & Public Health Sciences Unit Occasional Paper no. 3.
- Jones, K., a Morris, D. (2007) Welsh- language socialization within the family. *Contemporary Wales*, 20(1), 52-70(19).
- Labonte, R. (1994) Health Promotion and Empowerment: reflections on professional practice. *Health Education Quarterly*, 21, 253–268.
- Lefebvre, R.C. a Flora, J. A. (1988) Social Marketing and public health intervention. *Health Education Quarterly*, 15, 299-315.
- Letourneau, A. R., Sonja, B., Mazure, C. M. O'Malley, S. S., James, D., a Colson, E. R. (2007) Timing and predictors of postpartum return to smoking in a group of inner-city women: an exploratory pilot study. *Birth*, 23(4), 245-52.
- Lyon, J. (1991) Patterns of parental language use in Wales. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 12, 3, 165-183.
- Llwyd Morgan, R. (2007) The challenge of language equality. yn C. Williams (gol.) *Language and Governance*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd, y D.U.
- McAllister, F., a Thomas, H. (2005) *Living lives through the medium of Welsh study*. Beaufort Research, Caerdydd y D.U.

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

- Morris, D. (1989) A Study of Language Contacts and Social Networks in Ynys Môn. Dyfynnwyd yn G. Williams a D. Morris. (2000) *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Morris, D., a Jones, K. (2002) *Twf Appraisal*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Murphy, S., a Smith, C. (1992) An examination of the use of leaflets by health promotion officers. *Health Education Journal*, 15(4), 166-170.
- Murphy, S., a Smith, C. (1993) *Crutches, Confetti or Useful Tools? Professionals views on and use of health education leaflets (Good Health Wales Technical Report No 3)*. Awdurdod Hybu Iechyd.
- Øvretveit, J. (1998) *Evaluating Health Interventions: An Introduction to Evaluation of Health Treatments, Services, Policies, and Organizational Interventions*. Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.
- Packer, A. a Campbell, C. (1996) *Pam fod rhieni yn dewis addysg Gymraeg i'w plant?* Aberystwyth: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru.
- Palmer, C. C., Burwitz, L., Dyer, A. N., a Spray, C. M. (2005) Endurance training adherence in elite junior netball athletes: a test of the theory of planned behaviour and a revised theory of planned behaviour. *Journal of Sport Sciences*, 23(3), 277-88.
- Reynolds, P., Bellin, W., ac Ab Ieuan, R. (1998) *A Competitive Edge: Why Welsh Medium Schools Perform Better*. Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.
- Ritchie, D., Parry, O., Gnich, W. a Platt, S. (2004) Issues of participation, ownership and empowerment in a community development programme: tackling smoking in a low income area in Scotland. *Health Promotion International* 19 (1), 51-59.
- Ritchie J. & Spencer L. (1994). Qualitative data analysis for applied policy research. Yn Bryman A. a Burgess R. *Analyzing qualitative data*, 173-194.
- Siren, U. (1995). Minority language transmission in early childhood. *International Journal of Early Years Education*, 3(2), 75-84.
- SPSS for Windows, Release 14.0 (2005) *SPSS Screen Images*. Surrey: SPSS Inc. Chertsey.
- Stead, M., Tagg, S., MacKintosh, A. M., ac Eadie, D. (2005) Development and evaluation of a mass media Theory of Planned Behaviour intervention to reduce speeding. *Health Education Research*, 20(1), 36-50.
- Swanson, V., a Power, K. G. (2005) Initiation and continuation of breastfeeding: theory of planned behaviour. *Journal of Advanced Nursing*, 50(3), 272-82.

Twf ac ymlaen: Asesiad effaith a'r ffordd ymlaen

Tones, K. a Green, J. (2004) *Health Promotion: Planning and Strategies*. Llundain: Cyhoeddiadau Sage

Tudor Hart, J. (1971) The Inverse Care Law. *Lancet*, 1, 4005-4012.

Whitehead, D. (2003) Evaluating health promotion: a model for nursing practice. *Journal of Advanced Nursing*, 41, 490-498.

Wiggins, M., Rosato, M., Austerberry, H., Sawtell, M., ac Oliver, S. (2005) *Sure Start Plus National Evaluation: Final report*. Adroddiad Ymchwil Uned Gwyddorau Cymdeithasol, Athrofa Addysg, Llundain.

Williams, C. (2000) Community empowerment through language planning intervention. yn C. Williams (gol), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, A., Allen, D., Carnwell, C., Griffiths, L., Heyerdahl, E., Irvine, F., Jones, M., Kenkre, J., Merrell, J. a Snooks, H. (2004) *Review of Primary Care in Wales*. Adroddiad Ymchwil. Prifysgol Cymru Abertawe.

Ystadegau Cenedlaethol (2001) *Cyfrifiad 2001: Report on the Welsh language*. Llundain: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, TSO.

Ystadegau Cenedlaethol. (2003) *2001 Census of Population: First Results on the Welsh Language, SB 22/2003*, Cyfarwyddiaeth Ystadegau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.